

Bundle Health Board - Welsh 23 September 2021

9.30am trwy Zoom
Sesiwn Cyhoeddus

- 1 Agenda
Agenda Health Board 23.9.21_Cymraeg v1.0.docx
- 2 21.159 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar y 15fed o Orffennaf 2021 er cywirdeb
21.159 Minutes Board 15.7.21 Public V0.2 Cymraeg.docx
- 3 21.160 Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021 er cywirdeb
21.160 Minutes AGM 29.7.21 V0.2_Cymraeg.docx
- 4 21.163 Adroddiad y Prif Weithredwr - Jo Whitehead
21.163 CEO report_Cymraeg.docx
- 5 21.167 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddaru Cofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) Meddygon i Gymru a Diweddaru Cofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) – Nick Lyons
21.167 Section 12(2)_Cymraeg.docx
- 6 21.173 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cynghori
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 6.7.21 (Lucy Reid)
Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 26.8.21 (John Cunliffe)
Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth 22.7.21 a 17.8.21 (Mark Polin)
Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 12.8.21 (Lyn Meadows)
Fforwm Partneriaeth Lleol 26.7.21 (Sue Green)
21.173.1 Chair's Assurance Report QSE 6.7.21 v1.0_Cymraeg.docx
21.173.2 Chair's Assurance Report QSE 7.9.21 v1.0_Cymraeg.docx
21.173.3 Chair's Assurance Report FPC 26.8.21 v1.0_Cymraeg.docx
21.173.4 Chair's Assurance Report RTS 22.7.21 and 17.8.21 v1.0_Cymraeg.docx
21.173.5 Chair's Assurance Report SPPHC 12.8.21 v1.0_Cymraeg.docx
21.173.6 Chair's Assurance Report LPF 26.7.21 v1.0_Cymraeg.docx
- 7 21.174 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad – Rob Nolan
21.174a QPR report template_Cymraeg.docx
- 8 21.175 Adroddiad Cynnydd Monitro Cynllun Gweithredol - Rob Nolan
21.175a OPMR Report template_Cymraeg.docx
- 9 21.176 Adroddiad Cyllid M4 – Rob Nolan
21.176 Finance Report M04_Cymraeg.docx
- 10 21.177 Adroddiad Cyllid M5 – Rob Nolan
21.177 Finance Report M05_Cymraeg.docx
- 11 21.185 Adroddiad Monitro Blynnyddol yr Iaith Gymraeg - Teresa Owen
21.185a Welsh Language Services Annual Monitoring Report_Cymraeg.docx
21.185b Welsh Language Services Annual Monitoring Report 2020-2021 Appendix 1_Cymraeg.doc
- 12 21.190 Crynodeb o Fusnes Heb y Cyhoedd y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus
21.190 Private session items reported in public_Cymraeg.docx

Agenda – Sesiwn Cyhoeddus

Dyddiad 23/09/2021
Amser 9:30
Lleoliad Yn rhithwir dros Zoom
Cadeirydd Mark Polin

BUSNES AGORIADOL
21.156 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb - Mark Polin
21.157 Stori Claf - Gill Harris
21.158 Datganiadau o Fuddiant
21.159 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar y 15fed o Orffennaf 2021 er cywirdeb
21.160 Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021 er cywirdeb
21.161 Materion yn codi a Thabl o Gamau Gweithredu
21.162 Adroddiad y Cadeirydd - Mark Polin
21.163 Adroddiad y Prif Weithredwr - Jo Whitehead
21.164 Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Thargeddu - Gill Harris
21.165 Diweddariad Covid-19 - Gill Harris
21.166 Cynnal Llywodraethu Da yn ystod Covid 19 - Louise Brereton
EITEMAU AR GYFER CYDSYNIAD
21.167 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru)

2008. Diweddaru Cofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) Meddygon i Gymru a Diweddaru Cofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) – Nick Lyons
21.168 Pwyllgor Gwasanaeth Arbenigol Iechyd Cymru: Comisiynu gwasanaethau newydd – Rob Nolan
DATBLYGU STRATEGAETHAU NEU GYNLLUNIAU NEWYDD – Y DYFODOL
21.169 Diweddariad Strategaeth Byw'n Iach Aros yn Iach - Chris Stockport
21.170 Diweddariad Trawsnewid Gofal Heb ei Drefnu - Gill Harris
21.171 Cynaliadwyedd – Rob Nolan
ANSAWDD, DIOGELWCH A PHERFFORMIAD – Y PRESENNOL
21.172 Llety Preswyl – cynnig i symud i fodel gwasanaethau a reolir - Sue Hill
21.173 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cynghori Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 6.7.21 (Lucy Reid) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 26.8.21 (John Cunliffe) Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth 22.7.21 a 17.8.21 (Mark Polin) Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 12.8.21 (Lyn Meadows) Fforwm Partneriaeth Lleol 26.7.21 (Sue Green)
21.174 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad – Rob Nolan
21.175 Adroddiad Cynnydd Monitro Cynllun Gweithredol - Rob Nolan
21.176 Adroddiad Cyllid M4 – Rob Nolan
21.177 Adroddiad Cyllid M5 – Rob Nolan
21.178 Diweddariad Grŵp Llywio Fasgwlaidd - Nick Lyons
21.179 Adroddiad Adolygu Achosion Covid-19 Ysbyty Gwynedd - Gill Harris
21.180 Adroddiad Blynyddol Teiran Lefelau Staffio Nyrsys - Gill Harris
21.181 Asesiad Anghenion Fferyllol - Chris Stockport

21.182 Cynllun Busnes Amlinellol Uned Iechyd Meddwl Oedolion ac Unigolion Hŷn Ysbyty Glan Clwyd - Teresa Owen
21.183 Darparu Gwasanaethau Awdioleg Gofal Cychwynnol : Cynllun Busnes - Chris Stockport
ADRODDIADAU BLYNYDDOL
21.184 Adroddiad Blynyddol Diogelu - Gill Harris
21.185 Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg - Teresa Owen
21.186 Crynodeb Ymgynghoriadau Blynyddol - Louise Brereton
MATERION I GLOI
21.187 Eitemau i'w Cyfeirio at Bwyllgorau
21.188 Adolygu'r Risgiau a Amlygwyd o fewn y Cyfarfod Ar lafar
21.189 Adolygu Effeithiolrwydd y Cyfarfod Gwahoddir aelodau i fyfrio ar effeithiolrwydd y cyfarfod
21.190 Crynodeb o Fusnes Heb y Cyhoedd y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus
21.191 Dyddiad y cyfarfod nesaf Bwrdd i Fwrdd gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned 21.10.21 Bwrdd Iechyd 18.11.21
21.192 Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd Penderfyniad i Wahardd y Wasg a'r Cyhoedd - "Bod cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i ddiddordeb y cyhoedd." (Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960"



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus
ar 15 Gorffennaf 2021 dros fideo-gynadledda Zoom

Yn bresennol:

Mark Polin	Cadeirydd
Louise Brereton	Ysgrifennydd y Bwrdd
Nicky Callow	Aelod Annibynnol ~ Prifysgol
Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol
John Cunliffe	Aelod Annibynnol
Gareth Evans	Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Arpan Guha	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro
Gill Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy Brif Weithredwr
Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Jackie Hughes	Aelod Annibynnol
Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Eifion Jones	Aelod Annibynnol
Lyn Meadows	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Lucy Reid	Is-Gadeirydd (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol
Linda Tomos	Aelod Annibynnol
Jo Whitehead	Prif Weithredwr (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad

Yn bresennol:

Peter Bohan	Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Diogeledd (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Andrew Champion	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Kate Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol (<i>ar gyfer cofnodion</i>)
Simon Evans-Evans	Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro
David Fletcher	Cyfarwyddwr Prosiect (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Ellen Greer	Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Datblygu Sefydliadol (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Lowri Gwyn	Cyfieithydd
Lesley Hall	Cyfarwyddwr Cyswllt Adnoddau Dynol (<i>yn dirprwyo ar ran Sue Green</i>)
Fiona Lewis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (<i>ar gyfer cymorth gyda ffrydio'n fyw</i>)
Sian Lewis	Rheolwr-gyfarwyddwr, Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Llinos Roberts	Rheolwr Busnes Gweithredol (<i>ar gyfer cymorth ffrydio'n fyw</i>)
Chris Subbe	Arweinydd Clinigol Gofal heb ei Drefnu (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Nia Thomas	Pennaeth Datblygu Sefydliadol (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Katherine Williams	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Chyngor Clinigol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)

Eitem ar yr Agenda a Drafodwyd	Gweithredu gan
21.108 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd 21/108.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd Iechyd a oedd yn cael ei ffrydio'n fyw er mwyn galluogi aelodau'r cyhoedd i wyllo'r cyfarfod mewn amser real. Gwnaeth hefyd atgoffa aelodau fod croeso iddynt gyfrannu yn eu dewis iaith gan fod cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael. 21.108.2 Cofnododd y Cadeirydd fod ystod o Weithredoedd y Cadeirydd wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd fel a ganlyn: 1. Gweithred Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ar 27.5.21 mewn perthynas â thendr ailddatblygu'r Uned Gofal Critigol yn Ysbyty Maelor Wrecsam 2. Cydbwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P) a Gweithred Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ar 15.6.21 o ran ailgomisiynu gwasanaethau orthodontig ym Mhenrhyndeudraeth 3. Gweithred Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ar 23.6.21 i gefnogi ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, er mwyn caniatáu cael cymeradwyaeth Gweinidogion ar gyfer rôl Cadeirydd 4. Gweithred Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ar 3.6.21 i gymeradwyo derbyn y tendr argymelledig ar gyfer y gwaith adfer yn dilyn datgomisiynu Ysbyty Enfys Llandudno 5. Cyd-bwyllgor Cyllid a Pherfformiad a Gweithred Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ar 21.6.21 i gymeradwyo contract gyda Lightfoot Solutions i ddarparu gwasanaethau ymgynghori ar ofal iechyd a thechnoleg arbenigol, i gynorthwyo Cynllunio ar gyfer y Gaeaf a darpariaeth a chymorth parhaus. 6. Gweithred Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ar 25.6.21 ar gyfer awdurdod i setlo hawliad o dros £1 miliwn 7. Gweithred Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ar 5.7.21 i gymeradwyo derbyn y tendr argymelledig ar gyfer y gwaith adfer yn dilyn datgomisiynu Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy	
21.109 Ymddiheuriadau am Absenoldeb 21.109.1 Cofnodwyd ymddiheuriadau ar gyfer Adrian Thomas, Sue Green a Morwena Edwards. Nododd y Cadeirydd hefyd y byddai Jo Whitehead a Lucy Reid hefyd yn ymuno'n ddiweddarach gan eu bod wrthi'n cyfarfod â'r Gweinidog.	
21.110 Datganiadau o Fuddiant 21.110.1 Dim un wedi'i ddatgan	
21.111 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 20.5.21 am fanwl-gywirdeb ac adolygu Cofnod Cryno o Weithredoedd	

21.111.1 Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod manwl-gywir a rhoddwyd diweddariadau i'r cofnod cryno o weithredoedd.	
21.112 Adroddiad y Prif Weithredwr 21.112.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr yr adroddiad fel yr oedd, ac ychwanegodd fod llythyr wedi'i dderbyn gan Brif Weithredwr GIG Cymru yn dilyn cyfarfod y Tîm Gweithredol ar y Cyd yn ddiweddar, a ddangosodd ymateb positif i'r cyfarfod hwnnw ac i gynnydd y Bwrdd yn erbyn Gwelliant wedi'i Dargedu. 21.112.2 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd nodi adroddiad y Prif Weithredwr	
21.113 Diweddariad ar Bandemig Covid-19 21.113.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y papur a'r sleidiau. Amlygodd ystod o bwyntiau fel a ganlyn: • Bod amrywiolyn Delta yn dal i fodoli yng Ngogledd Cymru. • Roedd niferoedd uchel o achosion Covid yn dal i gael eu gweld yn ardal Wrecsam. • Roedd derbyniadau ysbyty bryd hynny ar 33 mewn gwelyau llym, 8 mewn gwelyau cymunedol, gyda'r holl safleoedd yn dal i reoli llwybrau coch a gwyrdd. • Roedd cydweithwyr gofal cychwynnol yn parhau i sicrhau bod ymgynghoriadau wyneb yn wyneb yn cael eu darparu lle bo angen ochr yn ochr ag opsiynau rhithiol, ac roeddent hefyd yn rhoi cymorth o ran y rhaglen frechu parhaus. • Roedd niferoedd y staff sy'n ynysu (rhyw 130 neu fwy) yn creu heriau yn y gweithlu a oedd hefyd yn effeithio ar y rhaglen frechu. • Roedd achosion positif yn cael eu cofnodi mewn cartrefi gofal ond gyda symptomau llai arwyddocaol, ar y cyfan. • Roedd clwstwr bach o achosion yn Uned Ablett wedi'i reoli'n dda a'i gadw o dan reolaeth. • Edrychwyd o'r newydd ar arweiniad ymweld yn cynnwys unedau mamolaeth ar draws y Bwrdd Iechyd ond byddai hyn wastad yn amodol ar adolygu. • Roedd cynlluniau dwysáu yn parhau i fod ar waith ar draws yr holl wasanaethau pe bai angen. • Roedd hyrwyddo'r rhaglen frechu'n parhau gyda chymorth cydweithwyr Awdurdodau Lleol ac eraill, ac mae'r brechlyn bellach yn cael ei gynnig i bawb dros 18 oed. • Roedd y Ganolfan Frechu Torfol (MVC) yn y Gorllewin wedi'i hadleoli o Brifysgol Bangor i weithredu o Eglwys Gadeiriol Bangor, canolfan tennis Caernarfon, canolfannau hamdden ac ysbytai cymunedol. • Roedd y Ganolfan yn ardal y Canol yn parhau i fod yn Venue Cymru tan ddiwedd mis Gorffennaf ac roedd capasiti ychwanegol yn cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill. • Roedd y Ganolfan yn ardal y Dwyrain yn parhau i fod yng Nglannau Dyfrdwy a Chanolfan Catrin Finch, ynghyd â chanolfannau hamdden a chlybiau cymunedol/cymdeithasol.	

- O ran Covid Hir, roedd angen cyfleu'r neges bod hon yn broblem wirioneddol i lawer o unigolion. Roedd achos busnes yn cael ei lunio er mwyn sicrhau y gallai'r Bwrdd gynorthwyo'r unigolion hynny, ac roedd BIPBC yn falch o fod y Bwrdd Iechyd cyntaf i ddatblygu rhaglen hunanreoli penodol.

21.113.2 Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ddiweddariad ar 'Profi, Orlhain, Diogelu' gan gadarnhau nad oedd unrhyw anawsterau sylweddol er bod staffio'n parhau i fod yn heriol.

21.113.3 Cafwyd trafodaeth. Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â nifer y cleifion mewnol a gafodd eu brechu'n llawn, nid oedd gan Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y ffigurau wrth law ond byddai'n sicrhau eu bod ar gael y tu allan i'r cyfarfod. Nododd hefyd fod y dystiolaeth yn gyffredinol yn dangos bod y rhai a oedd wedi'u brechu'n dangos symptomau llai difrifol. Ail-bwysleisiodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y neges barhaus yn ymwneud â hybu brechu a oedd hefyd yn amddiffyn rhag amrywiolyn Delta.

21.113.4 Nododd Aelod Annibynnol fod niferoedd mawr o staff yn ynysu a'i fod yn poeni am yr effaith ar y gallu i gynnal gwasanaethau. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth mai dyletswydd gychwynnol y Bwrdd oedd tuag at gleifion a staff, a chan ddibynnu ar natur llacio unrhyw ofynion ynysu, efallai y byddai staff yn cael dychwelyd ynghynt pe bai modd iddynt ddarparu prawf PCR (adwaith cadwynol polymerasau) negatif. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y byddai angen parhau i ddilyn yr arweiniad presennol er mwyn cadw pobl yn ddiogel.

21.113.5 Tynnodd Aelod Annibynnol sylw at bryder ynghylch yr effaith ar ymwelwyr yng Ngogledd Cymru dros yr haf a chapasiti gwasanaethau iechyd i ymdopi. Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd nifer sylweddol o gleifion sy'n manteisio ar wasanaethau achosion brys a mân anafiadau yn byw yng Ngogledd Cymru. Roedd hyn yn dod â risgiau cynyddol o ran rheolau gwahanol yng Nghymru ac yn Lloegr a nododd y dylai negeseuon ar atal heintiau barhau i gael eu cynnal. Byddai angen i'r sefydliad reoli a monitro'r pwysau cynyddol ar draws yr holl wasanaethau trwy ddefnyddio cynlluniau ymchwydd a monitro'r effaith ar welyau cleifion mewnol a gofal wedi'i gynllunio fel ei gilydd. Tynnodd y Cadeirydd sylw at bwynt cyfleu pryderon ynghylch pwysau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid a nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y byddai negeseuon cyson yn parhau gyda phartneriaid i ofyn i bobl ddefnyddio Ap Covid y GIG ac i ddilyn gofynion ynysu os bydd gofyn iddynt wneud hynny. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd gael ei ddiweddarau'n gyson ar y mater hwn.

21.113.6 Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd am y sefyllfa ym maes gofal cychwynnol, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol fod y broses brysennu'n dal i fod ar waith wrth i nifer y cysylltiadau barhau i fod yn uchel, ond roedd ymgynghoriadau wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu bob amser lle bo angen. Gwnaed sylw y gallai rhai cleifion, yn enwedig y genhedlaeth hŷn, fod yn amharod i rannu manylion gyda staff derbynfa ond roedd hyn

GH

yn bwysig er mwyn caniatáu brysbennu priodol. Roedd Gofal Cychwynnol hefyd yn teimlo'r effaith sydd ynghlwm wrth staff sy'n gorfod ynysu. O ran cynaliadwyedd, roedd y nod o ehangu gofal cychwynnol y tu hwnt i fodelau traddodiadol staff meddygol a nyrsys gyda chymorth darparwyr eraill a gweithwyr proffesiynol yn parhau i fod ar waith. 21.113.7 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd nodi'r adrodd a'r cyflwyniad ategol ac i gefnogi penderfyniadau a wneir gan y Tîm Gweithredol Rheoli Digwyddiadau.	
21.114 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) 21.114.1 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd gadarnhau'r rhestr o ychwanegiadau a phethau a ddilëwyd ar Gofrestr Cymru Gyfan o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) a Chofrestr Clinigwyr Cymeradwy	
1.115 Dogfennau a Lofnodwyd o dan Sêl 21.115.1 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd nodi'r rhestr o ddogfennau a lofnodwyd o dan sêl.	
21.116 Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Chwarter 4 Iechyd a Diogelwch 2020-21 [Peter Bohan yn bresennol] 21.116.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Diogeledd yr adroddiad. Tynnodd sylw fod lefel y RIDDORs wedi cynyddu gyda chyfran fawr o'r rhain yn gysylltiedig â Covid, a chadarnhaodd fod pob un o'r rhain wedi'u hadolygu a'u hymchwilio. Roedd hyn yn ychwanegu at lefel y gwaith ynghyd â chymorth i sicrhau gofynion ymbellhau cymdeithasol, ac roedd gwaith yn ymwneud â threfniadau diogelwch wedi golygu iddi fod yn flwyddyn brysur i'r tîm corfforaethol. 21.116.2 Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â RIDDORs sy'n gysylltiedig â Covid, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Diogeledd fod y lefel yn lleihau erbyn hyn o gymharu â dyddiau cynnar y pandemig. Cyfeiriodd Aelod Annibynnol at y materion diogelwch a nododd y byddai systemau lluosog a pholisïau gwahanol yn effeithio ar ddulliau adrodd y sefydliad a'i allu i ymateb. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Diogeledd y byddai datblygu'r agwedd hon yn ffurfio rhan o'r achos busnes. 21.116.3 Roedd yr Aelod Annibynnol (Undebau Llafur) yn awyddus i gydnabod y gwaith partneriaeth ardderchog a oedd yn amlwg rhwng timau Iechyd Galwedigaethol a diogelwch a phartneriaid Undebau Llafur (ULI), a bod partneriaid ULI wedi derbyn cyflwyniad defnyddiol ar y cynnydd o ran cynnig hyfforddiant i reolwyr ar drais ac ymosodedd.	

21.116.4 Holodd Aelod Annibynnol p'un a oedd adnoddau a chapasiti digonol i gyflawni pob un o'r argymhellion y manylir arnynt. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Diogeledd fod nifer o achosion busnes ar y gweill i fynd i'r afael â hyn ac y byddai perchnogaeth ar y cyd yn allweddol. 21.116.5 Nododd y Cadeirydd fod niferoedd anafiadau ymysg staff yn lleihau ond teimlai fod 57 yn dal i'w weld yn lefel uchel. Soniodd Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Diogeledd fod themâu o'r rhain wedi'u canfod a'u hymgorffori i amcanion tîm. Yn ogystal, byddai angen i'r maes hwn gael sylw trwy well hyfforddiant codi a chario, sefydlu grŵp codymau a'r broses asesu risg. 21.116.6 Mewn ymateb i gwestiwn am brinder Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) mewn meysydd gwaith, nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod y brif her yn ymwneud â newidiadau i gyflenwyr masgiau FFP3 a arweiniodd yn ddiweddarach at yr angen i ailhyfforddi staff. Eid i'r afael â hyn trwy gyflwyno cerdyn adnabod i staff a oedd yn profi ar gyfer pa fasgiau yr oeddent wedi derbyn prawf ffitio. Nododd y Cadeirydd fod 18 o ddigwyddiadau'n cynnwys cleifion nad ydynt yn ymwneud â Covid a gofynnodd p'un a gafodd unrhyw dueddiadau amlwg eu canfod yn dilyn yr ymchwiliadau. Nododd Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Diogeledd mai codymau cleifion oedd y rhan fwyaf o'r achosion ac roedd y grŵp codymau'n mynd i'r afael â hyn. Ymrwymodd hefyd i edrych i mewn i'r rhesymau sydd ynghlwm wrth y nifer fawr o anafiadau gydag offer miniog yn ardal y Canol ac i gylchredeg nodyn y tu allan i'r cyfarfod. 21.116.7 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn diweddariad gan Gyfarwyddwr Cyswllt Adnoddau Dynol ar baragraffau 5.2 a 5.3 yn ymwneud â hysbysiadau gwella ac ymchwiliadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), a gofynnodd i hyn gael ei gylchredeg ymysg yr holl aelodau er gwybodaeth. 21.116.8 Nododd y Cadeirydd fod i rai o'r argymhellion oblygiadau o ran adnoddau a hyd nes bod rhai o'r achosion busnes perthnasol wedi'u datblygu trwy'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, na fyddai'r Bwrdd yn gallu eu cefnogi'n ffurfiol. 21.116.9 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd nodi'r sefyllfa a amlinellir yn yr Adroddiad Blyneddol a Chwarter 4 a chefnogi'r argymhellion hynny a oedd yn niwtral o ran adnoddau. <i>[Gadawodd Peter Bohan y cyfarfod]</i>	PB LH
21.117 Polisi Buddsoddi wedi'i Ddiweddarau mewn Cronfeydd Elusennol Moesegol 21.117.1 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r diweddariad i Bolisi Buddsoddiadau Cronfeydd Elusennol Moesegol.	
21.118 Y diweddariad ar Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	

21.118.1 Nododd y Cadeirydd y cyfeiriad at ddadansoddiad bylchau a oedd yn cael ei gynllunio i ganfod unrhyw briodoleddau o fewn y matricesau lle bo angen gweithredu ond lle nad oes gweithredoedd ynghlwm wrthynt, ac awgrymodd y dylai hyn fod wedi cael ei gwblhau erbyn hyn. Ymatebodd Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro mai gofyniad parhaus oedd hwn i sicrhau bod gweithredoedd a ganfuwyd o fewn y matricesau aeddfedrwydd yn cael eu hymgorffori i'r broses gynllunio hefyd. 21.118.2 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd nodi'r cynnydd o ran cyflwyno'r Gwelliant wedi'i Dargedu.	
21.119 Cyfarfod Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu a gynhaliwyd ar 1.6.21 Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod cyfarfod pellach wedi'i gynnal yn ddiweddarach a bod y grŵp llywio'n dechrau rhoi llywodraethu ar waith yn ehangach yn ymwneud â'r grwpiau effeithiolrwydd.	
21.120 Adolygiad wedi'i Gomisiynu gan y Bwrdd: Clwstwr o Achosion yn Ysbyty Gwynedd 2021 21.120.1 Soniodd y Cadeirydd ei fod wedi rhoi cyfarwyddyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda gan ei fod o'r farn nad oedd yr adroddiad yn mynd i'r afael â chylch gwaith llawn yr adolygiad. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yn mynd i'r afael â'r mater ac yn y cyfamser, roedd yn awyddus i roi sicrwydd i'r Bwrdd nad oedd yr adolygiad wedi canfod unrhyw weithredoedd i'w cymryd ar unwaith.	
21.121 Diweddariad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fasgwlaidd 21.121.1 Gwnaeth y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro gyflwyno'r papur. Tynnodd sylw at waith i adnewyddu rôl a strwythur y grŵp gorchwyl a gorffen i ddod yn fwy o grŵp llywio lle byddai grwpiau gorchwyl a gorffen yn adrodd wrtho. Roedd hyn wedi'i wneud ar y cyd â'r Cyngor Iechyd Cymuned. Nododd y byddai lefel o waith system gyfan yn hanfodol er mwyn gwella gwasanaethau a'u trawsnewid, a bod adolygiadau mewnol wedi cadarnhau y byddai angen ystyried yr ystod lawn o ryngddibyniaethau sy'n effeithio ar wasanaethau fasgwlaidd er mwyn sicrhau budd parhaus i gleifion. Tynnodd sylw fod Atodiad 1 yn amlinellu'r model presennol ar gyfer prif ganolfan a chanolfannau ategol a'r gweithgarwch ar draws yr Ysbytai Cyffredinol Dosbarth. 21.121.2 Awgrymodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro fod cynnydd da wedi'i wneud o ran gwaith llwybrau - er enghraifft, y llwybr traed diabetig a oedd yn cefnogi'r gwasanaeth, er nad oedd yn llwybr fasgwlaidd yn uniongyrchol. Nododd ei fod yn gobeithio fod wedi sefydlu'r llwybr yn y lleoliad cychwynnol ac eilaidd ymhellach erbyn diwedd yr wythnos. O ran gwelyau, roedd yn awyddus i dynnu sylw bod capasiti gwelyau'n ddibynnol ar y llwybrau clinigol a oedd yn dod i'r amlwg. Gwnaeth atgoffa	

aelodau bod meddwl clinigol wedi'i ddatblygu hefyd ers 2013 pan wnaed y penderfyniadau gwreiddiol, ond roedd yn bwysig nodi bod Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ac adolygiadau diweddarach ar draws y DU yn cefnogi'r model presennol sydd ar waith yn BIPBC. Cydnabu y byddai angen i ddiwylliannau a ffyrdd o weithio cynhenid fod yn hyblyg ac roedd proses ymgysylltu ar y gweill i fynd i'r afael â hyn. Un o brif feysydd y ffocws fydd defnydd optimaidd o'r theatr hybrid yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC). Bydd trefnu'r gwaith hwn yn effeithio ar gynlluniau swyddi presennol meddygon ymgynghorol a bydd angen mynd i'r afael â hyn. Atgoffawyd aelodau bod presenoldeb meddygon ymgynghorol yn agwedd bwysig ar atgyfnerthu'r gwasanaeth ar brif safleoedd a rhoddwyd sicrwydd iddynt fod cymorth fasgwlaidd arbenigol ar gael 24 awr y dydd, saith niwrnod o'r wythnos, ond roedd ystyried yr hyn a fyddai'n ei gymryd i fod â meddygon ymgynghorol yn bresennol bob dydd o'r wythnos wedi canfod rhai bylchau i fynd i'r afael â nhw o ran cynllunio swyddi.

21.121.3 Cydnabu'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro y pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth gyfathrebu'n effeithiol â chleifion a defnyddwyr ynghylch yr union beth yr oedd y gwasanaeth yn ei ddarparu a'r hyn nad oedd yn ei ddarparu. Roedd ef a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi cyfarfod â'r tîm cyfathrebu corfforaethol i gytuno ar gyfres o egwyddorion wrth fynd ymlaen a oedd yn cynnwys adnwewyddu tudalennau gwe perthnasol, codi ymwybyddiaeth ac esbonio pa wasanaethau sydd ar gael. Nododd fod rhai cleifion wedi rhannu eu profiadau positif o'r gwasanaeth fasgwlaidd.

21.121.4 Cyfeiriodd Aelod Annibynnol at drafodaeth gadarn ynghylch y papur yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) yn ddiweddar a bod y Pwyllgor wedi mynegi pryder ynghylch cyflymdra datblygu llwybrau ac roedd wedi gofyn am sicrwydd ynghylch yr hyn a oedd wedi newid o ran y model gofynnol ers 2013. Teimlai fod y wybodaeth yn Atodiad 1 bellach yn rhoi sicrwydd buddiol. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai ymarfer edrych yn ôl yn fuddiol ar ryw adeg yn y dyfodol o ran dysgu gwersi o'r newid gwasanaeth hwn, a gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro fynd ar drywydd hyn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth.

AG

21.121.5 Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod cyfweiliadau'n cael eu cynnal y diwrnod hwnnw ar gyfer swydd Rheolwr y Rhwydwaith Fasgwlaidd ac y byddai'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol Cyflenwi newydd ei benodi hefyd yn rhoi cymorth uwch yn y maes gwaith hwn.

AG

21.121.6 Gofynnwyd ymholiad ynghylch Atodiad 1 o ran p'un a oedd y model dau safle'n cael eu cynnal dros dro ar gyfer 2015-2019 yn ogystal â gweithredoedd fasgwlaidd mawr/mân yn YGC. Byddai hyn yn cael ei esbonio gyda'r gwasanaeth a byddai adrodd yn ôl y tu allan i'r cyfarfod. Nododd Aelod Annibynnol gyfeiriad hefyd at ddiffyg cyllideb ar gyfer y clinig wlserau traed diabetig yn y Gorllewin a gofynnodd p'un a oedd hyn yn peri pryder. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro fod hyn yn ymwneud â diffyg eglurder p'un a oedd cyllideb ar gyfer y gweithgarwch cynyddol.

21.121.7 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd dderbyn y diweddariad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fasgwlaidd.

21.122 Gwella Gofal Brys

[Mae Chris Subbe yn bresennol]

21.122.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y papur a thynnodd sylw fod yr holl Adrannau Achosion Brys (EDs) yn wynebu heriau eithafol ar hyn o bryd a oedd wedi'u gwneud yn waeth gan yr angen i brofi cleifion yno, cynnal llwybrau coch a gwyrdd, lleihad mewn gwelyau oherwydd gofynion ymbellhau cymdeithasol a lleihad mewn mynediad at welyau cartrefi gofal. O ganlyniad, roedd clinigwyr a staff, wrth reswm, yn teimlo o dan bwysau ac roedd y Cadeirydd a Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi cyfarfod â chynrychiolydd cydweithwyr yn ddiweddar i gytuno ar raglen wella. Roedd hyn yn cael ei roi ar waith gan fod arweinydd clinigol wedi'i benodi hefyd. Yn ogystal, roedd cynlluniau ardaloedd lleol yr oedd timau ardal yn berchen arnynt gan weithio gyda chydweithwyr Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill.

21.122.2 Cydnabu Arweinydd Clinigol Gofal heb ei Drefnu fod hwn yn faes hynod anodd i'r Bwrdd ei ddatblygu a byddai rhywfaint o'i ffocws cynnar ar ddehongli'r data er mwyn canfod lle y gellid cyflwyno gwelliannau cynnar, ac i rwydweithio ac ymgysylltu â staff ar bob safle. Nododd fod ystod o themâu eisoes wedi'u canfod gan staff a byddai angen ystod o fetrigau yr oedd pawb, gan gynnwys y cyhoedd, yn eu deall yn glir.

21.122.3 Cyfeiriodd Aelod Annibynnol at Ffigur 1 yn yr adroddiad a bod allanolyn amlwg yn ymwneud â Covid ond ymddengys nad oedd cydberthynas rhwng derbyniadau a pherfformiadau. Cytunodd Arweinydd Clinigol Gofal heb ei Drefnu nad oedd y data ar hyn o bryd yn rhoi esboniad clir o ran yr hyn a oedd yn digwydd y tu ôl i'r ffigurau. Awgrymodd fod angen i'r data fod yn fwy llinellol a rhoi dadansoddiad o elfennau o brofiad hefyd. Aeth yr Aelod Annibynnol yn ei flaen i nodi bod y rhaglen wella fel y'i hamlinellir yn generig iawn o ran lleihau niwed, chytunodd Arweinydd Clinigol Gofal heb ei Drefnu fod angen canfod canlyniadau mwy diffiniedig a sicrhau bod modd eu holrhain. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd hyn yn darged ond yn fwy o safon gwasanaeth.

[Ymunodd Jo Whitehead a Lucy Reid â'r cyfarfod]

21.122.4 Nododd Aelod Annibynnol yr her sydd ynghlwm wrth lif yn ymwneud â chleifion sy'n addas i'w rhyddhau a gofynnodd am sicrwydd bod diagnosteg ynghlwm wrth y broses hon. Cadarnhaodd Arweinydd Clinigol Gofal heb ei Drefnu mai cynllun system gyfan oedd hon a bod angen i'r holl elfennau ryngweithio a chymryd rhan. Holodd Aelod Annibynnol arall p'un a fyddai agweddau ansoddol yn cael eu hystyried er mwyn bod yn sail i wella gwasanaethau. Nododd Arweinydd Clinigol Gofal heb ei Drefnu mai dyna oedd y bwriad gan nad oedd unrhyw fesurau canlyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion o fewn gofal heb ei drefnu. Yn genedlaethol, mae rhai blaenoriaethau wedi'u cytuno i'r corff o feddygon llym ym maes gofal brys ac roedd ystod o waith rhyngwladol hefyd yn ymwneud â meini prawf profiad cleifion.

21.122.5 Cydnabu'r Cadeirydd y pryderon a oedd wedi cael eu codi gan glinigwyr a oedd yn awyddus i gael cydnabyddiaeth bod y Bwrdd yn gweithio i'w lleddfu. Ail-bwysleisiodd y byddai angen i hyn fod yn ddatrysiad Gogledd Cymru ond yn y cyfamser, efallai y bydd prosiectau'n dechrau ar un safle ysbyty yn gynt nag eraill. Gofynnodd y Cadeirydd i ddiweddariad pellach ar gyfer y Bwrdd gael ei drefnu'n briodol. 21.122.6 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd nodi: 1. pryderon a godwyd gan Arweinwyr Clinigol Adrannau Achosion Brys mewn gohebiaeth ddyddiedig 10 Rhagfyr 2020 a 17 Mehefin 2021 2. diweddariad ar raglen waith gwella Gofal Brys ac Argyfwng <i>[Gadawodd Chris Subbe y cyfarfod]</i>	GH
21.123 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad 21.123.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yr adroddiad. Atgoffaodd aelodau fod dulliau rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer y Bwrdd Iechyd wedi'i ohirio o hyd o ganlyniad i'r ansicrwydd sydd wedi'i greu gan y pandemig, a'r mynediad cyfyngedig hwn i ddata cymharol er mwyn deall y sefyllfa bresennol yn ymwneud â pherfformiad yn llawn. Tynnodd sylw at feysydd lle'r oedd y sefydliad yn perfformio'n gymharol dda fel imiwneiddiadau plant, heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, llwybrau canser tybiedig a lleihad parhaus yn nifer y bobl sy'n aros dros wyth wythnos am brofion diagnostig. Ychwanegodd fod y Tîm Gweithredol yn ystyried buddsoddi anghylchol ychwanegol gan ddefnyddio arian sydd wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad diagnostig. O ran meysydd lle bo mwy o heriau o ran perfformiad, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad at y drafodaeth gynharach yn ymwneud â gofal heb ei drefnu, yn benodol. Tynnodd sylw hefyd fod niwroddatblygiad a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn parhau i beri pryder a'i fod yn faes a bennwyd ar gyfer buddsoddi yn y Cynllun Blynyddol. 21.123.2 Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod craffu manwl ar yr adroddiad wedi'i gynnal ar lefel Pwyllgor. Nododd Aelod Annibynnol y tynnwyd sylw at sefyllfa siomedig CAMHS yn y Pwyllgor QSE a bod aelodau wedi cael sicrwydd fod mesurau ar waith i fynd i'r afael â hyn. Holodd yr Is-gadeirydd pa bryd y byddai mwy o ddangosyddion gofal cychwynnol yn dechrau cael eu hymgorffori a nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod dulliau adrodd ehangach yn cael eu datblygu ac ymrwymodd i atgyfnerthu'r elfennau gofal cychwynnol o Fwrdd Iechyd mis Medi ymlaen. Ychwanegodd fod y Bwrdd yn canolbwyntio ar y targedau y mae'n atebol amdanynt. 21.123.3 Nododd Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (HPF) fod Unedau Mân Anafiadau (MIU) wedi cael blwyddyn fwy ansefydlog o ran capasiti a'u gallu i gynorthwyo gofal heb ei drefnu ehangach, a holodd p'un a oedd unrhyw ddadansoddiad cymharol yn erbyn perfformiad Adrannau Achosion Brys. Cydnabuwyd	MW

bod adleoli staff yn ystod y pandemig wedi effeithio ar MIUs. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y byddai dadansoddi'n cael ei gynnal fel rhan o waith Dr Chris Subbe. Cydnabuwyd hefyd bod timau gofal cychwynnol yn allweddol i gynorthwyo darpariaeth MIUs a bod angen sicrhau eu bod yn sefydlog.	
21.123.4 Nododd Aelod Annibynnol y gwelliant positif o ran perfformiad strôc a lleihad mewn amser Cyfeirio at Driniaeth (RTT) ond holodd p'un a oedd y cynnydd mewn apwyntiadau dilynol yn gysylltiedig â RTT. Awgrymodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad ei bod yn anodd bod yn bendant ond y byddai hyn wedi cael effaith ar yr ymarfer dilysu hefyd.	
21.123.5 Gofynnwyd cwestiwn am effaith twristiaid ar yr ardal a nodwyd bod cais eisoes wedi'i wneud am ddadansoddiad ar effaith yr achosion mewn Adrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei bod yn ymwybodol bod 41 o gleifion mewnol ar hyn o bryd a oedd wedi'u cofrestru y tu allan i Ogledd Cymru ac ymrwymodd i gylchredeg dadansoddiad data i aelodau. Nododd Aelod Annibynnol gyda phryder fod Ysbyty Cymuned Dolgellau ar gau dros dro ac y byddai lefel yr ymwelwyr yn y rhan honno o Wynedd yn sylweddol. Byddai'n awyddus i weld agweddau ar brinder staff yn cael sylw fel blaenoriaeth. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol fod gan Dîm yr Ardal (Gorllewin) gynllun gweithredu ar waith i symud materion yn eu blaen ac i leihau effaith y cau dros dro. Yn ogystal, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod gofal eilaidd hefyd yn cydweithio i roi cymorth i Dîm yr Ardal o ran mynd i'r afael â heriau staffio.	JW
21.123.6 Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar achos busnes y Ganolfan Driniaeth Ddiagnostig (DTC), a nododd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn eglur o ran heriau sydd ynghlwm wrth restrau aros a'r angen am fwy o gapasiti i sicrhau cydbwysedd o ran y galw. Teimlai fod y sefydliad yn glir o ran yr hyn a oedd angen ei wneud i gynorthwyo'r sgysiau'n ymwneud ag ymagwedd bartneriaeth ar gyfer cyfleuster DTC ac roedd y rhain yn datblygu mewn ffordd bositif. Gofynnodd y Cadeirydd i'r sefyllfa gael ei hadolygu yn gynt na mis Medi ac y byddai'n fodlon ysgrifennu at Lywodraeth Cymru pe bai angen. Nododd y Cadeirydd hefyd fod cyfeiriadau at nifer o achosion busnes trwy'r adroddiad cyfan ac y byddai'n awyddus i weld mwy o eglurder o ran pa rai a oedd yn destun sgysiau gweithgar ar lefel Weithredol a'u terfynau amser cysylltiedig. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad at gynnydd y broses olrhain achosion busnes ac ymrwymodd i sicrhau ei fod ar gael i Aelodau'r Bwrdd mewn modd priodol.	JW MW
21.123.7 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd graffu ar yr adroddiad a phe bai angen, gofyn am sicrwydd pellach yn ymwneud ag unrhyw feysydd penodol nad ydynt wedi sicrhau mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt yn genedlaethol neu'n lleol.	
21.124 Adroddiad Cyllid Mis 1	

21/124.1 Penderfynwyd y dylid nodi'r adroddiad	
21.125 Adroddiad Cyllid Mis 2 21.125.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a chynghorodd y dylid ei ystyried yng ngoleuni'r cynllun blynyddol diwygiedig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mehefin. Nododd fod y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhagweld sefyllfa o adennill costau ar gyfer y flwyddyn ar ôl cyflawni sefyllfa o adennill costau ym Mis 2. Atgoffaodd aelodau fod y rhagolwg ariannol yn cynnwys £82 miliwn o gymorth strategol gan Lywodraeth Cymru, y mae £32 miliwn o'r arian hwn yn ymwneud â thalu am y diffyg, £30 miliwn ar gyfer gwella perfformiad a £12 miliwn ar gyfer lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a chapasiti/gallu ar draws y sefydliad. Roedd y rhagolwg bellach yn cynnwys y £19.9 miliwn a dderbyniwyd yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid adfer ar gyfer Covid. Roedd effaith ariannol Covid-19 yn parhau i fod yn ffactor arwyddocaol o ran dulliau adrodd ariannol y Bwrdd gydag amcangyfrif presennol ar gyfer 2021-22 o £300 miliwn yng ngoleuni'r £169 miliwn a wariwyd y flwyddyn ddiwethaf a gafodd ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. 21.125.2 Ychwanegodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad fod y Pwyllgor yn dal i fod â phryderon ynghylch perfformiad cychwynnol arbedion ond roeddent yn gyfforddus bod sefyllfa bositif o adennill costau wedi'i rhagweld. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid fod angen parhaus i'r Bwrdd wireddu £17 miliwn o arbedion eleni er mwyn adennill costau a bod hyn wedi'i ymgorffori i'r rhagolwg. Byddai hyn yn cael ei adrodd yn fanwl i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. 21.125.3 Penderfynwyd y dylai nodi'r adroddiad.	
Adroddiadau Sicrwydd Cadeirydd y Pwyllgor a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynghori 21.126 Pwyllgor Archwilio 10.6.21 21.126.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgryfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol. 21.127 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 4.5.21 21.127.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgryfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol. 21.128 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 24.6.21 21.128.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgryfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol.	

21.129 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 11.6.21 21.129.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol. 21.130 Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl 25.6.21 21.130.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol. 21.131 Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth 22.4.21 a 7.6.21 21.131.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol. 21.132 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (SPPH) 17.6.21 21.132.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol. 21.133 Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth 18.6.21 21.133.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol. Byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynol a Gwasanaethau Cymunedol yn diweddarau Cadeirydd y Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod ar reoli nodiadau a hysbysiadau allweddol. 21.134 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) 28.6.21 21.134.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol. Ychwanegodd ein bod yn aros am gymeradwyaeth Gweinidogion o ran penodi Cadeirydd y SRG. 21.135 Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd (HPF) 4.6.21 21.135.1 Cyflwynodd Cadeirydd yr HPF yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol 21.136 Fforwm Partneriaeth Leol 13.4.21 21.136.1 Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at y prif risgiau ac unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at y Bwrdd, fel bo'n briodol	CS
21.137 Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) <i>[Ymunodd Katherine Williams â'r cyfarfod]</i> 21.137.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Chyngor Clinigol (AGIC) a oedd yn cwmpasu:	

- Diben a gwerthoedd AGIC
- Ymagwedd wedi'i haddasu yn ystod y pandemig
- Crynodeb o arolygiadau Cymru Gyfan
- Themâu Cymru Gyfan
- Gwaith sicrwydd ac arolygu yn BIPBC a themâu/canfyddiadau allweddol

21.137.2 Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y canfyddiadau'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl, gan nodi er bod tîm uwch arwain ar waith erbyn hyn y byddai'n cymryd amser i ymgorffori gwelliannau'n llwyr. Holodd p'un a oedd canfyddiadau AGIC yn ymwneud â materion staffio neu ddiogelwch cleifion neu faterion eraill. Nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Chyngor Clinigol fod cymysgedd eang o faterion ond na allai roi rhyw lawer o fanylion ychwanegol yn y fforwm cyhoeddus, ond roedd themâu wedi'u rhannu gyda Chyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Sicrhau Ansawdd y Bwrdd Iechyd. Awgrymodd yr Is-gadeirydd hefyd y dylai gwaith *Mewn Undod Mae Nerth* wella agweddau ar newid diwylliannol hefyd.

[Gadawodd Katherine Williams y cyfarfod]

21.138 Adroddiad Diweddarau Arolwg Staff GIG Cymru 2020

[Ymunodd Ellen Greer a Nia Thomas â'r cyfarfod]

21.138.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyswllt Adnoddau Dynol y papur a nododd fod y gyfradd ar gyfer y sawl a gymerodd ran yn adlewyrchu adeg arbennig o heriol i ofyn i staff gymryd rhan yn yr arolwg.

21.138.2 Tynnodd Pennaeth Datblygu Sefydliadol sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad a oedd yn cynnwys:

- Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Tachwedd 2020 a rhoddodd ddiweddariad yn erbyn arolwg blaenorol GIG Cymru.
- Nid oedd yn hawdd gwneud cymariaethau uniongyrchol gan fod rhai gwahaniaethau arwyddocaol i arolygon blynyddoedd blaenorol - er enghraifft, nid oedd yr arolwg ar agor am gyhyd ac nid oedd unrhyw opsiwn papur / copi caled.
- Roedd cyfradd ymateb PBC yn 18% o gymharu â chyfradd ymateb cenedlaethol o 20%.
- Nodwyd ystod o themâu positif yn ymwneud ag ymgysylltu, profiad gwaith a bwlio, aflonyddu a chamdriniaeth.
- Nodwyd meysydd allweddol yn ymwneud â gwella datblygu'n ymwneud ag ymateb effeithiol y sefydliad i achosion o fwlio ac aflonyddu; cynnwys staff mewn trafodaethau a phenderfyniadau'n ymwneud â newid; a gallu timau i gymryd saib er mwyn myfyrio a dysgu.
- Tynnwyd sylw at feysydd allweddol ar gyfer newid effeithiol fel adolygu'r broses o godi pryderon; datblygu *Mewn Undod Mae Nerth*; datblygu Strategaeth Datblygu Sefydliadol ac Arweinyddiaeth ar gyfer 2022-25 a phwyslais ar wella cyfranogiad.
- O ran arolygon yn y dyfodol, anogir cyfranogiad yn gryfach a chaiff yr arolygon pwls sydd ar gael ar lwyfan ClearSight eu defnyddio.

21.138.3 Ychwanegodd Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Datblygu Sefydliadol mai'r nod oedd annog lefelau mwy o gyfranogiad gan staff a meithrin diwylliant lle bo staff yn teimlo bod ganddynt lais ac y byddent felly'n teimlo'n fwy cyfforddus i gymryd rhan. Cadarnhaodd fod yr arolwg cenedlaethol nesaf ar y gweill yn ddiweddarach yn 2021 a bod BIPBC wedi'i gynrychioli ar y grŵp cynllunio. Roedd hefyd yn awyddus i gofnodi bod grwpiau uwch adrannol y gweithlu wedi'u sefydlu erbyn hyn ac y byddent yn fforwm allweddol ar gyfer yr arolwg nesaf.

21.138.4 Cafwyd trafodaeth. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor SPPH fod yr adroddiad wedi'i adolygu yn y Pwyllgor a bod aelodau'n siomedig gyda diffyg gallu i'w gymharu gydag arolygon o flynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd yn falch o weld y byddai'r ymagwedd tuag at ymateb i'r arolwg yn un wedi'i seilio ar dimau a byddai'n awyddus iawn i weld y byddai gwaith tîm yn derbyn sylw gan fod hyn wedi'i nodi mewn adolygiad archwilio mewnol a oedd wedi arwain at adroddiad sicrwydd cyfyngedig. Croesawodd yr Is-gadeirydd yr adroddiad a'r wybodaeth hynod werthfawr yr oedd yr arolwg yn ei rhoi. Mynegodd bryder ynghylch y sgôr gymharol isel o ran staff yn nodi y byddent yn hapus gyda'r safon o ofal a ddarperir pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas yn BIPBC. Teimlai fod amgyffrediad staff a safonau gofal yn rhyng-gysylltiedig. Cydnabu Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Datblygu Sefydliadol y byddai angen i wella'r agwedd hon fod yn rhan o drafodaethau tîm ac y gallai fod yn faes, o bosibl, ar gyfer arolwg pwls penodol. Ychwanegodd Pennaeth Datblygu Sefydliadol y byddai mynd i'r afael â'r agwedd hon hefyd yn elfen allweddol o *Byddwch yn Falch*. Gwnaeth Aelod Annibynnol y pwynt nad oedd 80% o staff yn GIG Cymru wedi cymryd rhan yn yr arolwg cenedlaethol diweddaraf hwn ac y byddai ganddynt hwythau hefyd farn a phryderon y byddai angen i'w sefydliadau gael gwybod amdanynt er mwyn mynd i'r afael â nhw. Cydnabu Pennaeth Datblygu Sefydliadol yr her hon ac y byddai diffyg fersiwn papur o'r arolwg diweddaraf wedi eithrio nifer o staff.

21.138.5 Gwnaeth y Cadeirydd gofio, mewn ymateb i'r arolwg cenedlaethol diweddaraf, fod BIPBC wedi'i gwneud yn ofynnol i uwch adrannau roi eu cynlluniau gweithredu eu hunain ar waith gyda disgwyliad y byddent yn cael eu monitro. Gan ystyried y byddai angen ymatebion a chmau gweithredu hefyd o ganlyniad i'r arolwg diweddaraf hwn, gofynnodd i ba raddau y gallai'r Bwrdd gael sicrwydd y byddai cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu'n cael ei fonitro'n ddigonol. Soniodd Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Datblygu Sefydliadol mai eitem sefydlog ar y grwpiau gweithlu uwch adrannol oedd hon ac y byddai cyfleoedd i rannu dysgu ac arfer gorau rhwng y grwpiau hynny. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Cyswllt Adnoddau Dynol ei bod yn fodlon y byddai'r mecanweithiau a'r seilwaith sydd ar waith yn galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar feysydd ar gyfer gwella a sicrhau eu bod yn cael eu monitro'n briodol, gyda'r cafeat y gallai fod angen adnewyddu cynlluniau gwella wrth iddynt esblygu.

21.138.6 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad diweddar
[Gadawodd Ellen Greer a Nia Thomas y cyfarfod]

21.139 Adroddiad y Gofrestr Risg Gorfforaethol 21.139.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr adroddiad a chadarnhaodd fod risgiau corfforaethol wedi'u craffu'n llawn ar lefel y Pwyllgor. Tynnodd sylw fod y Pwyllgor QSE wedi cymeradwyo dwy risg newydd i'w cynnwys yn ddiweddar fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad. Cydnabu fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i adnewyddu'r fformat adrodd ar risg a sut roeddent yn cael eu cyflwyno. 21.139.2 Ychwanegodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE fod trafodaeth wedi'i chynnal yn y QSE yn ymwneud â lle'r oedd sgôr risg wedi'i lleihau nad oedd hynny o reidrwydd yn golygu bod y sgôr risg yn cael ei lleihau o ganlyniad i gamau gweithredu a gwblhawyd, ond yn hytrach gan y sylweddolwyd bod modd gwireddu targed risg is. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod materion yn ymwneud ag iechyd cyffredin ac eglurder y naratif wedi'u hystyried. 21.139.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd adolygu a nodi'r cynnydd ar reoli Haen 1 y Gofrestr Risg Weithredol Gorfforaethol.	
21.140 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF): Prif Risgiau 21.140.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd yr adroddiad a oedd yn darparu'r adolygiad chwe mis cyntaf ers i'r BAF newydd gael ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2021. Cadarnhaodd fod yr holl brif risgiau BAF wedi bod yn destun adolygu ar lefel y Pwyllgor a gynigiodd proses fuddiol o ran gwirio a herio, wedi'u hategu gan waith sy'n aeddfedu yn y Grŵp Rheoli Risg (RMG). Nododd Ysgrifennydd y Bwrdd fod risgiau BAF yn cael eu mapio i flaenoriaethau'r cynllun blynyddol lle bo'n briodol, a phan oedd Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach wedi'i hadnewyddu, y byddent yn cael eu halinio ymhellach i alinio'n strategol. 21.140.2 Roedd aelodau'n falch o weld y gwelliannau a wnaed i fformat yr adroddiad a gwnaethant gydnabod bod sylwadau blaenorol ac adborth wedi'u hymgorffori. Teimlai Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad fod rhai risgiau'n rhy benodol ond y gellid mynd i'r afael â'r manylder hwn ar lefel y Pwyllgor. Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE at BAF21-12 mewn perthynas â diogelwch a nododd fod y Pwyllgor wedi gofyn i'r sgôr risg gael ei hadolygu gan ei bod yn ymddangos i fod yn anghymesur o uchel. Awgrymodd Cadeirydd y Pwyllgor DIG y dylai'r adolygiad hwn ystyried y materion a godwyd gan y Pwyllgor yn ymwneud â theledu cylch cyfyng a thordyletswydd bosibl o ran deddfwriaeth. Teimlai Cadeirydd y Pwyllgor QSE hefyd fod BAF21-17 o ran ystadau'n benodol iawn a'i bod yn ymddangos bod gan y sefydliad lefel uchel iawn o risg. Teimlai hefyd fod gweithio ystwyth yn gyfle yn hytrach na risg, a dyna sut y cafodd ei bortreadu yn yr adroddiad. Byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yn adolygu'r naratif hwn.	LB MW

21.140.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd: (1) Cytuno ar y Prif Risgiau wedi'u diweddarau fel y'i hamlinellir yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF); a (2) Nodi gwaith ailfapio risgiau BAF i Gynllun Blynnyddol diwygiedig 2021-22 ac arweiniad maes allweddol wedi'i ddiweddarau.	
21.141 Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg wedi'u Diweddarau y Bwrdd Iechyd 21.141.1 Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Dros Dro Llywodraethu fod y Strategaeth a'r Polisi wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a bod y ddogfennaeth wedi'i diwygio a'i hadnewyddu yn hytrach na bod yn destun adolygiad ar raddfa fawr. Nododd fod addasiadau wedi'u gwneud i'r fframwaith archwaeth risg i roi cytundeb ymlaen llaw ar waith er mwyn caniatáu newid i'r archwaeth risg mewn amgylchiadau eithriadol. Yn ogystal, rhoddodd y ddogfennaeth fwy o bwyslais ar uwch adrannau a chyfarwyddiaethau'n cyfathrebu'n fwy effeithiol ar faterion risg yn hytrach na dibynnu ar y RMG i goladu risgiau i'w huwchgyfeirio. Yn olaf, gwnaeth y ddogfennaeth amlinellu'r broses o uwchgyfeirio risg yn fwy eglur er mwyn hwyluso perchnogaeth ac eglurder o ran uwchgyfeirio a derbyn risgiau. 21.141.2 Nododd Aelod Annibynnol fod adroddiad naratif yn cyfeirio at ddarparu hyfforddiant rheoli risg fel dull rheoli, ond teimlai fod angen eglurder o ran pa bryd y byddai hwn yn ddull rheoli - er enghraifft, a fyddai hynny'n cyfeirio at adeg pan fyddai canran benodol o staff wedi'i dderbyn, neu ar adeg cyflwyno'r rhaglen yn llawn. 21.141.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd ddilysu cymeradwyo'r Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg diwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio.	
21.142 Cynllun Blynnyddol 2021-22 21.142.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y gyfres o bapurau a oedd yn cynnwys y cynllun llawn wedi'i adnewyddu ynghyd â chrynodeb gweithredol. Nododd hefyd fod fersiwn hawdd ei ddarllen wedi'i baratoi gyda chymorth y tîm cyfathrebu corfforaethol i gael ei ddefnyddio'n ehangach gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Tynnodd sylw fod i Gynlluniau Gweithredu Rhaglenni ddwy ran - un i gael ei ddefnyddio gan y Tîm Gweithredol ac i'w raeadru trwy'r sefydliad a'r llall at ddibenion y Bwrdd. Nodwyd na fyddai Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo unrhyw rai o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn hon, fel y byddai'n digwydd mewn amgylchiadau arferol, ond roeddem yn dal i aros am unrhyw adborth anffurfiol ar y cynllun. 21.142.2 Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad, ers cyflwyno'r cynllun drafft i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth, fod rhai elfennau wedi'u hadnewyddu gan gynnwys modelu gweithgarwch ar gyfer galw a chapasiti i adlewyrchu'r profiadau o chwarter cyntaf y flwyddyn. Yn ddiweddarach, roedd y Bwrdd hefyd wedi newid ei ragolwg ariannol ar gyfer 2021-22 sydd wedi'i adlewyrchu erbyn hyn yn y	

fersiwn diweddaraf. Tynnodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad sylw aelodau at y dogfennau sgrinio ar gyfer asesiadau effaith cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol. Tynnodd sylw hefyd fod gan y Bwrdd lai na chwe mis erbyn hyn i ddatblygu Cynllun Integredig yn y Tymor Canolig (IMTP) cymeradwy.

21.142.3 Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, o safbwynt ariannol, mai'r prif wahaniaeth rhwng y cynllun drafft y cytunwyd arno ym mis Mawrth a'r un sy'n cael ei gyflwyno erbyn hyn oedd symud oddi wrth sefyllfa ddiwedd blwyddyn bosibl o ddiffyg o £28.3 miliwn, i sefyllfa o adennill costau gan fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai effaith methiant i gyflawni arbedion o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei hariannu.

21.142.4 Cafwyd trafodaeth. Roedd yr Is-gadeirydd yn falch o nodi bod trafodaethau blaenorol ac adborth gan aelodau wedi'u hystyried a theimlai erbyn hyn fod y ddogfen yn cynnig gwelliannau sylweddol. Holodd p'un a oedd yn dal i fod yn wir y byddai angen i'r cynllun fod yn hyblyg er mwyn caniatáu i'r sefydliad ymateb i unrhyw faterion yn ymwneud â Covid-19 yn y dyfodol, a chadarnhawyd mai felly oedd hi. Aeth yr Is-gadeirydd ymlaen i gyfeirio at y Cynllun Gweithredu Rhaglenni i gael ei ddefnyddio gan y Tîm Gweithredol a gofynnodd am sicrwydd bod y camau gweithredu wedi'u croesgyfeirio at y prif gynllun naratif. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad ei fod yn hyderus bod lefel uchel o aliniad, a phan fyddai monitro'r cynllun yn dechrau ym mis Awst, y byddai hyn yn tynnu sylw at unrhyw fylchau. Holodd Aelod Annibynnol ynghylch lefel yr hyder yn ymwneud â choladu tystiolaeth berthnasol i fod yn sail i asesiad effaith y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (SED) wrth i'r cynllun gael ei roi ar waith. Derbyniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod bodloni gofynion y SED yn daith ddysgu ond bod y sefydliad yn ymrwymedig i ymgorffori'r gofyniad hwn. Nododd hefyd fod grŵp Cymru gyfan wedi'i gynnig i gydlynu'r ymateb i anghydraddoldeb iechyd a fyddai'n helpu i fod yn sail i gynlluniau strategol.

21.142.5 O ran adrodd ar fonitro perfformiad yn erbyn y cynllun, nododd y Cadeirydd fod hyn wedi'i gytuno ar gyfer bob deufis a fyddai'n rhyddhau rhywfaint o gapasiti yn y tîm perfformiad er mwyn caniatáu monitro mwy cadarn o ran llwybrau coch ac ambr. Holodd y Cadeirydd hefyd lle'r oedd y Tîm Gweithredol arni o ran rhoi'r fframwaith perfformiad ac atebolrwydd newydd ar waith o ran datrys negeseuon cymysg ac anghysondeb. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod rownd bellach o gyfarfodydd atebolrwydd o dan arweiniad gweithredwyr ar y gweill, ac y byddai'r rhain, ynghyd â gwaith y Grŵp Arolygu Perfformiad (POG) yn dechrau ymgorffori atebolrwydd yn fwy cadarn, ond roedd yn dal i fod mwy o waith i'w wneud yn ymwneud â sicrhau strwythurau tebyg mewn gofal cychwynnol. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod trafodaeth dda wedi'i chynnal yn POG yn ymwneud â sut i ddefnyddio data i fod yn sail i gwestiynu er mwyn sicrhau bod yr ymagwedd yn cael eu halinio i flaenoriaethau. Nododd y Cadeirydd, o dan y Fframwaith Llywodraethu Integredig arfaethedig, y byddai angen i'r POG roi mewnbwn i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi'i adnewyddu a gofynnodd i amserlen adrodd gael ei chytuno gyda Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

GH MW

21.142.6 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r cynllun.	
21.143 Safon 37 y Gymraeg : Cyfieithu Papurau'r Bwrdd: Diweddariad chwe mis 21.143.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y papur a roddodd ddiweddariad ar yr adolygiad chwe mis o gyfieithu papurau penodol y Bwrdd ac amlinellodd gynigion ar gyfer y camau nesaf o ran cyrraedd Safon 37 y Gymraeg. Rhoddodd wybod i aelodau, er mai'r dymuniad oedd symud ymhellach tuag at fodloni gofynion y Safon, y dylid cydnabod y byddai hyn yn cynnwys taith gytunedig fesul cam. Adroddwyd pe bai cyfres gyflawn o bapurau ar gyfer cyfarfod nodweddiadol o'r Bwrdd Iechyd yn cael ei chyfieithu'n llawn, y byddai hyn yn cynnwys rhyw 480,000 o eiriau. Gan nad oedd y Safon yn ei gwneud yn ofynnol i bob papur gael ei gyfieithu, gwnaeth y papur gynnig y dylai gwaith archwilio gael ei gynnal dros y cyfnod nesaf o chwe mis er mwyn asesu pa bapurau a ddylid eu darparu'n ddwyieithog, yn ddelfrydol, ac i gasglu gwybodaeth am yr adnoddau a fyddai eu hangen i wireddu hyn. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod Comisiynydd y Gymraeg wedi darparu cyfres o feini prawf y gellid sgorio'r papurau yn ei herbyn er mwyn pennu p'un a oedd yn ddoeth cyfieithu. 21.143.2 Roedd Aelod Annibynnol sy'n Bencampwr y Gymraeg yn awyddus i ddiolch am y gwaith a wnaed i wella cydymffurfiaeth y Bwrdd â Safonau'r Gymraeg. Roedd o'r farn bod safon y cyfieithu ysgrifenedig yn y ddogfennaeth i aelodau'r Bwrdd yn uchel iawn a byddai'n cefnogi'r cynnig fel y'i hamlinellwyd. Gwnaeth Aelod Annibynnol arall groesawu'r cyfeiriad gweithredu ond awgrymodd y dylai BIPBC ystyried sut hwyl yr oedd Byrddau Iechyd eraill yn ei gael o ran cydymffurfio â Safon 37 ac ymgorffori unrhyw arfer da i'r adroddiad nesaf. Nododd y Cadeirydd y byddai hefyd yn cefnogi'r cynigion yn y papur, ac atgoffaodd aelodau fod sesiwn sgiliau iaith Cymraeg wedi'i threfnu ar gyfer Gweithdy'r Bwrdd ar 5 Awst. 21.143.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd: (1) nodi'r diweddariad chwe mis yn ymwneud â chyfieithu papurau Bwrdd penodol yn dilyn y penderfyniad yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020. (2) cymeradwyo'r camau nesaf a awgrymir yn unol â gwella cydymffurfiaeth â Safon 37 Safonau'r Gymraeg.	TO
21.144 Fframwaith Llywodraethu Integredig Arfaethedig 21.144.1 Gwnaeth Cyfarwyddwr Dros Dro Llywodraethu gyflwyno'r papur a oedd yn amlinellu cynigion ar gyfer fframwaith llywodraethu gwell. Nododd fod y mater wedi bod yn destun trafodaeth fanwl mewn Gweithdy cynharach o'r Bwrdd a bod adborth wedi'i ystyried. Atgoffaodd aelodau y gallai fod angen rhai mân newidiadau i'r ddogfennaeth fel fframwaith wrth symud ymlaen at y cyfnod gweithredu.	

21.144.2 Gwnaeth aelodau groesawu'r fframwaith. Roedd Cadeirydd Pwyllgor y QSE yn falch o weld ffocws ar straeon cleifion ar lefel Pwyllgor a theimlai y byddai hyn yn helpu Pwyllgorau i barhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau i gleifion.

21.144.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r gyfres o ddogfennaeth i'w rhoi ar waith o fis Medi 2021.

21.145 Achos Busnes Rhaglen Tomograffeg Allyriadau Positron (PET) Cymru Gyfan

[Ymunodd David Fletcher, Siân Lewis ac Andrew Champion â'r cyfarfod]

21.145.1 Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (WHSCC) gyflwyno'r papur a amlinellodd achos busnes Cymru gyfan mewn ymateb i fandad Prif Weithredwr GIG Cymru ym mis Mawrth 2019. Rhoddodd wybod i aelodau fod sganiwr PET yn rhoi delweddu gwell ar gyfer diagnosteg a'i fod felly'n cynorthwyo penderfyniadau clinigol priodol. Dywedodd mai 1 fesul 1 miliwn o'r boblogaeth oedd y gymhareb argymelledig o ran sganwyr PET, ac mai 0.6 fesul 1 miliwn oedd y ddarpariaeth bresennol. Roedd un sganiwr PET statig wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac roedd yn hen beiriant, ac roedd sganiwr PET symudol hefyd yn Abertawe ond y farn gyffredinol oedd bod sganwyr symudol yn cynnig profiad gwaelach i gleifion. Yna tynnodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol sylw'r aelodau at y pedwar opsiwn ar y rhestr fer a amlinellir yn yr achos busnes yr oedd i bob un o'r rhain gynnig economaidd cysylltiedig. Yr opsiwn ffafredig a nodwyd gan Fwrdd y Prosiect oedd 4 sganiwr PET sefydlog ar draws Cymru, gan eu rhoi ar waith fesul cam er mwyn caniatáu datblygu achosion busnes unigol ac i seilwaith gael ei roi ar waith. O ran costau refeniw, dylai ffrwd gyllid benodol gan WHSCC ariannu'r rhain. Cydnabu'r Rheolwr-gyfarwyddwr fod lefel ardderchog o ymgysylltu â thîm PBC.

21.145.2 Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn gefnogol o egwyddor yr achos busnes ond cododd bwynt am y cyfiawnhad a nodwyd gan fod Cymru'n perfformio ryw 33% o sganiau PET fesul y pen o gymharu â Lloegr. Ymatebodd y Rheolwr-gyfarwyddwr fod gan Gymru gyfradd is o lawer o sganiau fesul y pen na Lloegr, a bod mynediad yn haws yn Lloegr. Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad p'un a oedd amrywio o ran anghenion ar draws Cymru, Lloegr ac Ewrop yn ehangach. Nododd y Rheolwr-gyfarwyddwr y dylai'r galw fod yn debyg iawn er bod ystod y dangosyddion yng Nghymru yn is. Cododd Cadeirydd y Pwyllgor QSE bryder ynghylch yr effaith ar gleifion o ran mynediad, a chydnabu'r Rheolwr-gyfarwyddwr y byddai lefelau is o fynediad fel arfer yn golygu arhosiad hirach ac felly oedi o ran diagnosis, ond awgrymodd ei bod yn anodd mesur canlyniadau ar gyfer profion diagnostig. Teimlai fod tystiolaeth anuniongyrchol yn enwedig o ran gofal canser a bod hyn yn ffactor mawr o ran y rhaglen hon. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod epidemioleg gogledd Cymru yn ychwanegu at yr heriau o ran mynediad, cyfle a lefel yr angen. Yn olaf, gwnaeth y Rheolwr-gyfarwyddwr y pwynt fod cael sganiwr PET yn debygol o wella cyfleoedd recriwtio ar gyfer adran neu safle.

21.145.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd gymeradwyo achos busnes y Rhaglen ar gyfer

Gwasanaeth Tomograffeg Allyriadau Positron (PET) Cymru gyfan, gan gynnwys yr amcanion gwariant, cwrpas, a gofynion adnoddau fel y'i hamlinellir yn yr achos ariannol. <i>[Gadawodd David Fletcher, Siân Lewis ac Andrew Champion y cyfarfod]</i>	
21.146 Crynodeb o fusnes Preifat y Bwrdd i adrodd arno'n gyhoeddus 21.146.1 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd nodi'r adroddiad	
21.147 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 29.7.21 Cyfarfod y Bwrdd Iechyd 23.9.21	
21.148 Heb y Wasg a'r Cyhoedd Penderfynwyd bod cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i ddiddordeb y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.	



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Cofnodion Drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 29 Gorffennaf 2021

Yn bresennol:

Mark Polin	Cadeirydd
Louise Brereton	Ysgrifennydd y Bwrdd
Clare Budden	Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Nicky Callow	Aelod Annibynnol ~ Prifysgol
Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol
John Cunliffe	Aelod Annibynnol
Morwena Edwards	Aelod Cyswllt - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Gareth Evans	Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Gill Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy CEO
Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Jackie Hughes	Aelod Annibynnol
Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Eifion Jones	Aelod Annibynnol
Lyn Meadows	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Lucy Reid	Is-gadeirydd
Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned
Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Linda Tomos	Aelod Annibynnol
Jo Whitehead	Prif Weithredwr

Yn bresennol:

Kate Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol (<i>ar gyfer cofnodion</i>)
Jody Evans	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (<i>ar gyfer cefnogaeth ffrydio byw</i>)
Sioned Jones	Cyfieithydd
Dylan Owen	Gwybodeg (<i>ar gyfer cefnogaeth ffrydio byw</i>)
Llinos Roberts	Rheolwr Busnes Gweithredol (<i>ar gyfer cefnogaeth ffrydio byw</i>)

Eitem ar yr Agenda a Drafodwyd	Gweithredu gan
A21.1 Croeso a Chyflwyniad	
A21.1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr holl fynychwyr ac arsylwyr i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd Iechyd a oedd yn cael ei ffrydio'n fyw. Atgoffodd yr aelodau bod croeso iddynt gyfrannu yn eu hiaith ddewisol oherwydd bod cyfieithu ar y pryd ar gael.	
A21.1.2 Nododd y cadeirydd fod yr Athro Arpan Guha a Mr Mark Wilkinson wedi ymddiheuro am eu habsenoldeb. Croesawodd yr aelodau canlynol a ymunodd â'r	

Bwrdd mewn misoedd diweddar i'w Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf - Jo Whitehead, Linda Tomos a Clare Budden.

A21.2 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020/21

Nododd y Prif Weithredwr fod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i rannu gyda'r papurau a'i fod ar gael ar y wefan allanol. Nododd y byddai'r cyflwyniad yn cael sylw fel rhan o'r setiau sleidiau dilynol.

A21.2.1 Adroddiad Blynyddol

A21.2.1.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr fideo byr a ddatblygwyd i dynnu sylw at heriau a llwyddiannau 2020-21. Yna cyflwynodd gyflwyniad a oedd yn cynnwys:

- Myfyrdodau ar flwyddyn hynod o heriol;
- Cyflawniadau Allweddol
- Ymateb y sefydliad i Covid-19
- Edrych i'r dyfodol o ran cleifion, partneriaid, staff a systemau.

A21.2.1.2 Roedd y Cadeirydd yn dymuno cydnabod y gwaith yr oedd y Prif Weithredwr wedi tynnu sylw ato, yn enwedig yr ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangoswyd gan staff yn ystod y pandemig. Cymeradwyodd y rhaglen frechu a gyflwynwyd yn llwyddiannus o ganlyniad i waith partneriaeth rhagorol ac roedd yn edrych ymlaen at adeiladu ar y perthnasoedd gwell hynny.

A21.2.2 Cyfrifon Ariannol Blynyddol

A21.2.2.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid gyflwyniad a oedd yn cynnwys:

- Perfformiad yn erbyn y targedau ariannol statudol i fantoli'r gyllideb ac i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- Perfformiad yn erbyn targedau ariannol eraill yn ymwneud â thalu anfonebau nad ydynt yn rhai'r GIG a chau balans arian parod;
- Gwariant Refeniw;
- Gwariant o ran uwch adran a chategori;
- Defnydd o staff asiantaeth;
- Buddsoddiadau Cyfalaf;
- Cyllideb Covid-19 gan gynnwys gwariant ar ysbytai maes;
- Cymorth strategol Llywodraeth Cymru;
- Cadarnhad gan Archwiliad Cymru na nodwyd unrhyw gamddatganiadau perthnasol nac anghysondebau cofnodi;
- Bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol a barn gymwysedig ar reoleidd-dra.

A21.2.2.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y mater swyddi gwag staff a nododd, ar ymweliad diweddar â'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Wrecsam Maelor bod yr uwch

staff wedi canmol y cynnydd o ran recriwtio nyrsys. Croesawodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu ac OD yr adborth cadarnhaol hwn a ailadroddodd hefyd bwysigrwydd cadw staff yn ogystal â recriwtio. Gwnaeth sylwadau ar wariant yr asiantaeth a bod heriau'r pandemig wedi ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad allu recriwtio'n gyflym ac mewn ffordd ystwyth a oedd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn cydweithwyr cofrestredig ac anghofrestredig.

A21.3 Edrych Ymlaen

A21.3.1 Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad a oedd yn cynnwys:

- Dychweliad i 'fusnes fel arfer' wedi'i siapio gan addysg o'r 18 mis diwethaf;
- Pwyslais cryfach yn y sefydliad ar drawsnewid, defnydd priodol o opsiynau digidol a gwell ymgysylltiad â dinasyddion;
- Blaenoriaethau allweddol gofal wedi'i gynllunio, adferiad, canolfannau triniaeth ddiagnostig, iechyd meddwl gan gynnwys gwasanaethau plant, gofal heb ei drefnu brys, opsiynau gofal iechyd digidol, llawfeddygaeth â chymorth roboteg, gofal strôc, llwybrau gofal, adnewyddu'r Strategaeth Byw'n lachach Aros yn lach a Gwelliant wedi'i Dargedu.

A21.3.2 Roedd yr Is-gadeirydd yn dymuno cofnodi ei diolch i'r holl ddarparwyr gofal cychwynnol am eu hyblygrwydd yn ystod y pandemig a chydabod bod ymgynghoriadau wyneb yn wyneb wedi parhau i gael eu darparu lle bo angen. Croesawodd y maes gwaith o amgylch llwybrau gofal cleifion ac awgrymodd y gallai'r maes hwn gael effaith sylweddol ar ddiogelwch cleifion a phrofiad cleifion. Nododd fod ffyrdd newydd o ddarparu gofal wedi cael eu harchwilio a'u gweithredu o ganlyniad i'r pandemig ac y gallai rhai o'r rhain barhau'n briodol ond y byddai prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn hanfodol i reoli disgwyliadau'r cyhoedd a chleifion. Adleisiodd y Prif Weithredwr ei diolch i gydweithwyr gofal cychwynnol a theimlai fod cyfleoedd i adolygu dull llwybr system gyfan tuag at hunanofal ac atal er mwyn osgoi ymyriadau gofal eilaidd diangen, ac i ymgorffori heriau arloesol a ddefnyddiwyd yn ystod pandemig.

A21.3.3 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad fod rhagolwg mwy cadarnhaol ar hyn o bryd o ran cadarnhau cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru, y gwaith o amgylch llwybrau a'r defnydd o dechnoleg ddigidol. Teimlodd fod y Bwrdd mewn safle gwell i gyflawni ei nodau trawsnewid.

A21.3.4 Nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi ymrwymo i adnewyddu ei Strategaeth Byw'n lachach Aros yn lach, er mwyn sicrhau ei fod yn eglur ynghylch ei uchelgais a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir. Yn ogystal, penderfynwyd ar y broses gynllunio ar gyfer y Cynllun Blynyddol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a disgwyliad y byddai'r Bwrdd yn gweld fersiwn gyntaf yr IMTP ym mis Rhagfyr 2021. Cydnabu hefyd fod y Bwrdd wedi derbyn cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn am y tair blynedd nesaf ynghyd â chymorth ariannol penodol yn ymwneud â Covid a'i bod yn bwysig sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu cyfeirio tuag at nid yn unig y

pwysau uniongyrchol ond hefyd er mwyn galluogi trawsnewid a darparu gwelliant yn y gwasanaethau. Cyfeiriodd at ddiweddariad yr oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned wedi'i ddarparu ynghylch symud ymlaen gyda'r agenda drawsnewid a gofynnodd am i hyn gael ei rannu ag aelodau'r Bwrdd. Yn olaf, nododd y Cadeirydd fod gwaith yn parhau yn erbyn y Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Dargedu gyda chyfarfod tri rhan cadarnhaol yn ddiweddar yn dangos arwyddion o fwy o hyder gyda'r sefydliad.	CS
A21.4 Sesiwn Cwestiwn ac Ateb A21.4.1 Dywedodd y Cadeirydd fod cwestiynau ymlaen llaw wedi cael eu gwahodd gan aelodau'r cyhoedd ac y byddai'r ymateb yn ysgrifenedig yn dilyn trafodaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Nododd y byddai ymateb i unrhyw gwestiynau a oedd yn ymwneud â chlaf unigol neu aelod o staff yn cael ei ddarparu'r tu allan i'r cyfarfod. A21.4.2 Cyflwynwyd y cwestiwn cyntaf gan Mr Derek Browne o'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) a darllenodd "Sut mae'r Bwrdd lechyd wedi cydymffurfio â deddfwriaeth Deddf Staffio Nyrsio (Cymru) 2016 trwy gydol y pandemig a pha baratodau sydd ar waith ar gyfer yr estyniad o adran 25b o'r ddeddf i baediatreg? " Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod adolygiadau staffio yn parhau i gael eu cynnal yn unol â'r Ddeddf fel y cyfeirir ati ym Mholisi Staff Nyrsio'r Bwrdd lechyd, gan nodi gohirio archwiliadau craffter fel penderfyniad Cymru gyfan. Yn ystod y pandemig, roedd yr adolygiadau'n ddeinamig oherwydd natur ail-bwrpasu'r wardiau i fodloni anghenion y pandemig. Cynhaliwyd Cyfarfodydd Lleoli Staff Nyrsio Bwrdd lechyd yn ddyddiol fel ymateb rheoli digwyddiadau i gefnogi gofynion uwchgyfeirio staff. Gwnaed recriwtio sylweddol (parhaol a dros dro) fel rhan o ymateb y sefydliad i baratoad ar gyfer y pandemig Covid-19 a hefyd y rhaglen frechu Covid-19. Wrth baratoi, roedd y Bwrdd lechyd hefyd wedi darparu ystod o gyfleoedd uwchsgilio i dimau nyrsio, staff anghlinigol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig i ieuchyd a gwirfoddolwyr cyhoeddus a hwylusodd ymateb y Bwrdd lechyd ymhellach i don gyntaf pandemig digynsail COVID 19 sydd wedyn wedi parhau trwy gydol y pandemig gyda chefnogaeth gan gydweithwyr yn y Brifysgol. Datblygwyd cynlluniau ymchwydd mewn ymateb i'r modelu data pandemig Covid-19 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, cafodd y rhain eu monitro ochr yn ochr â data gwirioneddol a'u haddasu'n unol â hynny gan adlewyrchu safle staffio'r Bwrdd lechyd. Roedd y Gwasanaeth Paediatreg yn datblygu gwaith i fodloni gofynion deddfwriaethol y Ddeddf a oedd am ddod i rym yn Hydref 2021 gyda gweithredoedd yn cael eu holrhain yn agos i sicrhau parodrwydd ac y cyrhaeddir y cerrig milltir cenedlaethol. Mae staff wedi bod yn ymgyswrtu gyda'r fethodoleg am fod Lefelau Gofal Paediatreg Cymru wedi eu hymgorffori'n dda yn barod. Casglwyd data craffter a staff yn ddyddiol gydag ymarferion dilysu ar y gweill i sicrhau cysondeb defnydd ar draws y tair uned cleifion mewnol. Gorffennodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth trwy ychwanegu ei diolch personol i staff a gafodd eu hadleoli y tu allan i'w maes gwaith arferol, am eu hyblygrwydd a'u hymrwymiad.	Gweithredwyr

A21.4.3 Cafodd y cwestiwn nesaf ei gyflwyno gan Mr Derek Browne o'r RCN a darllenwyd "*Beth yw'r gydymffurfiaeth â'r PADR a hyfforddiant gorfodol? Rwy'n ymwybodol bod cydymffurfiaeth trin â llaw wedi ei ddynodi fel risg, byddai'n rhoi sicrwydd gwybod beth yw'r weithred sydd ar waith i fynd i'r afael â hyn ar hyn o bryd.*" Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad bod y gyfradd arfarnu sefydliadol yn sefyll ar 71% ar hyn o bryd a oedd yn safle gwell er mae'n derbyn nad dyma lle mae'n dymuno i'r sefydliad fod. Nododd mai rhan o'r dull Mewn Undod mae Nerth fyddai nodi ffyrdd amgen y gallai unigolion gael eu grymuso i gael sgysiau ystyrlon ynghylch perfformiad ac amcanion. O ran cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol roedd y pandemig wedi effeithio ar hyn hefyd ond gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod staff yn dal i allu cael mynediad at hyfforddiant a chymryd rhan. Roedd yr hyfforddiant trin â llaw yn un elfen a oedd yn ddelfrydol yn gofyn am ddarparu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer staff clinigol ac roedd wedi cael ei effeithio'n sylweddol o ran argaeledd staff i ddarparu'r hyfforddiant a'r gallu i ddarparu'r hyfforddiant mewn modd diogel o ran Covid. Roedd hi'n dymuno cofnodi ei diolchgarwch i bartneriaid undeb llafur am eu cefnogaeth i ddatblygu rhaglen ar gyfer hyfforddiant trin â llaw a gafodd gefnogaeth dda a nododd fod cynnig pellach yn cael ei ddatblygu. Sicrhodd mesurau dros dro fod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar sail unigolyn a gwasanaeth.

A21.4.4 Roedd y cwestiwn nesaf hefyd wedi'i gyflwyno gan Mr Derek Browne o'r RCN a darllenodd "*Beth fu trosiant y staff yn ystod y pandemig a pha strategaethau y mae'r Bwrdd lechyd yn eu rhoi ar waith ar gyfer recriwtio a chadw staff?*" Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad fod trosiant wedi gostwng yn PBC, yn unol â gweddill Cymru a rhannau eraill o'r DU, yn ystod pandemig 2020 ond bellach wedi cynyddu eto. Cydnabwyd bod angen i'r sefydliad wneud pethau'n wahanol o amgylch llwybrau recriwtio. Cydnabu bwysigrwydd cadw staff yn ogystal â recriwtio, er mwyn sicrhau bod sgiliau a phrofiad gwerthfawr yn cael eu cadw yn y sefydliad. Yn ogystal, mae'r broses ymadael wedi ei gwella.

A21.4.5 Cyflwynwyd y cwestiwn nesaf gan Mr Derek Browne o'r RCN hefyd a darllenwyd "*Beth yw'r tri phrif flaenoriaeth o fewn y cynllun adfer?*" Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio mai'r rhain oedd:

- Ail-ddechrau'r holl wasanaethau gofal wedi eu cynllunio ar ôl y pandemig. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau (o ganol mis Gorffennaf) ac roedd y Bwrdd yn adeiladu tuag at y lefelau capasiti blaenorol er gwaethaf y ffaith bod pellter cymdeithasol wedi lleihau rhywfaint o gapasiti.
- Wrth drin gweithgaredd eleni byddai'r sefydliad hefyd yn trin y garfan o gleifion na chawsant eu trin naill ai cyn y pandemig neu yn ystod y pandemig. Mae'r rhain wedi eu rhannu i arbenigeddau a chyfrifwyd pa mor hir y byddai'n ei gymryd. Byddai'r capasiti sydd ei angen yn cael ei ddarparu trwy sesiynau clinigol ychwanegol, rhoi gwaith ar gontract allanol gyda'r sector annibynnol a mewnnoli.
- Trawsnewid gwasanaethau i wella canlyniadau cleifion a gostwng amseroedd aros. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy gynllun adfer chwe phwynt ond byddai hefyd yn cynnwys llwybrau newydd, yn syth i'w profi ar gyfer cleifion sy'n aros yn

hirach am eu triniaeth, moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol a dilyn dull canolfan ddiagnostig a thriniaeth.

A21.4.6 Cyflwynwyd y cwestiwn olaf gan Mr Phil Jones, ar ran Grŵp Gweithredol Cleifion Llawfeddygaeth Hanmer a darllenodd “ *A yw'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod amddiffyn ei adeilad gofal cychwynnol yn y dyfodol yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd? Ar hyn o bryd, mae meddygon teulu sy'n gweithio yn eich adeiladau, a ddyluniwyd ac a adeiladwyd mor ddiweddar â 2017, yn nodi nad oes ganddynt le i roi staff iechyd cymunedol. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei gwneud yn fwy difrifol gan y duedd bresennol mewn mudo o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig ynghyd â'r gallu cynyddol i weithio gartref. Sut fydd y Bwrdd yn sicrhau bod hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol yn cael ei gynnwys ym mhob adeilad gofal cychwynnol newydd?*” Sicrhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned y rhai a oedd yn bresennol fod y Bwrdd yn cydnabod yn llawn pwysigrwydd sicrhau y gallai adeiladau gofal cychwynnol gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau gofal cychwynnol. Dywedodd mai darparu mwy o ofal yn nes at y cartref oedd y bwriad ond ni allai hyn ddigwydd oni bai bod yr ystâd gofal cychwynnol a chymuned yn addas at y diben ac i gyflawni hyn, roedd angen trawsnewid. Yn ddiweddar, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r holl gyfleusterau meddygfeydd yng Nghymru. Disgwylir canlyniad yr adolygiad hwn a fydd wedyn yn llywio strategaeth ystadau well sy'n canolbwyntio ar y claf i hwyluso gofal amserol mewn amgylchedd modern ac addas at y diben. Ar hyn o bryd mae dau adeilad gofal cychwynnol newydd ar y gweill yn Rhuthun a Waunfawr ynghyd ag ystod o welliannau i adeiladau presennol. Pwysleisiodd y pandemig bod nifer o adeiladau heb eu dylunio i ymdopi gyda sefyllfaoedd mor heriol. Byddai hyblygrwydd yn allweddol a byddai'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda Cyd-wasanaethau GIG Cymru i sicrhau hyn wrth weithio o fewn rheolau arfer gorau ac ariannu. Fel rhan o hyn, mae cyfleoedd yn cael eu cymryd i wella gwasanaethau yn Hanmer i sicrhau mwy o wasanaethau cynaliadwy. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd cyfyngiadau yn nhermau natur yr adeiladau a'r contract, o ran natur y buddsoddiad y gellid ei gynnig a chadarnhawyd bod rheolau o ran sut y dylai'r ystâd gofal cychwynnol edrych ac mae'r Bwrdd wedi adeiladu gan ymgorffori'r rhain bob tro. Fodd bynnag, roedd sgwrs barhaus ynghylch a oedd y rheolau hynny'n parhau i fod yn addas at y diben.

A21.5 Sylwadau Terfynol

A21.5.1 Diolchodd y cadeirydd i'r Tîm Gweithredol am eu gwaith ac am ddarparu cyflwyniadau i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd hefyd am gofnodi mai hwn oedd cyfarfod llawn olaf Mr Eifion Jones cyn iddo adael i ymgymryd â rôl arall. Nododd y Cadeirydd fod Mr Jones wedi ymuno â'r Bwrdd ym mis Awst 2019 a'i fod wedi darparu mewnbwn gwerthfawr i drafodaethau'r Bwrdd a'r Pwyllgor yn enwedig y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Dymunodd ddiolch iddo am ei gefnogaeth yn bersonol ac iddo fel Cadeirydd.

A21.5.2 Yn olaf, nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd ar hyn o bryd yn recriwtio tair swydd Aelod Annibynnol ac y byddai'n falch o dderbyn unrhyw ddiddordeb gan aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno cynrychioli eu cymunedau.

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd 23 Medi 2021				
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus				
Teitl yr Adroddiad: Report Title:	Adroddiad y Prif Weithredwr				
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Jo Whitehead, Prif Weithredwr				
Awdur yr Adroddiad: Report Author:	Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd				
Craffu Blaenorol: Prior Scrutiny:	Jo Whitehead, Prif Weithredwr				
Atodiadau Appendices:	5				
Argymhelliad / Recommendation:					
Bod y Bwrdd Iechyd yn nodi adroddiad y Prif Weithredwr.					
Ticiwch fel sy'n briodol (cofiwch y bydd Cadeirydd y cyfarfod yn adolygu'r ddogfen ac o bosibl yn penderfynu y dylid ei hystyried o dan gategori gwahanol)					
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	Er gwybodaeth For Information
					✓
Ydi/Nac ydi i nodi a yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol					Nac ydi
Sefyllfa / Situation:					
Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion allweddol sy'n effeithio ar y sefydliad ac i dynnu sylw'r Bwrdd at feysydd o ddiddordeb amserol.					
Mae nifer o faterion a godir yn yr adroddiad hwn yn cael mwy o sylw yn adroddiadau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fel rhan o fusnes cyhoeddus y Bwrdd.					
Cefndir / Background:					
Nod yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd am y prif faterion sy'n effeithio ar y sefydliad, rhai o'r digwyddiadau ymgysylltu a chyfarfodydd allweddol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr a throsolwg o ddatblygiadau lleol a chenedlaethol o ddiddordeb.					
Asesiad a Dadansoddiad / Assessment & Analysis					

Newidiadau i'r tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol

Mae'n bleser gennyf groesawu Dr Nick Lyons sydd wedi ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Mae Nick yn ymuno â ni o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, lle bu'n Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ers 2019. Penodwyd Nick yn dilyn proses ddethol drylwyr lle cawsom ein synnu gan ba mor agos y mae'n rhannu ein gwerthoedd o weithio gyda'n gilydd i roi cleifion yn gyntaf a gwrando ar ein cydweithwyr meddygol gwych a'u cefnogi i ddysgu ac arloesi. Rwy'n sicr y bydd Nick yn gaffaeliad mawr i'r Bwrdd ac rydym i gyd yn edrych ymlaen at weithio gydag ef wrth i ni reoli heriau COVID-19 a cheisio gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Athro Arpan Guha am gyflenwi yn swydd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol dros y misoedd diwethaf, sydd wedi bod yn arbennig o heriol oherwydd y pandemig.

Hoffwn roi gwybod hefyd y bydd Mark Wilkinson yn rhoi'r gorau i'w rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad. Mae Mark wedi cael ei gyflogi'n llawn amser yn y GIG ers 37 o flynyddoedd ac, yn rhannol o ganlyniad i'r pandemig, mae bellach yn awyddus i fynd ar drywydd diddordebau eraill yn nes at adref a sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae Mark wedi bod gyda'r Bwrdd Iechyd ers ychydig o dan dair blynedd ac mae wedi bod yn aelod gweithredol ac ymrwymedig o'r tîm gweithredol sy'n llywio'r sefydliad drwy gydol y pandemig, a chyn hynny yn ystod ein cyfnod adfer ariannol. Yn fwyaf nodedig o bosibl, mae wedi arwain y gwaith o gomisiynu'r tri Ysbyty Enfys a greodd, gyda chymorth llawer o bartneriaid, hyd at 1,000 o welyau ysbyty ychwanegol i ymateb i'r rhagolygon ar y pryd ar gyfer y don gyntaf o COVID-19.

Mae rhai o lwyddiannau eraill Mark wedi cynnwys datblygu strategaeth ystadau uchelgeisiol gan gynnwys cynlluniau i gynnal a gwella gwasanaethau ym Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd.

Rwyf wedi gofyn, ac mae Mark wedi cytuno, i aros gyda'r Bwrdd Iechyd tan yr haf y flwyddyn nesaf i fwrw ymlaen â'n cynlluniau ar gyfer yr ystâd. Yn y rôl newydd hon, bydd yn parhau'n atebol i mi fel cyfarwyddwr rheoli asedau strategol.

Y diweddaraaf am y cynnydd yn y galw gan gleifion o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd a rheoli COVID-19.

Dros yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld nifer sylweddol o bobl yn defnyddio ein hadrannau brys ar draws ein tri ysbyty aciwt. Mae hyn, ynghyd â chynnydd yn lefel aciwt yr ymweliadau â'r adrannau brys o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, wedi arwain mewn rhai achosion at effeithiau ar ein perfformiad a'n gallu i ddarparu gofal wedi'i gynllunio. Ar ben hynny, mae gennym rai cyfyngiadau o ran mynediad at gartrefi gofal a/neu ofal cartref sy'n effeithio ar ein gallu i fynd ati'n gyflym i ryddhau'r rheini sy'n barod i adael yr ysbyty. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol i helpu i ryddhau cleifion yn effeithiol ac i adolygu ein dewisiadau ar gyfer cynyddu gofal cartref lle mae bylchau'n bodoli, ac rydym yn parhau i fwrw ymlaen â chynlluniau i sicrhau ein bod yn gallu rheoli pwysau gweithredol wrth i ni fynd i mewn i'r hydref.

Rydym hefyd yn gweld cynnydd yn y galw yn ein gwasanaethau gofal sylfaenol, a gwelwyd effaith benodol o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal dros fisoedd yr haf. Ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu, erbyn mis Mehefin 2021, mae data'n dangos ein bod ni fwy neu lai wedi cyfateb i lefelau galw 2019 gyda chynnydd o ychydig dros 10% ym mis Gorffennaf, eto o'i gymharu â lefelau 2019. Mae'r rhan fwyaf o'r galw'n dod gan drigolion Cilgwri, Swydd Gaer, Manceinion a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Mae lefelau COVID-19 yn parhau i gynyddu yn y gymuned ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym wedi gweld cynnydd penodol yng Ngwynedd a Sir Ddinbych yw'r sir sydd â'r gyfradd uchaf, sef 430.5 am bob 100,000 o boblogaeth yng Nghymru (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn). Yn gadarnhaol, yr wythnos hon rhoddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 1 miliwn o frechlynnau i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng ngogledd Cymru, gyda 487,253 o unigolion wedi cael dau ddos. Mae hyn yn llwyddiant ysgubol ac ni ellid bod wedi cyflawni hyn heb weithio gyda'n gilydd ar draws y Bwrdd Iechyd a gyda'n partneriaid yn yr Awdurdodau Lleol i sicrhau bod ein cymunedau'n gallu cael brechlyn. Mae hyn yn cynnwys pob aelod - o'n timau brechu a'n gwirfoddolwyr yn ein canolfannau brechu, i'r rheini allan ar y ffyrdd yn ceisio cyrraedd y bobl fwyaf agored i niwed. Ein cydweithwyr mewn ysbytai sy'n darparu ar gyfer cleifion mewnol; ein cydweithwyr gofal sylfaenol mewn practis cyffredinol a fferyllfeydd, ein timau iechyd galwedigaethol, ein gwirfoddolwyr a'r rheini sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni i sicrhau bod hyn i gyd yn digwydd. Ein cydweithwyr Rhaglenni, Ardaloedd, Clinigol, Fferylliaeth, Gwybodeg, y Gweithlu, Gweinyddu, Logisteg, Cyfathrebu a Chyllid - diolch i bawb. Mae rhagor o adroddiadau wedi'u cynnwys ar agenda'r Bwrdd Iechyd hwn, sy'n rhoi rhagor o fanylion am ein cynlluniau gofal heb eu trefnu ac ymateb i Covid-19.

Problem Cyflenwad Critigol – Tiwbiau Casglu Samplau Gwaed

Mae'r broblem genedlaethol (yn y DU) sy'n ymwneud â chyflenwadau tiwbiau casglu samplau gwaed yn dal i effeithio arnom, ac mae'n debygol y bydd yr amharu ar y cyflenwadau'n parhau tan fis Tachwedd 2021. Mae nifer o gamau'n cael eu cymryd i ganfod tiwbiau sbesimen eraill, ac mae cydweithwyr yn parhau i weithio gyda'i gilydd i reoli ein stociau presennol.

Gwarcheidwaid “Speak out Safely” a “Work in Confidence”

Roeddwn yn falch o gymryd rhan yn ddiweddar yn y broses o benodi nifer o gydweithwyr i'n rolau Gwarcheidwaid “Speak out Safely”. Roedd yr holl warcheidwaid llwyddiannus yn falch o dderbyn eu cynigion o swydd, a'r gobaith yw y byddant yn eu swyddi yn ystod mis Medi. Hefyd, mae ein system ‘Work in Confidence’ bellach ar waith. Work in Confidence yw'r platfform annibynnol, diogel a chyfrinachol ar y we y gall staff ei ddefnyddio i godi pryderon sydd ganddynt. Mae'n cymryd lle ein system flaenorol - Safe Haven ac mae'n galluogi staff i gael sgwrs ddwyffordd ddienw gydag aelod o'n tîm amlddisgyblaethol “Speak Out Safely” a'n Gwarcheidwaid “Speak Out Safely”.

Cynaliadwyedd, Datgarboneiddio a Grwpiau Gwyrdd BIPBC

Yn gynharach y mis hwn, roeddem wedi neilltuo amser yn ein gweithdy Bwrdd i ganolbwyntio ar gynlluniau cynaliadwyedd a datgarboneiddio'r sefydliad ac roeddem yn falch iawn o groesawu aelodau Grŵp Gwyrdd YG, Yasmina Hamdaoui, Carsten Eickmann a Tom Downs i siarad â'r Bwrdd am eu gwaith yn lleol i hyrwyddo cynaliadwyedd mewn gofal iechyd. Mae gennym bapur ar agenda ein Bwrdd Iechyd Cyhoeddus heddiw yn trafod ein camau nesaf i fwrw ymlaen â strategaeth Cynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd.

Cyfarfodydd a digwyddiadau'r Prif Weithredwr

Dros y mis neu ddau diwethaf, rwyf wedi parhau i gwrdd â staff a rhanddeiliaid eraill. Roeddwn yn falch o fynd i ysbyty Maelor Wrecsam yr wythnos diwethaf lle cefais ymweld â'r adran Baeddiatreg ac yna'r tîm Cymalau Artiffisial a Chyfarpar. Yna, fe wnes i ymuno â sesiwn ‘lleisiau o'r llawr’ lle roedd cydweithwyr yn gallu rhannu rhywfaint o wybodaeth am y materion sy'n codi ar hyn o bryd yn lleol. Mae Mark a minnau hefyd wedi ymweld â chydweithwyr yng Nghanolfan Ganser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd ac wedi cwrdd hefyd â chydweithwyr o Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd i drafod pryderon ynghylch y pwysau diweddar a ddisgrifir uchod.

Diweddariadau lleol/cenedlaethol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: Cefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyfleoedd i fod yn rhan o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn falch o gytuno i gymryd rhan yn rhaglen mentora dwyffordd Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n gyfle unigryw i ddysgu sut mae arweinwyr y dyfodol yng Nghymru yn mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy ac mae'n cynnig budd enfawr i'n harweinwyr ifanc fod mewn partneriaeth ag uwch arweinwyr yng Nghymru yn ogystal â'r manteision dwyffordd sy'n cael eu cynnig yn gyfnewid am hynny. Byddwn yn annog cydweithwyr sydd â diddordeb yn hyn eu hunain i gael rhagor o wybodaeth gan dîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Adroddiadau ar Fforymau a Chyd-bwyllgorau Cymru Gyfan

- Cyfarfu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar 13 Gorffennaf 2021. Mae adroddiad sicrwydd y Cadeirydd wedi'u cynnwys yn Atodiadau 1.
- Roedd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cyfarfod ar 22 Gorffennaf 2021. Mae adroddiad sicrwydd y Cadeirydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.
- Cyfarfu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ar 11 Mai 2021. Mae'r adroddiad Sicrwydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.
- Cyfarfu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ar 13 a 20 Gorffennaf 2021. Mae'r cofnodion wedi'i gynnwys yn Atodiad 4 & 5

Goblygiadau Strategol

Nid oes dim goblygiadau strategol penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

Opsiynau i'w hystyried

Nid oes rhagor o opsiynau i'w hystyried.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes dim goblygiadau ariannol penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

Dadansoddi Risg

Mae'r goblygiadau risg y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu trafod yn fanylach mewn adroddiadau ategol ar agenda'r Bwrdd Cyhoeddus.

Cyfreithiol a Chydymffurfio

Nid oes dim goblygiadau cyfreithiol a chydymffurfio penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

Asesiad Effaith

Nid oes angen asesiad effaith i gefnogi'r adroddiad hwn.



Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Cyfarfod y Bwrdd 23 Medi 2021					
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus					
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018. Diweddaru'r gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru a Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan).					
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.					
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Meryl Roberts, Rheolwr Cymeradwyo Cymru Gyfan ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2).					
Craffu Blaenorol: Prior Scrutiny:	Amherthnasol					
Atodiadau Appendices:	Atodiad 1: Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru). <u>- Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru.</u> Atodiad 2: Deddf Iechyd Meddwl 1983 - <u>Diweddaru'r Gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru.</u>					
Argymhelliad / Recommendation:						
Argymhellir bod y Bwrdd Iechyd yn derbyn yr adroddiad hwn fel sicrwydd o gydymffurfio â'r broses a'r weithdrefn ddeddfwriaethol.						
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate						
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	✓	Er gwybodaeth For Information
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Ydi/Nac ydi i nodi a yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol						Nac ydi

Sefyllfa / Situation:

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn ymgymryd â swyddogaeth ddirprwyedig Gweinidogion Cymru ar gyfer cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy a meddygon Adran 12 (2) ar ran yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru. Mae'n sicrhau bod prosesau cymeradwyo ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a meddygon Adran 12(2) yng Nghymru yn cael eu cymeradwyo, eu hailgymeradwyo, eu hatal a'u terfynu'n effeithiol.

Mae'r manylion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn yr Adroddiad hwn yn grynodedig o'r cymeradwyaethau sydd wedi cael eu cadarnhau yn barod gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer cymeradwyaethau Clinigwyr Cymeradwy neu Feddygon Adran 12(2) ar draws pob un o Fyrddau Iechyd Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu cofnod llywodraethu ar gyfer cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007) y broses gymeradwyo a chadarnhau.

Cefndir / Background:

Mae'r Broses Gymeradwyo yn rhan o'r broses Ddeddfwriaethol sy'n ymwneud â Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007).

Mae Cyfarwyddiau Deddf Iechyd Meddwl 1983 Llywodraeth Cymru (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018, Trefniadau Gweithdrefnol Clinigwyr Cymeradwy (Gorffennaf 2018) a Dogfen Meini Prawf a Chanllawiau Adran 12(2) Cymru Gyfan (Mehefin 2013) yn nodi'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo Meddygon a Chlinigwyr anfeddygol sy'n dymuno cael eu cymeradwyo o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Defnyddir y dogfennau hyn i graffu ar geisiadau am gymeradwyaeth a dderbyniwyd gan Clinigwyr ledled y wlad. Derbynnir ceisiadau naill ai ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy neu geisiadau Adran 12(2) gan Seiciatryddion, Ymarferwyr Cyffredinol a gweithwyr proffesiynol cofrestredig eraill sy'n gymwys i wneud cais am statws cymeradwy dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) (fel y'i diwygiwyd yn 2007).

Mae ceisiadau'n cael eu harchwilio gan y tîm cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio, ac yna'n cael eu cyflwyno i aelodau'r Panel er mwyn iddynt graffu arnynt, eu hasesu a'u hargymhell.

Yn dilyn asesiad y Panel, rhaid i unrhyw argymhelliad i gymeradwyo gael ei gadarnhau'n ffurfiol gan Fwrdd Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, er mwyn i'r broses gymeradwyo fod yn gyfreithlon ac er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion deddfwriaethol.

Ceisir cadarnhad gan y Bwrdd Iechyd drwy lythyr Gweithredu ysgrifenedig gan y Cadeirydd ac fe'i cyflwynir i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd i'w gydlynu a'i gwblhau.

Yna, derbynnir cadarnhad i'w gymeradwyo yn ysgrifenedig gan Aelodau'r Bwrdd ac fe'i dychwelir i'r Tîm Cymeradwyo.

Mae'r Clinigydd wedyn yn cael gwybod ei fod wedi cael ei gymeradwyo a chaiff hyn ei ddilyn yn ysgrifenedig drwy lythyr cymeradwyo wedi ei lofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol.

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis**Goblygiadau Strategol / Strategy Implications**

Mae'n bwysig sicrhau'r safonau llywodraethu uchaf ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo ymarferwyr sy'n cael y cyfrifoldebau ychwanegol hyn, mewn cysylltiad â phobl ag anhwylder meddwl.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Adroddiad ffeithiol yw hwn at ddibenion sicrwydd.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Mae'r Tîm Cymeradwyo yn cael cyllideb wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith monitro a chymeradwyo Clinigwyr yng Nghymru.

Dadansoddiad Risg / Risk Analysis

Er mwyn sicrhau bod yr holl Glinigwyr yn cael eu cymeradwyo a'u hail-gymeradwyo o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, mae Panel Cymeradwyo Cymru Gyfan yn asesu ceisiadau yn unol â'r Trefniadau Gweithdrefnol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Mae'r Broses Gymeradwyo yn bodloni gofynion deddfwriaethol Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd 2007) a Chyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018.

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Ystyrir nad oes angen asesiad effaith ar gyfer y diweddariad hwn. Mae'r Broses Gymeradwyo yn rhan o broses ddeddfwriaethol sefydledig.

Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy a Meddygon Cymeradwy Adran 12 (2) yng Nghymru 23 Mehefin 2021 – 24 Awst 2021		
	Clinigwyr Cymeradwy	A12 (2)
Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo	24	16
Tynnwyd – Wedi dod i ben	1	0
Atal cymeradwyaeth dros dro	2	0
Ail-ysgogi cymeradwyaeth/Ailysgogi a dychwelyd i weithio yng Nghymru	2	0
Cymeradwyaeth wedi dod i ben	0	5
Wedi ymddeol	0	1
Tynnwyd – Clinigwyr Cymeradwy wedi'u cymeradwyo	Amh.	0
Ddim wedi cofrestru mwyach	0	0
Trosglwyddwyd o'r gofrestr Clinigwyr Cymeradwy	Amh.	0
Cymeradwyaeth wedi dod i ben gan nad ydynt yn gweithio yng Nghymru mwyach	3	1
Wedi cofrestru heb drwydded i ymarfer	0	0
RIP	1	0

ATODIAD 1

Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007

Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru)

Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru

23 Mehefin 2021 – 24 Awst 2021

Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo: 24

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Tuma	Tumour	Bryn Hesketh, Ffordd Hesketh, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8AT.	26 Ionawr 2022	Oes
Verma	Anupam	Tŷ Grosvenor, Elysium Healthcare, Wrecsam LL11 1BU	8 Awst 2022	Oes
Cree	Adrian	Priory Healthcare Group, Uned Ddiogel Tŷ Catrin, Heol Dyfrig, Caerdydd, CF5 5AD.	26 Mawrth 2023	Oes
Flirski	Marcin	Ludlow Street Healthcare, Heatherwood Court, Heol Llantrisant, Penyrcoedcae, Pontypridd, CF37 1PL.	21 Rhagfyr 2024	Oes
Walton	Catherine	Tŷ Bryn, Ysbyty St Cadog, Caerllion, Gwent NP18 3XA	6 Ebrill 2026	Oes
Ibitoye	Fade	Cygnnet Healthcare, Delfryn Lodge, Argoed Hall Lane, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6FQ.	9 Mai 2026	Oes
Kramer	Julia Rose	Ysbyty Treforys, Abertawe, SA6 6NL.	5 Gorffennaf 2026	Oes
Jayawickrama	Dilum	Grŵp Gofal Iechyd y Priordy, Ysbyty Annibynnol Llanarth Court, Rhaglan, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 2YD	5 Gorffennaf 2026	Oes
Sreenath	Sanghalli	Uned Iechyd Meddwl Heddfan, Ysbyty Maelor, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL14 7TD a gwaith Annibynnol gyda Psychiatry-UK.	12 Gorffennaf 2026	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Bekhit	Sameh	Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Oedolion Hŷn De Sir Fynwy, Llanfair, Ysbyty Cymunedol Cas-gwent, Tempest Way, Cas-gwent NP16 5YX	14 Gorffennaf 2026	Oes
Varanasi	Amrita	Ysbyty Ystrad Fawr, Ystrad Mynach, Caerffili CF82 7EP	18 Gorffennaf 2026	Oes
Masood	Malik	Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Pwll Glas, Ffordd Pwll Glas, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1RA	20 Gorffennaf 2026	Oes
Kovvuri	Suneetha	Ysbyty Annibynnol Coed Du Hall, Ffordd Nant Alyn, Rhydymwyn, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 5HA	26 Gorffennaf 2026	Oes
Jauhari	Archana	Canolfan Adnoddau Bryntirion, Salop Road, Y Trallwng SY21 7EA	27 Gorffennaf 2026	Oes
Ivenso	Chineze	Gwasanaeth Seiciatreg Fforensig Gwent, Ysbyty St Cadoc, Lodge Road, Caerllion, Casnewydd NP18 3XQ	29 Gorffennaf 2026	Oes
Pankajakshan	Rakesh	Tîm Iechyd Meddwl Ardal y Fro, Ysbyty'r Barri, Heol Colcot, Y Barri CF62 8YH	1 Awst 2026	Oes
Ur Rehman	Ijaz	Grŵp Gofal Iechyd y Priordy, Ysbyty Annibynnol Llanarth Court, Llanarth, NP15 2YD.	2 Awst 2026	Oes
Mohamed	Lily Azlinda	CTMUHB, Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr Celtic Court, Heol Tremains, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1TZ	4 Awst 2026	Oes
Howells	David Mark	Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn, Uned Llanfair, Ysbyty Athrofaol, Llandochoau, Ffordd Penlan, Penarth, Caerdydd CF64 2XX	9 Awst 2026	Oes
Schmidt	Annamarie	Uned Ablett, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol, Ysbyty Glan Clwyd, Sarn Lane, Bodelwyddan, Y Rhyl LL18 5UJ	9 Awst 2026	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Rhydderch	Danielle	CDAT, Parc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF48 1Bâ	10 Awst 2026	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Dye	Timothy	Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Cynon, Ysbyty Cwm Cynon, New Road, Aberpennar CF45 4BZ	11 Awst 2026	Oes
Griffiths	Marc	Canolfan White Valley, Lodge Road, Caerllion, Casnewydd, NP18 3XA	12 Awst 2026	Oes
Duffin-Jones	Benjamin	Uned Llanfair, Ysbyty Athrofaol Llandochoau, Ffordd Penlan, Llandochoau, Penarth, CF64 2XX	21 Awst 2026	Oes

Atal cymeradwyaeth dros dro: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Mohan	Deni	Uned Llanfair, Ysbyty Athrofaol Llandochoau, Ffordd Penlan, Penarth CF64 2XX	9 Gorffennaf 2022
Walton	Catherine	Tŷ Bryn, Ysbyty St Cadog, Caerllion, Gwent NP18 3XA	06 Ebrill 2026

Ail-ysgogi cymeradwyaeth: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Mohan	Deni	Uned Llanfair, Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ffordd Penlan, Penarth CF64 2XX	9 Gorffennaf 2022
Walton	Catherine	Tŷ Bryn, Ysbyty St Cadog, Caerllion, Gwent NP18 3XA	06 Ebrill 2026

Cymeradwyaeth wedi dod i ben: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Nomuoja	Felix Akpomedaye	Tŷ Illtyd, Aberhonddu LD3 8AH	23 Mehefin 2021

Wedi ymddeol: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

Ddim wedi cofrestru mwyach: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y deth y gymeradwyaeth i ben

Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach: 3

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Fischer	Thomas	Ysbyty Cefn Carnau, Lôn Cefn Carnau, Thornhill, Caerffili CF83 1LX	15 Rhagfyr 2025
Khalaf	Badea Balawi	Clinig Brynmair, Goring Road, Llanelli SA15 3HF	15 Awst 2021
Gilgar	Liam	Ysbyty'r Barri, Heol Colcot, y Barri, CF62 8YH	16 Chwefror 2026

Cymeradwyaeth wedi dod i ben: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

RIP: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Jenkins	Gary Dr	BIP Caerdydd a'r Fro, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Hamadryad, Heol Hamadryad, Butetown, Caerdydd CF10 5UY	27 Hydref 2024

ATODIAD 2**Deddf Iechyd Meddwl 1983****Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru****23 Mehefin 2021 – 24 Awst 2021****Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo: 16**

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Todd	Andrew	CAMHS BIP Bae Abertawe, Bloc D, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, Baglan Way, Port Talbot, SA12 7BX.	28 Mehefin 2026	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
McDermott	Alexander	Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, CF72 8XR	4 Gorffennaf 2026	Oes
Somoye	Edward	Hafan y Coed, Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ffordd Penlan, Llandochau, Penarth CF64 2XX	30 Mehefin 2026	Oes
Qamaruddin	Shiraz	Ystafell Feddygol, Dalfa Pen-y-bont ar Ogwr, Gorsaf Heddlu Queens Road, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3UT.	25 Gorffennaf 2026	Oes
Wilson	David	Tîm Gofal Canolraddol, Ysbyty Llwynhelyg, Heol Abergwaun, Hwlfordd SA61 2PZ	4 Gorffennaf 2026	Oes
Ghafoor	Sana	Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ffordd Penlan, CF64 2XX	12 Gorffennaf 2026	Oes
Vikram	Udaya	Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan, Sir Ddinbych LL18 5UJ	11 Chwefror 2024	Na
Muniyappa	Som	Canolfan Preseli, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, Heol Abergwaun, Hwlfordd, SA61 2PZ.	18 Gorffennaf 2026	Oes
Cole-King	Alys	BCU, Swyddfa'r Tîm Cyswllt, Uned Ablett, Bodelwyddan, Sir Ddinbych, LL18 5UJ.	18 Gorffennaf 2026	Oes
Mehmood	Taiyabb	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Ysbyty Brenhinol Morgannwg.	25 Gorffennaf 2026	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Elsayed	Amal Mahgoub	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Gofal locwm cyfeiriad cartref preifat.	15 Ionawr 2025	Na
Saville	Franklin	Hafan y Coed, Ysbyty Llandochau, Heol Penlan, Caerdydd, CF64 2XX.	8 Awst 2026	Oes
Evans	Ethan	Ysbyty Neuadd Tŷ Gwyn, Llandeilo Bertholau, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 6NY.	8 Awst 2026	Oes
Ab Bader	Mohammed	Tîm Iechyd Meddwl Ardal y Fro, Ysbyty'r Barri, Heol Colcot, Y Barri, CF62 8YH.	9 Awst 2026	Oes
Swift	Abigail	Tŷ Penfro, Heol Penfro, Caerdydd CF5 1QQ	2 Mehefin 2025	Na
Guy	Jennifer	Ysbyty Dewi Sant, Heol y Bont-faen, Caerdydd, CF11 9XB	24 Ionawr 2026	Na

Daeth i ben: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Daeth i ben: 5

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Rafferty	Danika	Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hyn, Ysbyty Athrofaol Llandochoau, Ffordd Penlan, Llandochoau, Penarth CF64 2XX	27 Gorffennaf 2021
Millington	Malcolm	Tŷ Helyg, Ysbyty Bronglais, Heol Caradog, Aberystwyth SY23 1ER	27 Gorffennaf 2021
Abayanayake	Sandya Nishanthima	Canolfan Hywel Dda, Regent Way, Cas-gwent, Sir Fynwy NP16 5BS	14 Awst 2021
Davies	Martyn	CMHT Hafan Dawel, 19 Heol Stanwell, Penarth, Caerdydd CF64 2X	19 Gorffennaf 2021
Okigbo	Susan	Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2PN	20 Gorffennaf 2021

Daeth yn Glinigwr Cymeradwy: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	

Ddim wedi cofrestru mwyach: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Trosglwyddwyd o'r gofrestr Clinigwyr Cymeradwy: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Mehmood	Taiyabb	Gynt o Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Uned Iechyd Meddwl, Ynysymaerdy, Llantrisant, Pont-y-clun, CF72 8XR,	25 Gorffennaf 2026

RIP: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Wedi ymddeol: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Davies	Sian Wyn	Meddygfa Pen-y-Cae, Bridge Street, Glynebwy, NP23 6EU	4 Rhagfyr 2023

Bwrdd Iechyd 23.9.21	 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board <i>Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol</i>
Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor	

Enw'r Pwyllgor:	Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau
Dyddiad y cyfarfod:	6 Gorffennaf 2021
Enw'r Cadeirydd:	Lucy Reid
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Gill Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio / Dirprwy Brif Weithredwr
Crynodeb busnes drafodwyd:	o'r a Derbyniodd y Pwyllgor y canlynol: • Stori claf sy'n disgrifio profiad claf yn yr adran achosion brys ac uned asesu llawfeddygol yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC). • Crynodeb o ddyfarniadau ansawdd a chydabyddiaethau ar draws y Bwrdd Iechyd. • Cynllun gweithredu adolygu ansawdd YGC a chrynodeb o'r cynnydd. • Adroddiad ar Berfformiad ac Ansawdd ar gyfer mis Mai. • Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. • Cofrestr Risgiau Corfforaethol. • Diweddariad yr Is-grŵp Atal a Rheoli Heintiau. • Diweddariad am Covid-19. • Adroddiad ar Ddigidwyddiadau Difrifol ar gyfer Ebrill a Mai gan gynnwys adolygiad thematig o Ddigidwyddiadau na Ddylai Byth Ddigidwydd. • Y Diweddaraaf am Wasanaethau Fasgwlaidd, gan gynnwys gwybodaeth ategol am lwybrau a chynnydd yn erbyn camau gweithredu. • Adroddiad Blynnyddol a Chwarter 4 Iechyd a Diogelwch • Y Diweddaraaf am Iechyd Meddwl sy'n cynnwys gwasanaethau i oedolion a phlant. • Cynllun Archwilio Clinigol ar gyfer 2021/22. • Adroddiad ar Farwolaethau. • Adroddiad Blynnyddol ar Ddiogelu Corfforaethol 2020/21. • Y diweddaraaf am Adfer Gofal wedi'i Gynllunio gan gynnwys adolygu niwed canser a'r broses ddilysu. • Y Diweddaraaf am y Llwybr Amheuaeth o Ganser a Dangosfwrdd Canser. • Adroddiadau gan Is-grwpiau'r Pwyllgor.
Y prif elfennau sicrwydd a	• Roedd yr Adroddiad Blynnyddol ar Ddiogelu Corfforaethol yn disgrifio'r gwaith cydweithredol sy'n cael ei wneud ledled Cymru

ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:	ac yn darparu enghreifftiau defnyddiol o astudiaethau achos i ddangos yr hyn sydd wedi'i ddysgu. • Roedd y diweddaraf am Adfer Gofal wedi'i Gynllunio yn cynnwys y camau a gymerwyd i ddilysu'r rhestrau aros a'r ohebiaeth a anfonir at gleifion gyda holiadur i helpu gyda'r adolygiad hwn. Nodwyd bod y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r niferoedd yn dibynnu ar allu cynnal triniaethau dewisol a dim cynnydd pellach mewn achosion Covid-19. • Derbyniwyd y Cynllun Archwilio Clinigol fel gwaith sydd ar y gweill, a nodwyd ei fod yn cynnwys cydymffurfriad yn erbyn LocSSIPs (rhestrau gwirio llawfeddygol), a bod esiamplau wedi'u nodi ar gyfer yr archwiliadau ar Gwmpo a Thorri Esgyrn Brau.
Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	• Mae'r tîm Atal a Rheoli Heintiau yn parhau i ganolbwyntio ar reoli'r risgiau sy'n deillio o gynnydd yn y cyfraddau trosglwyddo Covid-19 yn y gymuned, gan gynnwys yr heriau amgylcheddol a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â llif cleifion sy'n cael gofal heb ei drefnu a'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol. Bydd yr adolygiad allanol o achosion Covid-19 yn Ysbyty Gwynedd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi. • Darparwyd diweddariad ar y grŵp gorchwyl a gorffen fasgwlaidd, gan ddisgrifio'r angen i gynnwys y timau amlddisgyblaeth yn y llwybrau. Nododd y Pwyllgor y gwaith o ddatblygu llwybrau cleifion a'r adolygiad o sefyllfa gwelyau, ond roeddent yn poeni am yr amser a oedd wedi bod ers ad-drefnu'r gwasanaeth ac yn gofyn am sicrwydd parhaus ynghylch cynnydd a chyflymder. • Nododd y Pwyllgor gynnydd yn nifer y cleifion sy'n cwmpo gan achosi niwed iddyn nhw eu hunain, a rhoddwyd Hysbysiad Gwella gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â rheoli cwympiadau i'r Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2021. Roedd hyn yn ymwneud â dau ddigwyddiad cwmpo a ddigwyddodd yn 2020. Mae cynllun gwella newydd wedi cael ei ddatblygu sy'n cynnwys adolygiad o'r gwaith ar y cyd ar gwympiadau a defnyddio adnodd adolygu cyflym pwrpasol. • Roedd yr adolygiad thematig o Ddigwyddiadau na Ddylai Byth Ddigwydd wedi nodi nifer o themâu sy'n codi dro ar ôl tro sy'n ymwneud â diogelwch llawfeddygol. Roedd tasglu diogelwch llawfeddygol yn cael ei drafod i roi nifer o welliannau ansawdd ar waith. Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch yr angen i fynd i'r afael â diwylliant llawfeddygol o fewn y cynlluniau gweithredu ymatebol. • Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cyfarwyddwr Gofal Acíwt am y cynlluniau gwella ar gyfer YGC. Y bwriad oedd datblygu cynllun gwella mwy trawsnewidiol. Roedd y Pwyllgor yn dal yn bryderus ynghylch faint o amser yr oedd wedi'i gymryd i gyrraedd y sefyllfa hon. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy strwythur Tîm Rheoli'r Ysbyty a'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch Cleifion corfforaethol gydag adroddiadau eithrio yn cael eu darparu i'r Pwyllgor.

Mynd i'r afael â Pharth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	• Iechyd Meddwl (oedolion a phlant) • Strategaeth, cynllunio a pherfformiad • Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant) • Ymgysylltiad (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim
Materion y mae angen eu huwchgysyfeirio i'r Bwrdd:	Dim
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	<i>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.</i> 1. Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol; 2. Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion; 3. Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a gofyn am eu barn; 4. Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu; a 5. Ystyried effaith ar bob nod llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o eitemau rheolaidd / sefydlog ynghyd â: • Y Cylch Gorchwyl i'w gymeradwyo. • Adroddiad Fferylliaeth a Rheolaeth Meddyginiaethau am y prif risgiau ar draws y Bwrdd Iechyd. • Adroddiad Adolygiad Allanol o Achosion Ysbyty Gwynedd a chynllun gweithredu. • Adroddiad Profiad y Claf a Gofalwyr mis Ebrill i fis Gorffennaf 2021. • Adolygiad o'r Gwasanaethau Wroleg ac Adroddiad Profiadau Cleifion. • Adroddiad Tair Blynedd Deddf Lefelau Staff Nyrsio. • Datganiad Blyneddol ar gyfer Cyfathrebu Hygyrch a Gwybodaeth i Bobl â Nam ar y Synhwyrâu. • Adroddiad ar Eithriadau Datblygu'r Gwasanaeth i Oedolion sy'n Gleifion Mewnol a Lleihau Risg Pwyntiau Clymu • Adroddiad Budd Cyhoeddus Terfynol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar driniaeth a gafodd claf gan y gwasanaeth colon a rhefr a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, a dderbyniwyd mewn sesiwn gyhoeddus.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	7.9.21

Bwrdd Iechyd
23.9.21



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau
Dyddiad y cyfarfod:	7 Medi 2021
Enw'r Cadeirydd:	Lucy Reid, Cadeirydd y Pwyllgor ac Aelod Annibynnol o'r Bwrdd
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Gill Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio / Dirprwy Brif Weithredwr
Crynodeb busnes drafodwyd:	Derbyniodd y Pwyllgor y canlynol: • Stori claf sy'n disgrifio profiad claf sydd â Covid Hir. • Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. • Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol gan gynnwys yr argymhelliad ar gyfer 4 risg ychwanegol. • Crynodeb o ddyfarniadau ansawdd a chydabyddiaethau ar draws y Bwrdd Iechyd. • Y Cylch Gorchwyl i'w gymeradwyo Bundle Quality, Safety & Experience Committee 7 September 2021 (nhs.wales). • Polisi Ymbelydredd Ioneiddio. • Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad. • Diweddariad y Grŵp Llywio Gwasanaethau Fasgwlaidd gan gynnwys y dull o ymateb i gam cyntaf adolygiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon o'r gwasanaeth. • Adroddiad Fferylliaeth a Rheolaeth Meddyginiaethau am y prif risgiau ar draws y Bwrdd Iechyd. • Adroddiad Diweddariad Covid-19 gan gynnwys yr ymateb i'r nifer achosion a'r cynnydd yn y cyfraddau trosglwyddo. • Adroddiad Adolygiad Allanol o Achosion Ysbyty Gwynedd a chynllun gweithredu. • Adroddiad Profiad y Claf a Gofalwyr mis Ebrill i fis Gorffennaf 2021. • Adolygiad o'r Gwasanaethau Wroleg ac Adroddiad Profiadau Cleifion. • Adroddiad Tair Blynedd Deddf Lefelau Staff Nyrsio. • Datganiad Blyneddol ar gyfer Cyfathrebu Hygyrch a Gwybodaeth i Bobl â Nam ar y Synhwyrâu. • Diweddariad ar lafar ar y pryderon ynghylch ansawdd yn Ysbyty Llandudno, gan gynnwys yr amserlenni disgwyledig ar gyfer cwblhau'r adolygiadau mewnol ac allanol. • Adroddiad ar Eithriadau Datblygu'r Gwasanaeth i Oedolion sy'n Gleifion Mewnol a Lleihau Risg Pwyntiau Clymu • Adroddiad Budd Cyhoeddus Terfynol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar driniaeth a gafodd claf gan

	y gwasanaeth colon a rhefr a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, a dderbyniwyd mewn sesiwn gyhoeddus. Derbyniwyd Adroddiad Budd Cyhoeddus Terfynol arall gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â gofal a ddarparwyd gan y gwasanaethau wroleg, mewn sesiwn breifat oherwydd ei fod dan embargo tan 9 Medi. Adroddiadau diweddarau gan Is-grwpiau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.
Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:	- Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r hyn a ddysgir wrth wrando ar gleifion a gofalwyr. Mae'r gwaith yn cynnwys recriwtio hyrwyddwyr cleifion a gofalwyr a gwella mynediad i'r rheini sydd â nam ar y synhwyrâu neu wedi colli eu synhwyrâu; - Cafodd y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu gwasanaeth ar gyfer cleifion sydd â Covid Hir ei ddisgrifio ar ôl clywed stori claf. Mae llwybrau'n cael eu datblygu i gefnogi'r rheini sydd â'r cyflwr hwn sy'n datblygu.
Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	- Disgrifiodd yr adroddiad Fferylliaeth a Rheolaeth Meddyginiaethau nifer o risgiau allweddol yn y maes hwn, gan gynnwys y pryderon am gamgymeriadau rhagnodi a gweinyddol staff asiantaeth, atal Siart Gweinyddu Meddyginiaethau Cymru Gyfan wrth ddisgwyl i system ragnodi a gweinyddu electronig gael ei datblygu, a'r diffyg cynnydd o ran presgripsiynau electronig mewn gofal sylfaenol. Cyfeiriodd y Pwyllgor at y diffyg cefnogaeth o ran rheoli meddyginiaethau i'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu oherwydd prinder adnoddau a godwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor. Fe'i codwyd hefyd yn adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am i hyn gael ei adolygu. - Roedd yr adolygiad allanol o achosion COVID-19 yn Ysbyty Gwynedd a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2021, wedi tynnu sylw at arferion da a nodwyd yn ogystal â nifer o feysydd i'w gwella. Roedd yr adroddiad yn pwysleisio'r angen am ddulliau cyfathrebu effeithiol ar draws safleoedd a'r risg o beidio â bod mor ofalus wrth i fesurau'r cyfyngiadau symud lacio ar draws y gymuned. Roedd yr adroddiad yn cynnwys ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion a'r cynlluniau i ddefnyddio'r Ymgyrch Gofal Diogel Glân i fynd i'r afael â'r rhain. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid defnyddio adnoddau Ffactorau Dynol Clinigol i gefnogi newid mewn ymddygiad tra bo staff dan bwysau. - Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am waith gwella'r Gwasanaethau Fasgwlaidd. Nododd na ellid rhoi sicrwydd ar hyn o bryd oherwydd yr angen i adolygu'r cynllun gweithredu a'r mesurau lliniaru sydd ar waith. Mae Grŵp Goruchwylio Gwasanaethau Fasgwlaidd wedi cael ei ffurfio dan arweiniad y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol newydd. Mae'r gwasanaeth yn aros hefyd am ail ran adroddiad y Coleg Brenhinol yn dilyn adolygiad o nodiadau achos ac mae'n rhagweld y bydd rhagor o gamau gweithredu.

	- Yn dilyn pryderon a godwyd gan nifer o bartion, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar wasanaethau Wroleg a ddarparwyd ar draws y Bwrdd Iechyd. Gan nad oedd digon o sicrwydd ar sail tystiolaeth ynghylch ansawdd gwasanaethau wroleg, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gefnogi'r argymhellion a wnaed y dylid comisiynu'r Coleg Brenhinol i gynnal adolygiad. Yn ogystal â hyn, cynhelir asesiad 'Getting It Right First Time' ar wahân, a defnyddir y canlyniadau i wella'r gwasanaeth yn y cyfamser. - Derbyniwyd Adroddiad Budd Cyhoeddus Terfynol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ymchwiliad a gynhaliwyd gan yr Ombwdsmon yn breifat oherwydd amseriad embargo ar gyhoeddiad. Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â gofal claf gan y gwasanaeth wroleg ac mae'n cynnwys pryderon a godwyd yn flaenorol ac nad ydynt wedi cael sylw llawn. - Cafwyd adroddiad eithriadau gan yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar y cynnydd i leihau risg digwyddiadau gyda deunydd clymu yn yr Uwch-adran. Dechreuodd y gwaith ym mis Medi 2020 ond bu dau ddigwyddiad trychinebus annisgwyl i gleifion mewnol yn ymwneud â phwyntiau clymu yn yr Uwch-adran yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys dull cyfannol o leihau risg, gan gynnwys y pwyntiau angori/clymu uchel ac isel sydd ar draws stad y Bwrdd Iechyd, gan roi sylw i'r amgylchedd cymorth therapiwtig ac emosiynol. Roedd gwaith blaenorol i leihau risg wedi canolbwyntio ar gyfleoedd i grogi o fannau uchel. Mae'r adolygiad allanol o'r digwyddiad trychinebus diweddaraf bron â chael ei gwblhau, a bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cwblhau'r cynllun gweithredu.
Mynd i'r afael â Pharth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	- Iechyd Meddwl (oedolion a phlant) - Strategaeth, cynllunio a pherfformiad - Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant) - Ymgysylltiad (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Mae'r Pwyllgor wedi codi'r angen i ystyried cysondeb y sgorio ar gyfer Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i sicrhau bod y sgorio'n briodol. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â'r effaith ar y gwasanaeth, pe bai'r risg yn cael ei gwireddu. Argymhellir bod hyn yn cael ei godi gyda'r Pwyllgor Archwilio er mwyn gallu ystyried holl Risgiau Corfforaethol a risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ei gyfanrwydd.
Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	Hoffai'r Pwyllgor i'r Bwrdd nodi bod angen i'r Bwrdd Iechyd ddangos yn glir yr hyn a ddysgwyd gan ddefnyddio dull sicrwydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cyd-fynd â risg. Trafodwyd hyn yng ngweithdy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau a gynhaliwyd ym mis Awst, a gwnaed argymhelliad i'r Bwrdd ystyried trafodaethau manwl ar ansawdd a diogelwch mewn gweithdai yn y dyfodol.
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan	<i>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.</i> <i>Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol;</i> <i>Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion;</i>

Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	3. Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a gofyn am eu barn; 4. Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu; a 5. Ystyried effaith ar bob nod llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o eitemau rheolaidd / sefydlog ynghyd â: • Strategaeth Gwella Ansawdd • Y wybodaeth ddiweddaraf am fod yn barod ar gyfer mesurau diogelu i amddiffyn rhyddid • Adroddiad staff nyrsio ar Wardiau Cleifion Mewnol Pediatrig • Dadansoddiad thematig o wasanaethau seicolegol gan MHLDD • Y diweddaraf am wasanaethau plant • Adroddiad blynyddol ar y fflw / imiwneiddio • Adroddiad blynyddol ar ddiogelu rhag ymbelydredd • Adroddiad blynyddol ar roi organau a meinweoedd • Adroddiad blynyddol Cronfa Risg Cymru • Llythyr blynyddol yr Ombwdsmon
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	2.11.21

Bwrdd Iechyd 23.9.21	 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
-------------------------	---

Gwella Iechyd a Darparu Gofal Rhagorol

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
Dyddiad y cyfarfod:	26.8.21
Enw'r Cadeirydd:	John Cunliffe
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:	Camau Gweithredu'r Cadeirydd - Adnewyddu contract ar gyfer Gwasanaeth sganio PET-CT symudol yng Ngogledd Cymru tra arhosir i adnodd parhaol gael ei gymeradwyo a'i gyflwyno - Cais i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo dyfarniad y contract ar gyfer darparu Gwasanaethau Gofal Cynlluniedig Allanol – Orthopedeg Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd - Nodwyd cynnydd yn erbyn Prif Risgiau ynghyd ag eglurhad bod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r ffordd y mae risgiau'n cael eu cynnwys o fewn y sefydliad Cynllun Blynyddol 2021-22 - Adolygodd y Pwyllgor y cynnydd yn erbyn Cynllun Blynyddol 2021-22 gan gynnwys 16 o gamau gweithredu Coch. Nodwyd tair thema'n gysylltiedig â'r rhain, sef recriwtio/argaeledd staff, llithriad cyffredinol mewn rhaglenni a materion yn ymwneud â dilyniant achosion busnes a oedd yn cael sylw trwy amryw o gamau gweithredu. Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad - Nodwyd rhai gwelliannau perfformiad e.e. Gwasanaethau cancer a llwyddiannau gyda chyfraddau brechu. - Fodd bynnag, roedd sefyllfa rhestrau aros yn gwaethygu, yn ogystal â diagnosteg, gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu a oedd yn cael sylw. Roedd y cynllun Gwella ar ôl Strôc a oedd wedi'i ohirio am 3 mis yn ôl ar y trywydd iawn. Roedd Recriwtio a Chadw staff yn destun pryder yn ogystal â lles a throsiant staff. - Roedd y Tîm Perfformiad yn gweithio ar wella'r ddarpariaeth o'r holl setiau data.

Gofal wedi'i Gynllunio

- Derbyniwyd adroddiad diweddarau ac fe'i nodwyd. Yn benodol, trafodaeth ddyddiol gyda Llywodraeth Cymru i symud ymlaen y gwaith o ddatblygu'r Canolfannau Triniaeth Rhanbarthol (y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel Canolfannau Triniaeth Diagnostig). Nodwyd bod datrysiad ar gyfer gwasanaeth Orthopedig Allanol yn mynd rhagddo ac y gellid ei gwblhau o fewn wythnosau. Er bod ymyriadau dewisol wedi'u hailgyflwyno ar bob safle, roedd pwysau yn yr adran achosion brys yn uchel. Roedd argaeledd yr Uned Gofal Dwys wedi cael ei effeithio.

Gofal Heb ei Drefnu

- Derbyniwyd adroddiad a nodwyd cynnydd ar y rhaglen Gwella Gofal Brys ac Argyfwng. Nodwyd bod mwy o gleifion oedd angen gofal dwys a mwy o gleifion yn cerdded i mewn yn mynychu. Er bod y gwasanaeth dan bwysau roedd y rhaglen yn symud ymlaen drwy weithdai thematig a datblygu metrigau. Cydnabuwyd y byddai angen cefnogi arferion diwylliannol a gweithio staff ar raddfa eang, ynghyd â morâl.

Diweddariad Trawsnewid

- Derbyniwyd adroddiad a diweddariad am uwch swyddi a recriwtiwyd ac sy'n dechrau o fewn 3 wythnos. Nodwyd bod recriwtio a chadw staff yn faes y rhoddir blaenoriaeth uchel iddo.

Rhaglen Gyfalaf

- Derbyniwyd yr adroddiad, gan nodi bod buddsoddiad cyfalaf pellach o bosibl ar gael gan Lywodraeth Cymru. Roedd angen cyflwyno ceisiadau mewn amser byr ac roedden nhw'n canolbwyntio'n bennaf ar gynlluniau y gellir eu cyflawni'n gyflym.

Strategaeth Ariannol – egwyddorion drafft

- Nodwyd yr adroddiad.

Adroddiad Cyllid

- Derbyniwyd adroddiadau ar gyfer Misoedd 3 a 4. Rhagwelwyd sefyllfa gytbwys.

Adroddiad arbedion

- Nodwyd yr adroddiad. Tynnwyd sylw at amrywiad amlwg rhwng safleoedd Ardal ac Aciwt a oedd yn gofyn am fwy o gymorth i'r olaf. Rhagwelwyd y sefyllfa o ran cyflawni, fodd bynnag roedd pryder ynghylch y modd y gellir ei gyflawni'n rheolaidd.

Adroddiad chwarterol y gweithlu

- Nodwyd yr adroddiad, gan gynnwys diweddariadau ynghylch gwaith adolygu Kendal Bluck. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y

	diweddariad Recriwtio yn ddefnyddiol. Cafwyd trafodaeth ar effaith polisi ynysu Covid19 ar y sefydliad. Ceisiadau a Gymeradwywyd • Cymeradwyodd y Pwyllgor: • Cyflwyno cynnig i'r Bwrdd Iechyd i symud o Welâu Preswyl i fodel gwasanaeth a reolir. • Cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd Achos Busnes System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru • Cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd Achos Busnes Amlinellol Uned Iechyd Meddwl Oedolion a Phobl Hŷn yn Ysbyty Glan Clwyd • Gweithredu Gwasanaeth Awdioleg Gofal Sylfaenol ar draws Gogledd Cymru • Cyllid i barhau i brynu i mewn y gwasanaethau endosgopi ar draws y 3 safle aciwt rhwng mis Awst 2021 a Rhagfyr 2021 i gynnal capasiti, mynd i'r afael â'r galw cynyddol, lleihau'r rhestrau wrth gefn a sicrhau gwasanaethau clinigol diogel i gleifion. • F02 Polisi a Gweithdrefn Prydlesu Car Adroddwyd y canlynol ac fe'u nodwyd er gwybodaeth: • Adroddiad Contractau Allanol • Adroddiad monitro misol • Traciwr Achos Busnes Mewn sesiwn breifat cymeradwyodd y Pwyllgor amrywiaeth o geisiadau cytundebol a thendro a oedd yn cynnwys • Cynigwyr a ffafrir ar gyfer Fframweithiau Contractwyr BIPBC. • Contract gwasanaethau meddygon teulu yng Ngharchar y Berwyn • Darparu Contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ac Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru ym Mangor • Prydles ar gyfer safle i'r Gwasanaeth Rheoli Pwysau • Prydles ar gyfer gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd
Sicrwydd allweddol a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:	• Deallwyd bod y dyfarniad cyflog staff yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. • Rhagwelwyd y byddai BIPBC yn sicrhau sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn • Rhagwelwyd y byddai BIPBC yn cyflawni'r arbedion angenrheidiol sydd eu hangen
Risgiau allweddol gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	• Amlygwyd bod recriwtio, cadw staff a lles staff yn destun pryder a deallwyd bod cynlluniau'n cael eu datblygu i wella'r rhain ynghyd â mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn arfarniadau (PADRs) sy'n cael eu cynnal. • Byddai cynlluniau Gofal Cynlluniedig yn cael eu hail-lunio erbyn 13 Medi pe bai'r bwlch yn cynyddu er mwyn lliniaru risgiau. • Deallwyd bod y Tîm Gweithredol yn trafod yr oedi o ran Llawdriniaethau Robotig i Ysbyty Gwynedd.

	- Nodwyd bod nifer uchel o gleifion sy'n addas i'w rhyddhau o safbwynt meddygol mewn gwelyau ysbyty. Roedd y Prif Weithredwr yn arwain cynlluniau i ddatrys y problemau gyda sefydliadau partner. - Byddai i weithdy'r Bwrdd gynnal trafodaeth ar gynlluniau symud (gwasanaethau) sylweddol Maelor Wrecsam oherwydd nifer y gwelyau yr effeithir arnynt o bosibl.
Maes Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'i Dargedu wedi cael sylw	- Strategaeth, cynllunio a pherfformiad - Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant)
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim
Materion y mae angen eu cyfeirio i sylw i'r Bwrdd:	Dim
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth briodol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.
Busnes wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Dyma gyfarfod olaf y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ar 28.10.21

Bwrdd Iechyd

23 Medi 2021



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
Dyddiadau cyfarfodydd:	22.7.21 a 17.8.21 (eithriadol, preifat)
Enw'r Cadeirydd:	Mark Polin
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:	Ystyriodd y Pwyllgor y materion canlynol: • Adroddiad Blynyddol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar Gofrestru, Ail-ddilysu ac Addasrwydd i Ymarfer – cytunwyd ar drefniadau adrodd manylach • Diweddariad Ail-ddilysu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol 2020 – nodwyd bod y Bwrdd yn cydymffurfio'n dda o ran arfarnu: 99.5% ar gyfer gofal eilaidd a 100% ar gyfer gofal sylfaenol • Gwybodaeth ddiweddaraf am bolisi Cymru gyfan: - Polisi newydd ynghylch Parch a Datrys (Cymru gyfan) i ddisodli'r Polisi Cwynion a'r Polisi Urddas yn y Gweithle (Cymru gyfan); - Canllawiau Cod Gwisg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (diwygiedig); - Gweithdrefn Codi Pryderon Cymru Gyfan ar gyfer Staff y GIG (i ymgorffori <i>Codi Llais yn Ddiogel</i>). Eitemau a ystyriwyd yn breifat ar 22.7.21: • Adroddiad ar Gynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru (UPSW) • Adroddiad Rheoliadau'r GIG (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 • Adroddiad Diweddarau Rheoli Achosion Safonau Proffesiynol – rhifau achos hirdymor • Adroddiad Achosion Disgyblu Tribiwnlys Cyflogaeth a Phroffil Uchel • Adroddiad Diogelu Cyflog • Diweddariad Rheolwr Interim yr Uwch-Asiantaeth • Diweddariad am <i>Codi Llais yn Ddiogel</i> • Penodiadau a Newidiadau gan y Cyfarwyddwr Gweithredol • Adolygiad Perfformiad a Datblygiad – Cyfarwyddwyr Gweithredol • Adroddiad Meddyg Teulu y tu allan i oriau ac ar 17.8.21:

	Newidiadau i rolau gweithredol.
Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:	Mae prosesau llywodraethu priodol yn cael eu dilyn a'u gwella lle bo angen.
Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	Roedd y risgiau a'r mesurau lliniaru posibl yn rhan o'r trafodaethau yn breifat.
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim
Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	Dim.
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	<i>Cydbwyso angen tymor byr a chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol - ystyried prosesau'r dyfodol</i> <i>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni amcanion – gweithio gyda phartneriaid undebau llafur</i> <i>Cynnwys y rheini sydd â diddordeb a cheisio eu barn – drwy ymgynghori â phartneriaid undebau llafur ac ymgysylltu â chydweithwyr</i> <i>Neilltuo adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu – cynlluniau i wella prosesau rheoli</i> <i>Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill – nodwyd.</i>
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Ystod o eitemau sefydlog ynghyd ag adroddiad interim <i>Codi Llais yn Ddiogel</i> , adroddiadau blynyddol y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol,
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	01.10.21.

Bwrdd Iechyd 23.9.21	 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board <i>Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol</i>
Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor	

Enw'r Pwyllgor:	Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth
Dyddiad y cyfarfod:	12.8.21
Enw'r Cadeirydd:	Lyn Meadows
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Mark Wilkinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad
Crynodeb busnes drafodwyd:	o'r a Nodwyd: - cynnydd yr adroddiad monitro gweithredol am 30.6.21 - cynnydd datblygiad Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd Gogledd Cymru - adroddiad monitro blynyddol ar y Gymraeg 2020/21 - y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Anableddau Dysgu - adroddiad y Gronfa Trawsnewid Iechyd Meddwl - diweddariad blynyddol Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau - cyfarfod diwethaf Bwrdd Rhaglen Ranbarthol Gogledd Cymru - adroddiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd - diweddariad ar ymgysylltu a oedd yn cynnwys cynnydd ar yr adolygiad o'r strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach - cynnydd y Grŵp Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau a chynllun gwaith tîm iechyd y cyhoedd BIPBC 2021/22 - adroddiad Profi Olrhain a Diogelu - y wybodaeth ddiweddaraf am Iechyd Corfforaethol yn y Gwaith, ac adolygydd y prif risgiau sydd wedi'u neilltuo i'r Pwyllgor yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:	- Roedd yr adroddiad blynyddol ar y Gymraeg yn mynd ati'n frwd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg trwy ennill calonnau, a gafodd ei ganmol mewn cyfnod heriol o ddarparu gofal iechyd. - Cadarnhawyd bod ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd Gogledd Cymru yn cael ei datblygu ar y cyd â Phrifysgol Bangor a phrifysgolion eraill
Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	- Pwysleisiodd Cadeirydd y Pwyllgor fod recriwtio yn fater cyffredinol ar draws y Bwrdd, ac roedd llawer o'r adroddiadau a drafodwyd wedi tynnu sylw at hyn. - Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at yr uchelgais i roi sylw i Ofal wedi'i Gynllunio a risg, gan bwysleisio na ddylai camau

	gweithredu fel ymgysylltu â darparwyr allanol i fynd i'r afael â materion o'r fath gael eu hystyried yn fethiant, gan fod heriau wrth gyflawni ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau cyflymder, byddai angen i'r Cadeirydd gymryd camau rhwng cyfarfodydd fel y tendr diweddar ar gyfer rhoi gwasanaethau Orthopedeg ar gontract allanol. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd cnoi cil ar effaith eithriadol Covid19 ar y system gofal iechyd gyfan. • Byddai cyfathrebu ynghylch cael gafael ar Ofal Sylfaenol yn rhan o'r dull gweithredu strategol sy'n cael ei ddatblygu dros y 12 mis nesaf i wella dealltwriaeth cleifion o'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu â chanolfannau Gofal Sylfaenol.
Mynd i'r afael â Pharth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	• Iechyd Meddwl (oedolion a phlant) • Strategaeth, cynllunio a pherfformiad • Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant) • Ymrwymiad (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim
Materion y mae angen eu huwchgysyfeirio i'r Bwrdd:	Dim
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy canlynol: 1. Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr sy'n gwaethygu a chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol; 2. Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion; 3. Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a gofyn am eu barn; 4. Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu; ac 5. Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill.
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Dyma gyfarfod olaf y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth ar 14.10.21

Bwrdd Iechyd 23 Medi 2021	 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board <i>To improve health and provide excellent care</i>
Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cyngori	

Enw'r Grŵp Cyngori:	Fforwm Partneriaeth Lleol
----------------------------	---------------------------

Dyddiad y cyfarfod	26 Gorffennaf 2021
---------------------------	--------------------

Enw'r Cadeirydd:	Ms Jan Tomlinson
-------------------------	------------------

Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Mrs Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
------------------------------	--

Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd:	• Safonau'r Gymraeg. Cafwyd diweddariad gan Meilyr Emrys, o Dîm Gwasanaethau'r Gymraeg ar y Gweithlu a'i safonau gweithredol a adolygwyd ddiwethaf yn 2019 a nododd rai mân newidiadau. Mynegodd Sue Green bryderon ynglŷn ag oedi cyn gosod hysbysebion oherwydd yr amser a gymerai i gyfieithu manylion am swyddi gwag. Roedd Mr Emrys yn teimlo bod gwaith i'w wneud i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r polisi sydd newydd ei ddiweddarau ymhlith staff. • Ymyriad wedi'u dargedu. Cafwyd diweddariad llafar gan Jo Whitehead, a oedd yn rhoi manylion i'r Aelodau am y pedwar parth a nodwyd fel rhai sydd angen eu gwella – Iechyd Meddwl pob Oed, Ymgysylltu, Arweinyddiaeth a Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad, a sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflawni hyn. • Adroddiad Blynyddol a Chwarter 4 Rheoli Iechyd a Diogelwch 2020/21. Cyflwynodd Peter Bohan yr adroddiad, gan nodi rhai meysydd ynddo sy'n achos pryder – diogelwch trydanol, legionella ac asbestos. Disgrifiodd y gwaith sy'n cael ei wneud a'r cynlluniau sydd ar waith i fynd i'r afael â'r problemau. Hoffai Jan Tomlinson nodi fod y cyfarfodydd wythnosol rhwng y Tîm Iechyd a Diogelwch a'r undebau llafur, a gychwynnodd yn ystod y pandemig, wedi bod yn llwyddiannus iawn. Roedd Sue Green yn awyddus i nodi fod y cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, lle cafodd yr adroddiad ei adolygu, wedi datgan diolchgarwch unfrydol am ansawdd y gwaith a wnaed gan y Tîm mewn partneriaeth â'r undebau llafur. Cafwyd ymholiadau ynghylch 'system rybuddio diogelwch gan yr unigolyn', y posibilrwydd o ddarparu cymorth ychwanegol i staff sydd angen cynnig hylif diheintio dwylo a chyfarpar diogelu personol uwch, diogelwch
---	---

	uwch i staff rheng flaen wrth fynedfeydd ysbytai a phroblemau cyflenwi posibl yn achos mygydau ansawdd uwch. • Mewn Undod mae North - Stronger Together. Cafwyd diweddariad ar gynnydd gan Michael Shaw (Ymgynghorydd Datblygu Sefydliadol Strategol) ar y gwaith a wnaed hyd yma ynghyd â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd â Chyfathrebu i helpu i fanteisio ar y cyfle am ymgysylltiad cynhwysol. • Adroddiad Cyllid. Cyflwynodd Sue Hill yr Adroddiad Cyllid 2 Fis, a oedd yn datgan bod Cynllun Pandemig Covid Llywodraeth Cymru wedi bod yn help mawr o ran effaith Covid ar y Bwrdd Iechyd. Roedd Jackie Hughes (Cymdeithas y Radiograffyddion (Undeb Llafur) Aelod Annibynnol) yn awyddus i nodi bod diwyg newydd yr adroddiad yn welliant mawr a'i fod yn gwneud y ffigurau'n haws i'w deall a'u darllen. • Diweddariad ar Gynllunio Corfforaethol. Cafwyd cyflwyniad gan John Darlington (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad) a disgrifiodd yn fanwl sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu mynd ati i gyflawni'r trawsnewid. • Glanhau'n Ddiogel Heb Niwed. Cafwyd diweddariad llafar gan Debra Hickman ar y cynnydd hyd yma. Y tri phrif ffrwd waith yw gweithredu diogel, man diogel a gofod diogel. Disgrifiodd Ms Hickman beth o'r gwaith arloesol sy'n cael ei wneud gan ei thîm a chydweithwyr clinigol i greu fframwaith ar gyfer arferion gorau ym mhob adran, i leihau trosglwyddo heintiau. Mae un darn o waith, sy'n edrych ar heintiadau sy'n cael eu trosglwyddo gan gleifion sy'n crwydro, yn cael ei ysgrifennu fel papur ac mae wedi'i gyflwyno fel un o Esiamplau Bevan. • Adroddiad Gweithlu. Cafwyd y diweddariad gan Lesley Hall. Tynnodd sylw at y pecyn hyfforddiant sy'n cael ei gyflwyno ar draws y sefydliad yn gysylltiedig â'r Polisi Parch a Datrys a sut mae'n annog staff i wneud cwynion ar y lefel isaf bosibl yn y gobaith y bydd hynny'n eu hatal rhag datblygu i fod yn gwynion ffurfiol. Nodwyd fod newidiadau sefydliadol yn parhau i sicrhau nid yn unig bod yr holl ddogfennau wedi'u geirio'n briodol ond hefyd bod cydweithwyr yn yr undebau llafur yn cael eu gweld cyn i staff ddod ag ymholiadau atynt. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr Adran Gweithlu yn ymwybodol bod nifer y swyddi sydd angen eu gwerthuso wedi cynyddu fymryn ond roedd gwaith yn cael ei wneud i gywiro hyn. Cydnabu Ms Hall hefyd fod teimlad ers peth amser fod angen symleiddio rhai polisiau a disgrifiodd y darn o waith sy'n cael ei wneud i hwyluso hyn ac i ddatblygu dogfennaeth well, fwy cefnogol. Trafododd Sue Green ymgyrch recriwtio gyfredol y Bwrdd Iechyd a nododd hefyd ei bod yn y broses o ddrafftio dogfen gomisiynu i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gael rhywun i adolygu polisiau recriwtio'r Adran Gweithlu. Trafodwyd problemau recriwtio yn yr Adran Fferylliaeth, gyda Sue Murphy (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaeth, Gorllewin) yn cadarnhau ei bod yn ysgrifennu papur gyda'r nod o leddfu'r problemau recriwtio difrifol.
--	--

- **Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020-21.** Cyflwynodd Sally Thomas (Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol) ei hadroddiad, a oedd yn cofnodi'r cynnydd yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd. Nododd fod Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol wedi dod i rym eleni. Roedd yr undebau llafur yn dymuno tynnu sylw at y gwaith eithriadol a wnaed gan Nick Such.
- **Diweddariad Llafar gan Ysgrifenyddiaeth Partneriaid yr Undebau Llafur:** Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â pharhau â chyfarfodydd rhithiol, pan fydd y pandemig drosodd. Cadarnhaodd Sue Green, fel y nodwyd yn y papur Rhaglen Gweithio Diogel ac Ystwyth a fydd yn cael ei gyflwyno i gael cymeradwyaeth y Tîm Gweithredol ar yr wythnos yn dechrau 2/8/21, y gobaith oedd y bydd y sefydliad yn dal i allu parhau i ymgysylltu â chydweithwyr yn yr undebau llafur a staff, drwy'r Bwrdd Iechyd cyfan, i chwilio am ffordd sy'n gweithio. Bydd gweithdy'n cael ei drefnu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nodwyd y pwysau sydd i'w teimlo ar draws y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd gan Jo Whitehead a hoffai ddiolch i'w holl gydweithwyr am eu cefnogaeth. Hysbyswyd yr aelodau gan Jo Whitehead fod y sefydliad yn bwrw golwg frys ar ymatebolrwydd ac argaeledd gofal cymdeithasol, gyda 45 allan o 51 o gartrefi gofal ddim yn derbyn cleifion sy'n cael eu rhyddhau gyda 200+ o gleifion sy'n cael eu cyfrif yn ddigon iach yn feddygol i gael eu rhyddhau yn y safleoedd aciwt. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd am ymateb brys ar sut mae'n bwriadu lleddfu'r pwysau ar y system.

Cafwyd trafodaeth ar y defnydd cynyddol o recordio cyfarfodydd. Nid oedd Sue Green yn ymwybodol o'r broblem a chytunodd i gysylltu â rheolwyr i gadarnhau pa bryd y gellir ac na ellir recordio cyfarfodydd.

Cafwyd trafodaeth ar ba mor hyd y gallai staff barhau ar gyflog llawn os oeddent yn dioddef o 'covid hir'. Cadarnhaodd Jan Tomlinson fod hyn yn cael ei drafod a chytunodd y byddai'n diweddarau Aelodau cyn gynted ag y byddai ganddi wybodaeth.

Gofynnwyd pa mor hyderus oedd y Bwrdd y byddai ganddo'r nifer cywir o staff nyrsio i gyflawni'r lefelau staffio diogel sydd eu hangen. Cadarnhawyd fod Gill Harris, Debra Hickman ac Alison Griffiths ar hyn o bryd yn gweithio ar y rhagolygon. Roedd Sue Green yn hyderus bod cyflenwad digonol o nyrsys newydd gymhwyso a nyrsys wedi'u recriwtio'n rhyngwladol ac y byddai gan Adnoddau Dynol, drwy weithio ochr yn ochr â chydweithwyr nyrsio, ymgyrch gref i recriwtio nyrsys ond bod cadw staff yr un mor bwysig. Nododd partneriaid yn yr undebau llafur y byddai cynyddu'r codiad cyflog o 3% a oedd wedi'i addo yn helpu i

	gadw staff ac roedd yn gobeithio y byddai'r Bwrdd lechyd yn cefnogi hyn. Nodwyd yr adroddiadau canlynol – Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad 2020–21, Y Fframwaith Risg Gorfforaethol a Sicrwydd a'r Grŵp Strategol lechyd Galwedigaethol a Diogelwch
Cyngor / adborth allweddol i'r Bwrdd:	- Roedd yr Aelodau'n falch bod y sefydliad allan o Fesurau Arbennig ac roeddent yn falch iawn o glywed am y gwaith a oedd wedi'i wneud eisoes o ganlyniad i'r rhaglen Ymyriad wedi'i Dargedu - Cynigiwyd cymorth i'r Tîm Cyfieithu i'w helpu i ddatrys y problemau sy'n codi oherwydd oedi wrth gyfieithu manylion am swyddi gwag. - Nodwyd fod y cyfarfodydd wythnosol rhwng undebau llafur a'r Tîm lechyd a Diogelwch wedi bod yn llwyddiannus iawn - Mae gwaith da, arloesol yn cael ei wneud yn y rhaglen Glanhau Diogel Heb Niwed - Mynegwyd pryderon gan yr Adran Fferylliaeth am eu problemau penodol yn gysylltiedig â recriwtio - Mynegwyd pryder ynglŷn â'r defnydd cynyddol o recordio cyfarfodydd
Busnes wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o adroddiadau safonol ynghyd â: - Diweddariad llafar ar Ymyriad wedi'i Dargedu gan Jo Whitehead - Gweithdy i drafod parhad cyfarfodydd rhithiol a sut i sicrhau cyfarfodydd wyneb yn wyneb diogel os bydd eu hangen - Covid-19. Taith hir. Cyflwyniad gan Cemlyn Roberts. - Loteri Staff. Cyflwyniad gan Sue Hill - Diweddariad gan Ysgrifenyddiaeth Partneriaid yr Undebau Llafur - Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	Dydd Mawrth 12 Hydref 2021

Datgeliad:

Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw enw gweithredol Bwrdd lechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd 23 Medi 2021						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Mrs Kamala Williams. Cyfarwyddwr Perfformiad Dros Dro Mr Edward Williams, Pennaeth Asiwriant Perfformiad						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Mae'r data a'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi cael eu craffu gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, 28ain Awst 2021 a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, 7fed Medi 2021. & Experience Committee on the 7th September 2021						
Atodiadau Appendices:	1. Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad 31.7.21						
Argymhelliad / Recommendation:							
G ofynnir i'r Bwrdd Iechyd graffu ar yr adroddiad.							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer Trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance		Er gwybodaeth For Information	
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	
Sefyllfa / Situation:							
Dros y 12 mis diwethaf, mae'r gyfradd gronns o achosion bacteraemia a gadarnhawyd gan labordy fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu ar lefel Cymru gyfan. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn BCUBH, sydd wedi gweld gwelliant yng nghyfraddau EColi, S.aureus bacteraemia a C Difficile fesul 100,000 o'r boblogaeth dros yr un cyfnod. Mae'r timau atal a rheoli heintiau yn parhau i weithio ar leihau nifer yr heintiau ochr yn ochr â'u gwaith ar COVID-19 Mae'r pwysau ar y system gofal heb ei drefnu yn parhau a gostyngodd perfformiad yn ein Hadrannau Brys ym mis Gorffennaf i 67.02% o gleifion a welwyd o fewn 4 awr o gymharu â 67.32% ym mis Mehefin. Mae nifer y cleifion sy'n aros dros 12 Awr yn ein Hadrannau Brys yn parhau i gynyddu yn, 2,383 ym mis Gorffennaf 2021, o gymharu â 2,079 ym mis Mehefin 2021. Mae nifer y cleifion sy'n profi oedi wrth drosglwyddo ambiwlans o awr neu fwy hefyd yn parhau i gynyddu ar 1,602 ym mis Gorffennaf 2021 o'i gymharu i 1,222 ym mis Mehefin 2021. Roedd perfformiad yn erbyn y mesurau gofal strôc yn statig ym mis Gorffennaf gyda 28% o gleifion yn cael eu derbyn i Uned Asesu Strôc o fewn 4 Awr o gymharu â 27% ym mis Mehefin 2021 (yn erbyn							

targed o 59%). Gostyngodd cyfradd y cleifion a adolygwyd gan Ymgynghorydd Strôc o fewn 24 awr ar 74% ym mis Gorffennaf 2021, (yn erbyn targed o 85%) o'i gymharu ag 82% ym mis Mehefin 2021.

Mae Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) yn disodli Oedi mwen Trosglwyddo Gofal (DToC) fel methodoleg a mesur i reoli a gwella trosglwyddiadau gohiriedig.

Fel yng ngweddill y DU, mae'r aflonyddwch a achosir gan COVID-19 yn parhau i gael effaith ddifrifol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio ar y cyfraddau cyn-COVID-19 gan arwain at amseroedd aros uwch. Ym mis Gorffennaf 2021, cynyddodd nifer y bobl a oedd yn aros dros 36 wythnos ar 54,265 o gymharu â 53,024 ym mis Mehefin. Cododd nifer y cleifion a oedd yn aros dros 52 wythnos hefyd ym mis Gorffennaf ar 41,317 o'i gymharu â 41,130 ym mis Mehefin 2021.

Cododd nifer y cleifion a oedd yn aros dros 8 wythnos am brofion diagnostig ar 7,138, a'r nifer a oedd yn aros am therapi, 1,335 am y tro cyntaf mewn sawl mis ym mis Gorffennaf 2021 o'i gymharu â 6,028 a 1,019 yn y drefn honno ym mis Mehefin 2021.

Ar gyfer Mehefin 2021, yn erbyn targed o 75%, cychwynnodd 72.9% o gleifion driniaeth cyn pen 62 diwrnod o amheuaeth. Er ei fod yn is na'r gyfradd darged, mae BCU yn parhau i fod yn un o'r Byrddau Iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran y Llwybr Canser yr Amheuir.

Yn 183,065, cododd cyfanswm y cleifion a oedd yn aros ar y rhestr aros 'Dilynol' am yr ail fis ym mis Gorffennaf 2021. Cododd nifer y cleifion hynny sy'n fwy na 100% yn hwyr ar eu dyddiad dilynol hefyd ar 54,265 ar y diwedd o Orffennaf 2021.

Mae perfformiad yn erbyn y mesur gofal llygaid wedi aros yn gymharol sefydlog ar 43.85% ym mis Gorffennaf 2021 o'i gymharu â 44.23% ym mis Mehefin 2021.

Ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) mae perfformiad yn parhau i fod yn wael yn erbyn y targedau ar gyfer Mehefin 2021, cyfradd y plant a aseswyd cyn pen 28 diwrnod ar ôl eu cyfeirio, sef 26.80%, (Targed o 80%) a dechrau therapi cyn pen 28 diwrnod ar ôl yr asesiad yn 18.50% (Targed o 80%).

Er ei fod wedi'i wella, mae Perfformiad yn erbyn y targed 26 Wythnos neu blant sy'n aros am asesiad niwroddatblygiad yn parhau i fod yn wael ar 32.79%, o'i gymharu â 26.84% a adroddwyd yn flaenorol. Disgwylir y bydd cynlluniau a gymeradwywyd yn ddiweddar yn galluogi cynnydd yn y gallu i weld 120 o blant y mis a bydd hyn yn trosi i berfformiad gwell.

Ar gyfer perfformiad gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ar gyfer Mehefin 2021, mae 63% o oedolion a aseswyd cyn pen 28 diwrnod ar ôl eu cyfeirio, yn dangos yr heriau parhaus wrth gyflawni yn erbyn y gyfradd darged o 80%. Fodd bynnag, mae nifer y cleifion sy'n dechrau therapi o fewn 28 diwrnod i'r asesiad yn parhau i fod yn uwch na'r targed o 80%, sef 82.40%.

Bu gwelliant cyson a sylweddol yn y gyfradd ganrannol o oedolion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol ac ar 84.62% ym mis Gorffennaf 2021 mae am y tro cyntaf wedi rhagori ar y gyfradd darged o 80%. Mae hwn yn welliant sylweddol a pharhaus o isel o 20.1% ym mis Medi 2020.

Er bod Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) wedi disodli Trosglwyddiadau Gofal Gohiriedig (DToC) fel mesur mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl, mae DToC yn parhau i fod yn fesur priodol o fewn gwasanaethau Iechyd Meddwl. Mae nifer y cleifion sy'n profi oedi wrth drosglwyddo gofal (DToC) yn

ein hiechyd meddwl wedi cynyddu rhywfaint ar 16 ym mis Gorffennaf 2021 (o'i gymharu â 15 ym mis Mai 2021), mae hyd yr arosiadau hefyd wedi cynyddu ychydig i 580 (o'i gymharu â 565 ym mis Mai 2021). Mae'r gwasanaeth yn gweithio i ddatrys materion sy'n arwain at DToC a disgwylir y bydd nifer a hyd DToC's yn gostwng dros y misoedd nesaf.

Mae'r duedd ar gyfer cyfradd salwch staff dros y 6 mis diwethaf (Ionawr - Mehefin) wedi bod yn un o welliannau. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd i 5.34% ym mis Gorffennaf ond mae'n parhau i fod yn is nag ar yr un cyfnod yn 2020. Cynyddodd salwch cysylltiedig â COVID-19 hefyd ychydig i 0.4% (o 0.3% ym mis Mehefin 2021).

Mae cyfraddau PADR wedi gostwng yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf i 69.4% wedi'u cwblhau erbyn diwedd Gorffennaf 2021.

Mae Marwolaethau Amrwd (o dan 75 oed) wedi gostwng i 0.96%. Mae'r gyfradd marwolaethau ar gyfer BCU yn is na chyfartaledd Cymru o 1.13%.

Mae o hyd pryder o ran cofnodi a monitro darpariaeth bwndeli Sepsis Chwech ar gyfer ein Cleifion Mewnol ac yn ein Hadrannau Brys. Ar hyn o bryd mae Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol yn adolygu hyn.

Ym mis Gorffennaf, cost gyfun yr Asiantaeth a Locwm oedd 7.4%, 0.5% i lawr ar Fehefin 2021.

Cefndir / Background:

Mae tudalennau Crynodeb Gweithredol y QAP yn nodi perfformiad yn erbyn y mesurau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn Fframwaith Cyflenwi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2020/21. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyngori Byrddau Iechyd i barhau i fonitro perfformiad yn unol â'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn Fframwaith Cyflenwi GIG Cymru 2020/21 nes bod y Fframwaith ar gyfer 2021/22 wedi'i gyhoeddi.

Mae'r Mesurau Cyflenwi Cenedlaethol yn deillio o'r Fframwaith ac maent yn cyd-fynd â'r Nodau Pedwarplw a nodir yn 'A Healthier Wales', cynllun tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Goblygiadau Strategol / Strategy Implications

Mae'r Mesurau Cyflenwi Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cyflenwi Cenedlaethol, sy'n cefnogi 'A Healthier Wales' a Chynllun Blynnyddol y Bwrdd Iechyd.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Amherthnasol

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Bydd cyflawniad y dangosyddion perfformiad a nodir yn ein cynllun blynyddol yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gynllun adfer ariannol y Bwrdd.

Dadansoddiad Risk / Risk Analysis

Mae'r pandemig COVID-19 wedi creu llawer iawn o risgiau i ddarpariaeth gofal ym mhob rhan o'r system gofal iechyd.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar ran y Bwrdd Iechyd

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Nid yw'r Adroddiad wedi cael Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Y:\Board & Committees\Governance\Forms and Templates\Board and Committee Report Template V5.0_May 2021.docx



Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd 23 Medi 2021						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredol (OPMR) - Medi 2021 (Adroddiad Sefyllfa Mehefin 2021)						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Mrs Kamala Williams, Cyfarwyddwr Perfformiad Dros Dro Edward Williams, Pennaeth Asiwriant Perfformiad						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Mae'r data a'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi cael eu craffu gan y Pwyllgor Partneriaethau Strategol ac Iechyd y Boblogaeth, 12fed Awst 2021 ac Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, 28ain Awst 2021. Diweddarwyd yr adroddiad wrth i wybodaeth bellach ddod ar gael. Mae'r ardaloedd wedi'u diweddarau yn cynnwys sgôr COG o eitemau a gafodd eu categorioeddio o'r blaen fel l'w Cadarnhau (TBC) ac adolygiad o gamau gweithredu gyda dyddiad cau o 30 Mehefin a gafodd eu graddio'n wyrdd neu'n oren.						
Atodiadau Appendices:	Atodiad 1 - Cynllun Gweithredu Rhaglen y Cynllun Blynnyddol BCUHB 2021/22						
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd graffu ar yr adroddiad.							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer Trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	☒	Er gwybodaeth For Information	☒
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	
Sefyllfa / Situation:							
Datblygiad yr adroddiad Lle bynnag y bo modd, aethpwyd i'r afael ag unrhyw sylwadau ac ymholiadau gan y Pwyllgorau Partneriaeth Strategol ac Iechyd y Boblogaeth (PSIP) a Cyllid & Perfformiad (C&P) ynghylch adrannau naratif yr adroddiad. Lle nad yw hyn wedi bod yn bosibl, byddwn yn ceisio rhoi sylw yn Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredol (AMCG) Chwarter 2 (Ch2). O ystyried natur ddeinamig y broses gynllunio, byddwn yn adolygu ac, os bydd angen, yn adolygu'r camau blaenoriaeth a gynhwysir yn fersiwn Ch2 yr adroddiad. Bydd y rhesymeg dros unrhyw newidiadau wedi'i nodi'n glir yn y papur eglurhaol.							

Cefndir / Background:

Mae arweinyddion gweithredol yn adolygu yr camau sydd wedi eu asseinio iddynt ac yn nodi'r COG yn dirbynnu ar gynnydd hyd at diwedd pob chwarter. Lle mae cam wedi ei gwblhau, mae e yn gael ei COG yn borffordd. Lle mae yna risc i gwblhau cam, bydd yn cael ei COG yn goch neu'n oren, a bydd naratif byr yn cael ei gynnwys.

RAG	Every month end	by expected delivery date	Requirements depending on RAG rating given
Red	Off track, serious risk of, or will not be achieved	Not achieved	Where RAG given is Red: A concise narrative explaining what the issues are, what is being done to resolve them and the level of risk to successful delivery of the Programme within the agreed timescale is provided.
Amber	Some risks being managed	Not Applicable	Where RAG given is Amber: A concise narrative explaining what the issues are, what is being done to resolve them and the level of risk to successful delivery of the Programme within the agreed timescale is provided.
Green	On track, no real concerns	Not Applicable	Where RAG is Green: No additional information required
Purple	Achieved	Achieved	Where RAG is Purple: No additional information required
N/A	Where the Programme or Action is not due to commence in the current reporting period.		
TBC	Where the RAG rating for the Programme or Action has not been signed off in time for publication of the report.		

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Goblygiadau Strategol / Strategy Implications

Mae gan y cynllun gweithredol nifer o gamau allweddol y mae'n ofynnol eu cyflawni yn ystod Chwarter 1 2021/22. Mae'r Weithrediaeth yn arwain adolygiadau bob mis yn symud ymlaen yn erbyn eu meysydd gweithredu a chynnydd ar gyfraddau RAG. Pan fydd gweithred wedi'i chwblhau, mae hwn yn borffordd gradd RAG. Pan fo gweithred ar y trywydd iawn, caiff ei graddio'n wyrdd. Defnyddir graddfeydd ambr a choch ar gyfer gweithredoedd lle mae risgiau i lwyddo i sicrhau danfoniad neu lle na chyflawnwyd y cyflawni. Darperir naratif byr ar gyfer gweithredoedd â sgôr coch neu oren.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Amherthnasol

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Bydd cyflawniad y gweithredau a nodir yn ein cynllun blynyddol yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gynllun adfer ariannol y Bwrdd.

Dadansoddiad Risk / Risk Analysis

Mae'r pandemig COVID-19 wedi creu llawer iawn o risgiau i ddarpariaeth gofal ym mhob rhan o'r system gofal iechyd.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar ran y Bwrdd Iechyd

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Nid yw'r Adroddiad wedi cael Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad: Report Title:	Adroddiad Cyllid Mis 4 2021/22						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol						
Awdur yr Adroddiad: Report Author:	Tom Stanford, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad						
Atodiadau Appendices:							
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i aelodau nodi'r adroddiad.							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad/cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	✓	Er gwybodaeth For Information	
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Ydi/Nac ydi i nodi a yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol						Nac ydi	
Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar faterion economaidd-gymdeithasol ddim yn berthnasol.							
Sefyllfa / Situation:							
Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth am berfformiad ariannol drafft y Bwrdd Iechyd heb ei archwilio ym mis Gorffennaf (mis 4) 2021.							
Cefndir / Background:							
Yn unol â holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru, cafodd y cynllun drafft ei ddiwygio yn Chwarter 1 i fireinio ac i ddatblygu'r triongiant o weithgarwch, cynlluniau ariannol a'r gweithlu, gan gadw'r ffocws ar y chwe amcan allweddol a ddisgrifir yn y cynllun drafft. Mae'r cynllun ariannol diwygiedig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin yn rhagweld y bydd yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Rydym yn profi ein tybiaethau yn y cynlluniau gwreiddiol ac, os bydd angen, byddwn yn adnewyddu ein rhagolygon gyda'r timau adrannol, erbyn mis 6, i sicrhau bod alldro cyffredinol y rhagolwg yn gadarn ac yn cael ei gyflawni. Gall hyn gynnwys gwaith allanol ychwanegol, gwaith dros dro neu ymgynghori, er mwyn bwrw ymlaen â rhai o'r cynlluniau mwy. Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021/22 yn cynnwys yr £82.0m o gyllid cymorth strategol a roddodd Llywodraeth Cymru y llynedd (£40.0m i dalu am y diffyg a £42.0m o gymorth strategol) a chyllid Cynllun Adfer COVID-19 gwerth £19.9m. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn cael eu defnyddio i wella perfformiad, lleihau rhestrau aros a sbarduno rhaglen drawsnewid sy'n gysylltiedig â model clinigol cynaliadwy ar gyfer Gogledd Cymru.							
Asesiad / Assessment:							
Goblygiadau Strategol / Strategy Implications							
Mae'r papur hwn yn cyd-fynd â'r nod strategol o sicrhau cydbwysedd ariannol ac mae'n gysylltiedig â'r amcan llesiant o dargedu ein hadnoddau at y rheini sydd fwyaf mewn angen.							
Opsiynau a ystyriwyd / Options considered							

Ddim yn berthnasol – adroddiad er sicrwydd yn unig

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Sefyllfa Ariannol

	Month4 £m	YTD £m	Forecast £m
Actual Position	0.06	0.00	0.00
Planned Position	0.00	0.00	0.00
Variance	(0.06)	0.00	0.00

Mae'r sefyllfa o fewn y mis yn ddiffyg o £58k, sy'n mantoli'r gyllideb yn gronnus. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn y cyfarfod diwethaf gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn, sydd i dalu am effaith yr arbedion heb eu cyflawni o 2020/21, yn golygu bod rhagolwg o'r sefyllfa gytbwys hefyd ar gyfer y flwyddyn erbyn hyn.

Cyfanswm cost COVID-19 ym mis Mai yw £8.9m (£29.7m ar gyfer y flwyddyn hyd yma). Rhagwelwyd y bydd incwm Llywodraeth Cymru yn talu am y costau hyn yn llawn, gan roi dim effaith ar y sefyllfa ariannol.

	Actual M01 £m	Actual M02 £m	Actual M03 £m	Actual M04 £m	Actual YTD £m	Forecast 2021/22 £m
Testing	0.1	0.2	0.2	0.3	0.8	3.0
Tracing	1.1	1.0	1.0	0.9	4.0	14.8
Mass COVID-19 Vaccinations	1.7	1.5	2.0	0.8	6.0	16.8
Extended FLU Vaccinations	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.2
Field Hospital/Surge	0.3	0.7	0.2	0.5	1.7	1.7
Cleaning Standards	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.9
Other Costs	4.5	3.6	4.5	6.3	18.9	72.7
Total COVID-19 costs	7.7	7.0	7.9	8.8	31.4	111.1
Non Delivery of Savings	0.8	(0.8)	0.0	0.0	0.0	0.0
Expenditure Reductions	(0.2)	(0.7)	(0.8)	0.1	(1.7)	(2.3)
Slippage on Planned Investments	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Total Impact of COVID-19	8.3	5.5	7.1	8.9	29.7	108.8
Welsh Government Funding	(8.3)	(11.9)	(10.6)	(11.5)	(42.3)	(143.8)
Impact of COVID-19 on Position	0.0	(6.4)	(3.5)	(2.6)	(12.6)	(35.0)

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd cyfanswm effaith COVID-19 yn £111.1m. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd COVID-19 yn parhau i gael effaith am y flwyddyn gyfan. Mae disgwyl i incwm Llywodraeth Cymru dalu'r gost hon yn llawn, felly nid oes unrhyw effaith ar sefyllfa gyffredinol y Bwrdd Iechyd.

Wrth i ddata modelu ychwanegol ar gyfer COVID-19 ddod i law, ac yn unol ag adnewyddu'r cynllun ariannol, bydd y rhagolwg hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch y rhagolygon wrth i sefyllfaoedd ddatblygu, yn enwedig o ran effaith amrywiadau sy'n peri pryder o ran y nifer sy'n cael eu derbyn i ysbytai.

Rhagolwg

Mae'r rhagolwg wedi cael ei ddiweddarau i gydnabod y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn y cyfarfod diweddar gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn, sydd i dalu am effaith yr arbedion heb eu cyflawni o 2020/21, yn golygu bod rhagolwg o'r sefyllfa gytbwys ar gyfer y flwyddyn erbyn hyn.

Mae gwariant sy'n gysylltiedig â'r cyllid o £30.0m ar gyfer y Gronfa Perfformiad, y Cymorth Strategol gwerth £12.0m a'r Cynllun Adfer COVID-19 gwerth £19.9m wedi'u cynnwys yn y rhagolwg, ar sail cyflwyno costau fesul cam mewn achosion busnes a gyflwynir. Mae'r rhain yn dangos cynnydd fesul cam mewn gwariant bob mis am saith mis cyntaf y flwyddyn a lefel uchel barhaus o wariant am y pum mis sy'n weddill. Mae'r proffil cost hwn yn dibynnu ar dimau gweithredol yn rhoi cynlluniau cymeradwy ar waith yn gyflym. Bydd perfformiad gwirioneddol yn erbyn achosion busnes a gyflwynir yn cael ei fonitro'n fisol a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer rhagolygon yn y dyfodol.

Dadansoddiad Risg / Risk Analysis

Mae pedair risg i'r sefyllfa ariannol, dau gyda chyfanswm cyfunol o £3.0m a dau heb eu pennu eto. Mae un o'r risgiau hyn yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog nad yw'r undebau wedi cytuno arno.

Adroddir ar risgiau BCU ar wahân drwy'r Gofrestr Risg.
Mae un cyfle mewn perthynas ag enillion cyfrifyddu untro posibl yn y dyfodol.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Amherthnasol.

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Amherthnasol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd 23 Medi 2021						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad: Report Title:	Adroddiad Cyllid Mis 5 2021/22						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol						
Awdur yr Adroddiad: Report Author:	Tom Stanford, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol						
Atodiadau Appendices:							
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i aelodau nodi'r adroddiad.							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad/cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	✓	Er gwybodaeth For Information	
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	
Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar faterion economaidd-gymdeithasol ddim yn berthnasol.							
Sefyllfa / Situation:							
Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth am berfformiad ariannol drafft y Bwrdd Iechyd heb ei archwilio ym mis Awst (mis 5) 2021.							
Cefndir / Background:							
Yn unol â holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru, cafodd y cynllun drafft ei ddiwygio yn Chwarter 1 i fireinio ac i ddatblygu'r triongiant o weithgarwch, cynlluniau ariannol a'r gweithlu, gan gadw'r ffocws ar y chwe amcan allweddol a ddisgrifir yn y cynllun drafft. Mae'r cynllun ariannol diwygiedig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin yn rhagweld y bydd yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Rydym yn profi ein tybiaethau yn y cynlluniau gwreiddiol ac, os bydd angen, byddwn yn adnewyddu ein rhagolygon gyda'r timau adrannol, erbyn mis 6, i sicrhau bod alldro cyffredinol y rhagolwg yn gadarn ac yn cael ei gyflawni. Gall hyn gynnwys gwaith allanol ychwanegol, gwaith dros dro neu ymgynghori, er mwyn bwrw ymlaen â rhai o'r cynlluniau mwy. Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021/22 yn cynnwys yr £82.0m o gyllid cymorth strategol a roddodd Llywodraeth Cymru y llynedd (£40.0m i dalu am y diffyg a £42.0m o gymorth strategol) a chyllid Cynllun Adfer COVID-19 gwerth £19.9m. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn cael eu defnyddio i wella perfformiad, lleihau rhestrau aros a sbarduno rhaglen drawsnewid sy'n gysylltiedig â model clinigol cynaliadwy ar gyfer gogledd Cymru.							
Asesiad / Assessment:							
Goblygiadau Strategol / Strategy Implications							
Mae'r papur hwn yn cyd-fynd â'r nod strategol o sicrhau cydbwysedd ariannol ac mae'n gysylltiedig â'r amcan llesiant o dargedu ein hadnoddau at y rheini sydd fwyaf mewn angen.							
Opsiynau a ystyriwyd / Options considered							
Ddim yn berthnasol – adroddiad er sicrwydd yn unig							

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Sefyllfa Ariannol

	Month 5 £m	YTD £m	Forecast £m
Actual Position	0.0	0.0	0.0
Planned Position	0.0	0.0	0.0
Variance	0.0	0.0	0.0

Mae'r sefyllfa o fewn y mis yn gytbwys, sydd hefyd yn mantoli'r gyllideb yn gronnus. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn y cyfarfod diwethaf gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn, sydd i dalu am effaith yr arbedion heb eu cyflawni o 2020/21, yn golygu bod rhagolwg o'r sefyllfa gytbwys hefyd ar gyfer y flwyddyn erbyn hyn.

Cyfanswm cost COVID-19 ym mis Awst yw £6.1m (£35.8m ar gyfer y flwyddyn hyd yma). Rhagwelwyd y bydd incwm Llywodraeth Cymru yn talu am y costau hyn yn llawn, gan roi dim effaith ar y sefyllfa ariannol.

	Actual M01 £m	Actual M02 £m	Actual M03 £m	Actual M04 £m	Actual M05 £m	Actual YTD £m	Forecast 2021/22 £m
Testing	0.1	0.2	0.2	0.3	0.4	1.2	4.1
Tracing	1.1	1.0	1.0	0.9	1.1	5.1	14.9
Mass COVID-19 Vaccinations	1.7	1.5	2.0	0.8	1.0	7.0	16.4
Extended FLU Vaccinations	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.2
Field Hospital/Surge	0.3	0.7	0.2	0.5	(0.3)	1.4	1.4
Cleaning Standards	0.0	0.0	0.0	0.0	0.5	0.5	2.1
Other Costs	4.5	3.6	4.5	6.3	4.0	22.9	72.7
Total COVID-19 costs	7.7	7.0	7.9	8.8	6.7	38.1	112.8
Non Delivery of Savings	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Expenditure Reductions	(0.2)	(0.7)	(0.8)	0.1	(0.6)	(2.3)	(2.4)
Slippage on Planned Investments	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Total Impact of COVID-19	7.5	6.3	7.1	8.9	6.1	35.8	110.4
Welsh Government Funding	(8.3)	(11.9)	(10.6)	(11.5)	(9.4)	(51.8)	(145.5)
Impact of COVID-19 on Position	(0.8)	(5.6)	(3.5)	(2.6)	(3.3)	(16.0)	(35.1)

Rhagwelir y bydd cyfanswm effaith COVID-19 yn £112.8m ar hyn o bryd. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd COVID-19 yn parhau i gael effaith am y flwyddyn gyfan. Mae disgwyl i incwm Llywodraeth Cymru dalu'r gost hon yn llawn, felly nid oes unrhyw effaith ar sefyllfa gyffredinol y Bwrdd lechyd.

Wrth i ddata modelu ychwanegol ar gyfer COVID-19 ddod i law, ac yn unol ag adnewyddu'r cynllun ariannol, bydd y rhagolwg hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch y rhagolygon wrth i sefyllfaoedd ddatblygu, yn enwedig o ran effaith amrywiadau sy'n peri pryder o ran y nifer sy'n cael eu derbyn i ysbytai.

Rhagolwg

Mae'r rhagolwg wedi cael ei ddiweddarau i gydnabod y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn y cyfarfod diwethaf gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn, sydd i dalu am effaith yr arbedion heb eu cyflawni o 2020/21, yn golygu bod rhagolwg o'r sefyllfa gytbwys ar gyfer y flwyddyn erbyn hyn.

Mae gwariant sy'n gysylltiedig â'r cyllid o £30.0m ar gyfer y Gronfa Perfformiad, y Cymorth Strategol gwerth £12.0m a'r Cynllun Adfer COVID-19 gwerth £19.9m wedi'u cynnwys yn y rhagolwg, ar sail

cyflwyno costau fesul cam mewn achosion busnes a gyflwynir. Mae'r rhain yn dangos cynnydd fesul cam mewn gwariant bob mis am saith mis cyntaf y flwyddyn a lefel uchel barhaus o wariant am y pum mis sy'n weddill. Mae'r proffil cost hwn yn dibynnu ar dimau gweithredol yn rhoi cynlluniau cymeradwy ar waith yn gyflym. Bydd perfformiad gwirioneddol yn erbyn achosion busnes a gyflwynir yn cael ei fonitro'n fisol a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer rhagolygon yn y dyfodol.

Dadansoddiad Risg / Risk Analysis

Mae pedair risg i'r sefyllfa ariannol, dau gyda chyfanswm cyfunol o £2.2m a dau heb eu pennu eto. Mae un o'r risgiau hyn yn ymwneud â chyllido'r dyfarniad cyflog ychwanegol o 2% a'r llall mewn perthynas â'r incwm disgwyledig nad yw'n cael ei ariannu'n llawn.

Mae un cyfle mewn perthynas ag enillion cyfrifyddu untro posibl yn y dyfodol.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Amherthnasol.

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Amherthnasol.



Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd 23 Medi 2021						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2020-2021						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Ms Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Mrs Eleri Hughes-Jones, Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth ar 12 Awst 2021.						
Atodiadau Appendices:	1. Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2021-2021						
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r adroddiad.							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval	☒	Ar gyfer Trafodaeth For Discussion	☐	Ar gyfer sicrwydd For Assurance	☐	Er gwybodaeth For Information	☐
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	
Sefyllfa / Situation:							
Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ddyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.							
Cefndir / Background:							
Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar gyfer y Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2019.							
Mae Safon 120 sy'n ymdrin â "Materion Atodol" yn nodi bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd lunio adroddiad blynyddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y cydymffurfiwyd â'r safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.							
Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a ganlyn:							
• Nifer y cwynion a gawsoch a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau • Sgiliau Cymraeg y gweithlu • Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a'r lefel o Gymraeg sydd yn ofynnol • Hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg y gweithlu							

Mae'r adroddiad hwn yn darparu data ansoddol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o gyfeiriad strategol y sefydliad mewn perthynas â'r Gymraeg, gyda gwybodaeth feintiol gefnogol ar y camau a gymerwyd i brif-ffrydio'r Gymraeg a symud prosiectau a mentrau yn eu blaen ar draws y Bwrdd Iechyd.

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Goblygiadau Strategol / Strategy Implications

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddatblygu yng nghyd-destun heriau unigryw a gyfyd yn sgil pandemig Covid-19. Mae'n adlewyrchu ar y dulliau amgen a roddwyd ar waith i gynnal gwasanaethau ieithyddol amserol ac addas i'n cleifion.

Ynghyd â gweithredu ein blaenoriaethau uniongyrchol, rydym wedi alinio â dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio'r trawsnewid o gyfyngiadau gweithredol i ddarpariaeth strategol integredig.

Mae ein gwaith i ymgorffori trawsnewid ac arloesi yn anelu at wella cwrs canlyniadau, gan wneud y mwyaf o brofiadau cadarnhaol cleifion a lleihau anghydraddoldeb o ran iechyd.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Mae'r gofynion ar gyfer yr adroddiad hwn yn cael ei osod Gomisiynydd y Gymraeg. Felly nid oedd opsiynau eraill yn bwrpasol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Pe canfyddir achos o ddiffyg cydymffurfiaeth, bydd y Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad ac yn cyflwyno'r canfyddiadau mewn adroddiad ysgrifenedig. Os nad oes camau digonol wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg, gall y Comisiynydd roi cosb sifil o hyd at £5000 ar y sefydliad.

Byddai canfyddiadau'r dadansoddiad yn rhoi amod ar gyllideb, ffynhonnell adnoddau a'u heffeithiau.

Dadansoddiad Risk / Risk Analysis

Y prif risgiau cyfredol yw'r posibilrwydd o fethiant i gydymffurfio â dyletswyddau penodol a osodwyd ar y Bwrdd lechyd. Mae'r mater hwn wedi ei gofnodi ar Gofrestr Risg Gwasanaethau'r Gymraeg ar ei darged o lefel risg canolig gyda sgôr o chwech. Mae camau wedi eu hadnabod i reoli a lleihau meysydd a allai fod o bryder. Craffir ar y Gofrestr Risg yn chwarterol a chaiff unrhyw faterion o bwys neu bryder eu hystyried yn Fforwm Strategol yr Iaith Gymraeg.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoddwyd iddo gydsyniad brenhinol ar 9 Chwefror 2011.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn atgyfnerthu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru,

Hefyd, yn sgil y Mesur:

- Crëwyd gweithdrefn ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau drwy Safonau'r Gymraeg
- Sefydlwyd rôl y Comisiynydd i graffu ar gydymffurfedd
- Rhoddwyd grym i'r Comisiynydd ymchwilio i unrhyw honiad o ymyrraeth gyda rhyddid unrhyw un i ddefnyddio'r Gymraeg

Asesiad Effaith / Impact Assessment


Nid oedd asesiad effaith yn ofynnol mewn perthynas â llunio'r adroddiad hwn. Pwrpas yr adroddiad ynddo'i hun yw rhoi sicrwydd bod y Bwrdd lechyd yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn unol â Safonau'r Gymraeg.



ADRODDIAD MONITRO BLYNDDYOL

GWASANAETHAU CYMRAEG

2020 - 2021



DEFNYDDIWCH EICH
CYMRAEG
USE YOUR
WELSH



NHS
WALES
GIG
CYMRU

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
Cefndir a'r sefyllfa bresennol	2
Hunanreoleiddio a Llywodraethu	3
Safonau'r Gymraeg	6
Y "Cynnig Rhagweithiol"	8
Datblygiadau Hyfforddiant Cymraeg	10
Gwasanaethau Gofal Cychwynnol	13
Y Gwasanaeth Cyfieithu	15
Datblygiadau Gwasanaeth a Chyflawniadau Allweddol	16
• Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog • Integreiddio Deddfwriaeth i Gynllunio Gwasanaethau • Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith • Wythnos y Gymraeg 2020 • Cymraeg i Blant • Gweithio gydag Ysgolion a Cholegau • Dathlu'r GIG!	
Data Dangosyddion Perfformiad	23
• Cynllunio'r Gweithlu	23
• Hyfforddiant Gwella Sgiliau Cymraeg	27
• Recriwtio	27
• Cwynion	28
Casgliad a Gweledigaeth ar gyfer 2021- 2022	28

Crynodeb Gweithredol

Adroddiad yw hwn i gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg am eu cydymffurfiant â Safonau'r Gymraeg ers iddynt gael eu pennu ar 30 Mai, 2019.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r gofynion a'r cynnwys a nodwyd yn Safon 120 o Safonau'r Gymraeg:

- Cwynion
- Cynlluniau ar gyfer y Gweithlu
- Recriwtio
- Sgiliau iaith
- Hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed, gan gynnwys cyflawniadau allweddol ac arfer dda, yn ogystal â meysydd i'w datblygu.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, a'r heriau a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19. Mae effaith y pandemig hefyd i'w weld o fewn Gwasanaethau'r Gymraeg.

Yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig, cafodd rhai o aelodau Tîm y Gymraeg eu hadleoli i gefnogi'r ymateb i Covid-19. Ail-ddynodwyd pedwar aelod o'r tîm i gefnogi sefydlu Hwb Profi Cartrefi Gofal ym mis Mai 2021, gan sicrhau fod y gwasanaeth yn gweithredu'n ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Sefydlwyd y gwasanaeth yn wreiddiol i hwyluso profion COVID-19 mewn cartrefi gofal ledled gogledd Cymru yn unig, ond cynyddodd ystod a chyfrifoldebau'r canolfannau profi yn fuan i gwmpasu gwasanaethau e-bost a ffôn ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd a'r cyhoedd. Roedd yn hanfodol felly gallu darparu gwasanaethau'r canolfannau yn y Gymraeg a'r Saesneg a pharhaodd aelodau Tîm y Gymraeg i gynorthwyo gyda hyn tan hydref 2020. Ar ôl dychwelyd i'w swyddi arferol, parhawyd i gefnogi'r canolfannau gan weithio sifftiau penwythnos i sicrhau fod gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal, a chanmolwyd aelodau'r tîm am eu cyfraniad a'u hymrwymiad.

Roedd y cyfyngiadau Covid-19 yn golygu bod rhai cyfleoedd i symud ymlaen a datblygu prosiectau a mentrau allweddol wedi gorfod cael eu gohirio. Serch hynny, mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal darpariaeth gwasanaeth dwyieithog yn ystod y cyfnod heriol a digynsail hwn.

Yn ogystal â chyflawni ein gofynion deddfwriaethol, bu gwaith adolygu prosesau cyfredol ac addasu i ffordd newydd o weithio. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed i adolygu a diweddarau'r *Polisi Sgiliau A Gweithdrefnau Dwyieithog* yn ogystal ag amlygu'r cyfleoedd i ymgymryd ag hyfforddiant iaith Gymraeg sydd wedi parhau i gefnogi cyflwyno'r polisi.

Parhaodd *Mwy na geiriau* ac egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg heb i'r defnyddiwr gwasanaeth orfod gofyn amdano a pharhawyd gyda'r Cynllun Dewis Iaith yn ein lleoliadau aciwt a chymunedol.

Datblygwyd ffyrdd newydd ac amgen o weithio. Cynhaliwyd 'Wythnos y Gymraeg' rithiol, a datblygwyd adnoddau ar-lein er mwyn gallu parhau â'n gwaith o hyrwyddo sgiliau Cymraeg fel sgil ar gyfer cyflogaeth o fewn ysgolion uwchradd a cholegau.

Er mwyn gallu parhau â'n blaenoriaethau ar gyfer 2021-2022, addaswyd a diweddarwyd Cynllun Blynnyddol Gwasanaethau'r Gymraeg gan ymgorffori ffyrdd newydd o weithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau sefydledig yr ydym eisoes yn eu darparu.

Cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd yn erbyn y gofynion a nodir yn Safon 120. Mae hefyd yn dangos sut yr ydym wedi cynllunio ein gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth.

Deall anghenion ein poblogaeth

Mae deall anghenion ein poblogaeth yn hanfodol i lywio cynnwys a darpariaeth gwasanaethau yng Ngogledd Cymru. Yng Ngwynedd y mae'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, 65 y cant, er y gwyddom y gall hyn fod yn llawer uwch mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mae'r ffigyrau ar draws Gogledd Cymru yn amrywio gyda 57 y cant o drigolion Ynys Môn yn siarad Cymraeg, 27 y cant yng Nghonwy a 25 y cant yn Sir Ddinbych. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint (13.2 y cant) a Wrecsam (12.9 y cant) yn is, fodd bynnag, mae galw cyson am wasanaethau cyfrwng Cymraeg, gydag ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith yn cyrchu gwasanaethau a ddarperir yn Rhanbarth Ddwyreiniol Gogledd Cymru.

O ran y defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd, mae *Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru* [1] yn dangos bod ychydig dros hanner (53 y cant) o siaradwyr Cymraeg Gogledd Cymru yn rhugl yn yr iaith a bod 63 y cant yn siarad Cymraeg yn ddyddiol. Yng Ngwynedd, mae 78 y cant o'r trigolion yn rhugl yn y Gymraeg ac mae 85 y cant yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn enwedig yng Ngogledd Orllewin y rhanbarth, yn dylanwadu ar nifer y bobl sy'n dewis cael gwasanaethau yn y Gymraeg. Yng Ngwynedd, mae 37 y cant o'r boblogaeth yn ceisio defnyddio'r Gymraeg bob amser wrth gysylltu â gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r wybodaeth hon wedi cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i nodi'r angen am wasanaethau cyfrwng Cymraeg ac wedi ein galluogi i gynllunio i ymateb i'r galw hwn.

¹ <https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Health-and-Social-Services/North-Wales-Population-Assessment/NW-Population-Assessment-1-April-2017.pdf>

Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd

Mae Tîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn cynnwys pedwar gwasanaeth sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni gofynion deddfwriaethol a diwallu anghenion ein cleifion.

1. Cydymffurfio gyda Deddfwriaeth

Sicrhau ein bod yn cefnogi'r sefydliad i gyflawni'r rhwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gwaith sy'n cael ei hwyluso gan ein Swyddog Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg.

2. Hyrwyddo ac Ymgysylltu

Yn unol ag elfennau gweithredol darparu *Mwy na geiriau* y Fframwaith Strategol, mae Swyddogion y Gymraeg yn cefnogi a sefydlu prosiectau a chynlluniau a fydd yn darparu gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid.

3. Darparu Hyfforddiant


Mae ein Tiwtor a Swyddog Cymorth Cymraeg yn sicrhau datblygiad sefydliadol yn unol â'n Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a'r agenda Gymraeg ehangach.

4. Gwasanaethau Cyfieithu

Mae ein huwch Gyfieithydd a phum cyfieithydd yn sicrhau bod y sefydliad yn gallu darparu gwybodaeth i gleifion yn yr iaith o'u dewis, ac maent hefyd yn darparu cyfieithu ar y pryd er mwyn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg mewn lleoliadau clinigol a chorfforaethol.

Hunanreoleiddio a Llywodraethu

Mae datblygu strategaeth glir wedi ein galluogi i ddiffinio ein dull o gyflenwi gwasanaethau, o'n gwaith cynllunio i'n gwaith ymyrraeth, a sianelodd cynnwys y ddogfen *Cynllun Strategol ar y Gymraeg 2016-2019* ein ffocws drwy *Ymyrraeth Strategol*, *Newid Ymddygiadol*, *Monitro a Pherfformiad*:



Erbyn hyn, fodd bynnag, mae gennym ddigon o dystiolaeth o gynnydd yn y cyfnod cynllunio i'n galluogi i ganolbwyntio ar wireddu ein haddewidion, fel y gwelir o fewn yr adroddiad hwn.

Atebolrwydd Cyffredinol y Bwrdd

Rydym wedi cynnal ein trefn atebolrwydd strwythurol, gyda Fforwm Strategol y Gymraeg, dan gadeiryddiaeth ein Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, yn gyfrifol am sefydlu ein trefniadau llywodraethu mewnol. Mae Cylch Gorchwyl y Fforwm yn llywio ein amcanion strategol, gyda'r aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol sy'n gallu gweithredu ar yr argymhellion wedyn. Mae'r Fforwm yn adrodd i Bwyllgor Strategaeth, Partneriaeth ac Iechyd y Boblogaeth o fewn y Bwrdd Iechyd, sy'n Bwyllgor o'r Bwrdd, ac yn cael ei gadeirio gan yr Is-Gadeirydd. Mae llwybrau craffu clir yn ogystal â threfniadau ar gyfer uchafu unrhyw faterion o bwys.

Cofrestr Risg Gwasanaethau Cymraeg

Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod meysydd risg posibl mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae Cofrestr Risg bwrpasol yn ei lle. Mae'r risgiau posibl cyfredol yn cynnwys yr angen i gwrdd â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gweithredu'r egwyddor o Gynnig Rhagweithiol yn unol â Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru *Mwy na geiriau*, a chyflawni'r *Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer Sgiliau Dwyieithog*.

Adolygwyd pob risg yn ystod 2020-2021, ac mae'r tair risg ar hyn o bryd yn cael eu graddio'n gymedrol neu fach. Wrth asesu'r risgiau, ystyriwyd effaith y pandemig a'r ffaith nad yw'r gwasanaeth wedi gallu bod mor rhagweithiol â'r arfer yn ystod y flwyddyn adrodd. Fodd bynnag, ni uchafwyd unrhyw risgiau o ganlyniad i hyn. Gyda COVID-19 yn cymryd blaenoriaeth ar gyfer o leiaf hanner cyntaf 2021-2022, rhoddwyd camau yn eu lle i liniaru heriau cymhleth posibl a phenderfynu ar gamau gweithredu pellach a ffyrdd amgen o weithio i gyrraedd y targedau sgoriau risg.

Mae'r Gofrestr Risg ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg yn cael ei monitro bob chwarter, ac adroddir bob dwy flynedd i Fforwm Strategol y Gymraeg.

Sicrwydd Perfformiad Mewnol

Cyflwynwyd Cynllun Siopwyr Dirgel ar gyfer y Gwasanaethau Dwyieithog ym mis Mawrth 2018 ac mae'n cynnwys cyfuniad o ymweliadau safle ac arolygon siopwyr dirgel, gan graffu ar argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn amryw o safleoedd a lleoliadau'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ar ymweld â safleoedd a'r pwysau ar wasanaethau oherwydd pandemig Covid-19, gohiriwyd y cynllun hwn. Mae'r Cynllun yn awr wedi bod yn canolbwyntio ar wasanaethau ffôn yn hanner cyntaf 2021-2022 oherwydd y mesurau diogelwch mewn safleoedd a'r cyfyngiadau ymweld.

Serch hynny, yn ystod 2020-2021, parhaodd y Bwrdd Iechyd i fonitro agweddau ar ei wasanaethau, yn dilyn cwyn ac ymchwiliad dilynol gan Gomisiynydd y Gymraeg fod

y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau Gogledd Cymru wedi trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, a bod y gwasanaeth ffôn canolog cyfrwng Cymraeg yn llai hygyrch. Yn dilyn proses ymchwilio hir, nododd y Comisiynydd yn ei adroddiad ymchwilio a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi methu â gweithredu yn unol â'r gofynion statudol perthnasol, a'i fod wedi dod i'r penderfyniad hwnnw oherwydd diffyg tystiolaeth i brofi methiant pendant i gydymffurfio. Fodd bynnag, cynigiodd y comisiynydd yr argymhelliad a ganlyn:

Dylai'r Bwrdd Iechyd brofi effeithiolrwydd y gwasanaeth ffôn meddygon teulu y tu allan i oriau ar wahanol adegau o'r dydd / nos am gyfnod o 3 mis ac adrodd ar eu canfyddiadau i'r Comisiynydd.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i'r argymhelliad hwn ac felly bu Tîm y Gymraeg yn monitro'r gwasanaeth ffôn Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau am gyfnod o dri mis (rhwng Tachwedd 2020 a diwedd Chwefror 2021).

Arolwg Monitro

Canolbwyntiodd yr arolwg monitro yma ar hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau ffôn Cymraeg y gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau, trwy archwilio a oedd y gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ai peidio, ac a oedd yr un mor hygyrch i siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

Edrychwyd ar agweddau ar y gwasanaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan staff (i wirio bod atebwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg yn delio â phob galwad i'r gwasanaeth Cymraeg), yn ogystal â monitro a oedd y system ateb galwadau awtomataidd ei hun yn gweithio'n iawn ai peidio.

Er mwyn sicrhau ansawdd a chywirdeb parhaus cyfleusterau'r gwasanaethau ffôn Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau, penderfynwyd y byddai'r Tîm y Gymraeg yn rhoi gwybod i weithredwyr y gwasanaeth am unrhyw broblemau posibl gyda'r system cyn gynted ag y cawsant eu canfod (yn hytrach nag aros tan ar ôl i'r arolwg gael ei gwblhau). Roedd hyn er mwyn caniatáu i unrhyw ddiffygion gael eu cywiro'n gyflym ac er mwyn helpu i arbed unrhyw fân ddiffygion rhag datblygu i fod yn faterion hirdymor mwy.

Hysbyswyd yr atebwyr galwadau ar gyfer y gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau am y gwaith monitro ymlaen llaw, ond ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth arall na rhybudd ymlaen llaw iddynt y tu hwnt i hynny. Roedd hi felly'n dal yn bosibl i gynnal yr arolwg monitro fel ymarfer 'siopwr dirgel'.

Yn dilyn hynny, galwodd Tîm y Gymraeg y rhif gwasanaeth ffôn Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau ar 16 achlysur rhwng dydd Iau, 19 Tachwedd 2020 a dydd Sul, 28 Chwefror 2021. Nodir canlyniadau'r arolwg yn y tabl isod:

	Cymraeg	Saesneg	Hanner Cymraeg / Hanner Saesneg
Cyfarch	6	7	3
Gwasanaeth	14	2	Amherthnasol

Atebwyd dros 50 y cant o'r galwadau gyda chyfarchiad Cymraeg yn unig neu'n rhannol yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, ymdriniwyd â bron i 90 y cant o'r ymholiadau yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ôl nodi diffygion, sefydlodd y Bwrdd lechyd gamau arfaethedig i fynd i'r afael â'r materion hynny, gydag argymhellion oedd yn cynnwys:

- 1 Gwirio'r gwasanaeth ffôn Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau yn chwarterol i sicrhau bod y system yn gweithredu'n iawn.
- 2 Atgoffa pawb sy'n trin galwadau'n ddwyieithog i wirio pa iaith y mae'r galwr yn ei ddewis ar eu sgriniau a chyn ateb pob galwad.
- 3 Adolygu rota'r gwasanaeth ffôn Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau i sicrhau bod o leiaf un atebwr galwadau sy'n siarad Cymraeg ar ddyletswydd bob amser ym mhob un o dair 'ardal' y Bwrdd lechyd (hy 'Gorllewin', 'Canol' a Dwyrain').
- 4 Ystyried sefydlu cyfleuster 'trosglwyddo galwadau' integredig yn y system ateb galwadau Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau newydd, a fydd yn weithredol o fis Mehefin 2021.
- 5 Annog atebwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg i gyfeirio at y gwasanaeth fel 'Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau' yn hytrach na'r cyfieithiad Saesneg - wrth gyfarch galwyr sy'n siarad Cymraeg.

O 22 Mehefin 2021, ni fydd gwasanaeth ffôn Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau yn cael ei ddarparu ar ei ben ei hun ond yn hytrach bydd cyfleuster GIG 111 Cymru yn cymryd lle'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, hysbysodd y Bwrdd lechyd y Comisiynydd o'r canfyddiadau a chynigiwyd y dylid trosglwyddo'r argymhellion a'u hystyried wrth ddatblygu system newydd Cymru gyfan.

Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg bellach wedi bod yn eu lle ers y daethant i rym ar 30 Mai 2019. Gwnaed cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r safonau o fewn y sefydliad ac mae Swyddog Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg yn darparu cyfarwyddyd ledled y sefydliad ar weithredu'r safonau, ynghyd â rhoi cefnogaeth er mwyn gallu eu cyflwyno yn ymarferol.

Mae'r mecanweithiau yn eu lle i sicrhau bod hyn yn deillio o'r Grŵp Rheoli Prosiect Safonau'r Gymraeg. Mae'r aelodau'n cynnwys arweinwyr enwebedig o bob rhan o'r Bwrdd lechyd, cynrychiolwyr gwasanaethau a meysydd clinigol. Pwrpas y grŵp yw cynnig arweiniad ar y gwaith hwn.

Ar hyn o bryd, ffocws y grŵp yw adolygu cydymffurfiad gan ddefnyddio dull hunanasesu i sefydlu a yw'r cynnydd a wnaed cyn y pandemig Covid-19 wedi'i gynnal, a pha gymorth ychwanegol sy'n ofynnol i gefnogi gwasanaethau i gyflawni eu dyletswyddau. Ar hyn o bryd mae pob gwasanaeth yn paratoi adroddiad prif bwyntiau (*highlight report*) a fydd yn caniatáu iddynt fesur ac asesu sut y mae eu gwasanaeth yn cydymffurfio â phob safon.

Bydd y canfyddiadau yn ein galluogi i nodi unrhyw feysydd anghydfurfio posibl a bydd yn caniatáu i Dîm y Gymraeg sianelu eu cefnogaeth yn briodol. Yr adroddiad uwcholeuo hwn fydd y ddogfen waith ar gyfer pob gwasanaeth a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd bob chwarter i Fforwm Strategol y Gymraeg.

O ran Safonau penodol, gwnaed cynnydd yn y meysydd a ganlyn.

Safon 63

Mae'r Safon hon yn nodi'r gofyniad i:

- a) asesu'r angen am i gyrsiau addysg a ddarperir i un neu fwy o unigolion gael eu cynnig yn y Gymraeg, a
- b) cynnig y cwrs hwnnw yn y Gymraeg pe bai'r asesiad yn nodi bod yn rhaid ei gynnig yn y Gymraeg

Datblygwyd asesiad mewn ymgynghoriad ag aelodau Grŵp Rheoli'r Cynllun, gan ganolbwyntio ar:

- Leoliad y cwrs
- Grwpiau cleifion bregus
- Sut mae'r cwrs yn cael ei gyflwyno
- Cyrsiau mewn ysgolion
- Cyfyngiadau amser wrth gyflawni cyrsiau
- Cynhyrchu fideos addysgol

Ar hyn o bryd mae'r asesiad yn cael ei dreialu gyda'r Gwasanaethau Deieteg yn ardal y Gorllewin a bydd adborth gan staff yn llywio unrhyw newidiadau pellach sy'n ofynnol cyn cyflwyno'r gwaith hwn yn ehangach.

Safon 37

Mae'r Safon yma'n ymwneud ag a ddylid cynhyrchu dogfen, sydd ar gael i un neu fwy o unigolion, yn y Gymraeg:

- (a) os yw'r pwnc yn awgrymu y dylid paratoi dogfen Gymraeg, neu
- (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu dogfen Gymraeg

Cynhaliwyd trafodaethau sylweddol ar lefel y Bwrdd ynglŷn ag a ddylid cyfieithu papurau'r Bwrdd neu beidio. Mae'r agenda a'r cofnodion wastad wedi cael eu cyfieithu, ond mae'r Bwrdd lechyd yn awyddus i ddatblygu hyn ymhellach, a phenderfynwyd ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2020 y dylai'r holl eitemau sefydlog ar yr agenda gael eu cyfieithu, gydag adolygiad mewn chwe mis i ystyried y cynnydd ac opsiynau pellach.

Mae'r ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Iechyd cyhoeddus wedi'i sefydlu ers amser maith. Fodd bynnag, yn dilyn y newid i gyfarfodydd rhithiol yn ystod y pandemig, codwyd pryder ynghylch defnyddio Microsoft Teams fel plattfform cyfieithu addas. O ganlyniad, penderfynwyd symud holl gyfarfodydd y Bwrdd cyhoeddus i ddefnyddio plattfform Zoom, sy'n caniatáu mynediad i sianeli Cymraeg a Saesneg. Mae cyfarfodydd y Bwrdd bellach yn cael eu ffrydio'n fyw ar sianel You Tube y Bwrdd Iechyd a gellir gwrandao trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r penderfyniad hwn yn dangos ymrwymiad a chefnogaeth ar lefel y Bwrdd i sefydlu hunaniaeth dwyieithog i'r Bwrdd Iechyd.

Y "Cynnig Rhagweithiol"

Mawrth 2019 oedd diwedd cyfnod tair blynedd fframwaith strategol dilynol Llywodraeth Cymru *Mwy na geiriau* ...Datblygwyd Cynllun Gweithredu 2019-2020, a oedd yn darparu strwythur ar gyfer parhau i gynyddu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, a gofal cymdeithasol, ac ar hyn o bryd mae'r sector iechyd yn parhau i weithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn y cynllun ac mae'n rhagweithiol ym mhob maes / thema:

Thema 1 - cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Thema 2 - cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Thema 3 - Creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun

Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn elfen allweddol wrth ddarparu *Mwy na geiriau*, ac mae gweithio integredig yn dod yn fwy allweddol fyth. Y Bwrdd Iechyd oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu Fforwm *Mwy na geiriau* Gogledd Cymru, sef grŵp amlasiantaethol a sefydlwyd i hwyluso parhau gyda'r gwaith hwn ar draws y rhanbarth. Ni chyfarfu'r Fforwm yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf oherwydd ymrwymadau traws-sector wrth fynd i'r afael â phandemig Covid-19. Fodd bynnag, parhawyd i rwydweithio trwy gylchredeg gwybodaeth a chynnig cefnogaeth i aelodau yn ystod y cyfnod heriol hwn. Bydd y Fforwm yn ail-gyfarfod yn ystod ail hanner 2021-2022.

Un o brif egwyddorion *Mwy na geiriau* yw'r "Cynnig Rhagweithiol", ac felly rhoddwyd blaenoriaeth i ganolbwyntio ar ddod â'r "Cynnig Rhagweithiol" i reng flaen ein gwasanaethau. Chwaraeodd y Bwrdd Iechyd ran allweddol wrth ddatblygu dull pwysig o nodi dewis iaith trwy eu Cynllun Dewis Iaith arobryn, sydd wrth gefn y gwaith o gyflwyno'r "Cynnig Rhagweithiol" yn llwyddiannus.

Y Cynllun Dewis Iaith

Er gwaethaf cyfyngiadau a phwysau ychwanegol pandemig Covid -19, parhaodd Cynllun Dewis Iaith arobryn y Bwrdd Iechyd i weithredu ar wardiau ysbytai ledled Gogledd Cymru yn ystod 2020-21.



Wedi i'r cynllun gael ei ehangu'n fawr i gynnwys wardiau yn Ysbyty Glan Clwyd a nifer o safleoedd cymunedol yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, parhawyd i ddefnyddio'r magnedau 'Cymraeg' oren hawdd eu gweld i adnabod cleifion a gweithwyr Cymraeg eu hiaith yn ein hysbytai yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Ar ôl cael eu treialu i ddechrau ar wardiau dethol yn Ysbyty Gwynedd yn gynnar yn 2017, mae'r Cynllun Dewis Iaith bellach yn hwyluso cyflwyno gwasanaethau dwyieithog a'r "Cynnig Rhagweithiol" mewn nifer o leoliadau Bwrdd Iechyd yn cynnwys Ysbyty Tywyn (yn ne Merionnydd) yr holl ffordd i Ysbyty Cymunedol y Waun (Wrecsam / Y ffin â Lloegr).

Rhoddir y magnedau ar fyrddau gwyn uwchben / wrth ymyl gwelyau cleifion ac ar fyrddau staffio, gan hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg trwy ganiatáu i gleifion ac aelodau staff sy'n siarad yr iaith gael eu paru gyda'i gilydd.

Ar yr un pryd, mae'r Cynllun Dewis Iaith hefyd yn helpu'r gwaith o gynllunio ar raddfa ehangach o fewn y Bwrdd Iechyd. Gall aelodau'r gweithlu clinigol ehangach, fel ffisiotherapyddion neu fferyllwyr sy'n cynnal ymweliadau â wardiau, ddefnyddio'r magnedau oren i wneud trefniadau rhagblaen angenrheidiol, fel y gellir darparu eu gwasanaethau hwythau hefyd yn unol ag anghenion ieithyddol eu cleifion.

Er bod y cynllun yn cael ei ddarparu'n anffurfiol ar rai safleoedd, mae nifer cynyddol o wardiau bellach yn casglu tystiolaeth ystadegol am ddefnydd y magnedau oren, gan ddarparu adroddiadau misol ar y defnydd a wnaed ohonynt.

Oherwydd gostyngiad yn yr adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth eleni, mae cyflwyno Ffurflenni Awdit Misol ar sawl ward wedi bod yn amhrisiadwy, gan fod y data empirig hwn yn darparu tystiolaeth glir o lwyddiant parhaus y Cynllun Dewis Iaith ar nifer o safleoedd, yn cynnwys Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Cyffredinol Llandudno ac Ysbyty Cymunedol Treffynnon.

Mae cynlluniau eisoes yn eu lle i ymestyn y cynllun ymhellach drwy gyflwyno'r magnedau oren ar y cnewyllun bychan o wardiau lle nad ydynt eto'n cael eu defnyddio, unwaith y bydd y cyfyngiadau Covid-19 presennol yn lleihau.

Mae llwyddiant parhaus y Cynllun Dewis Iaith dros y deuddeg mis diwethaf yn dystiolaeth glir o'r ymdrechion rhyfeddol staff i sicrhau fod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael eu cynnig ar ein wardiau trwy gydol y pandemig, a rhaid canmol yr ymdrechion hyn.

Gwasanaethau Radioleg

Mae Grŵp Cyfathrebu Cleifion Radioleg wedi'i sefydlu i edrych ar ddiwygio ac ailysgrifennu pob dogfen ysgrifenedig a yrrir gan yr adran, ee llythyrau a chanllawiau gwybodaeth a anfonir at bob claf radioleg cyn iddynt ddod i'r ysbyty i gael apwyntiad. Sicrhawyd dwyieithrwydd ym mhob maes cyfathrebu i gydymffurfio gyda Safonau'r Iaith Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'r grŵp wedi gweithio ar lefel gwasanaeth i symud y "Cynnig Rhagweithiol" ymhellach trwy ofyn am a chofnodi dewis iaith y claf. Bellach dim ond yn iaith ddewisol y claf (Cymraeg neu Saesneg yn hytrach na'r ddwy iaith) y gellir anfon canllawiau gwybodaeth a anfonir at gleifion cyn eu hapwyntiadau, gan gyflawni'r "Cynnig Rhagweithiol". Bu'r arloesedd sylweddol yma'n allweddol i allu gwireddu un o brif feysydd blaenoriaeth *Mwy na Geiriau*, sy'n datgan y dylai 'iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol fod â systemau yn eu lle i gofnodi pan fydd Cynnig Rhagweithiol wedi cael ei wneud drwy gofnodi anghenion / dewisiadau ieithyddol yng nghofnodion yr unigolyn."

Datblygiadau Hyfforddiant Cymraeg

Cafodd yr heriau a wynebwyd yn ystod pandemig Covid-19 effaith ar Dîm Hyfforddi y Gymraeg gan fod yn rhaid addasu modelau a darparu addysgu ar blatfform rhithiol. Fodd bynnag, yn dilyn adroddiad gwerthuso o'r ddarpariaeth a gyflwynwyd yn ystod y deuddeng mis diwethaf, mae'n galonogol nodi bod y tîm wedi gallu addasu a newid gwasanaethau i fedru parhau i ddarparu cyrsiau Cymraeg i staff.

Cytunwyd hefyd ar gcontract chwe mis gyda'r 'Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg' dan gynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru o'r enw 'Cynllun Cymraeg Gwaith'. Sicrhodd hyn y gellid parhau i gynnig cyfleoedd a chydweithio.

Darparu Hyfforddiant Cymraeg

Dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf, cynigiwyd amrywiaeth o gyrsiau ar wahanol lefelau. Cwblhaodd 482 o ddysgwyr gwrs ar-lein deng awr a ddarparwyd gan 'Cymraeg Gwaith'. Roedd pum cwrs gwahanol ar gael, gyda dau gwrs wedi'u teilwra'n benodol i'r sector iechyd a gofal. Cofrestrodd 183 o ddysgwyr hefyd ar gyfer y cwrs Cymraeg ar-lein hunan-astudio lefel mynediad 60 awr. Mynychodd deuddeg aelod o staff gwrs dwys yn cael ei redeg gan Nant Gwrtheyrn. Fel arfer, cyflwynir y cyrsiau hyn fel cwrs preswyl wythnos, ond oherwydd y sefyllfa gyda Covid-19, cynhaliwyd y cwrs yma'n rhithiol.

Roedd y cyrsiau hyn yn ychwanegol at yr hyfforddiant a ddarperir yn fewnol gan ein Tiwtor a Swyddog Cymorth Cymraeg. Gweler y tabl isod i gael gwybodaeth am y cyrsiau mewnol y parhawyd i'w darparu.

Enw'r cwrs	Lefel	Dyddiad	Nifer a gofrestr	Nifer a gwbl
------------	-------	---------	------------------	--------------

			rodd	haodd y cwrs
Uwch	Uwch	Medi 2020	5	5
Canolradd	Canolradd	Medi 2020	8	8
Sylfaenol	Sylfaen	Medi 2020	3	0
Mynediad Rhan 2	Mynediad Rhan 2	Medi 2020	14	10
Gofal Gorau 1	Mynediad Rhan 1	Medi 2020	12	11
Gofal Gorau 2	Mynediad Rhan 1	Tach 2020	8	5
Gofal Gorau 3	Mynediad Rhan 1	Ebrill 2021	4	4
Cynnydd Cyflym	Mynediad Rhan 1	Tach 2020	5	5
Gofal Gorau 1	Mynediad Rhan 1	Ion 2021	10	8
Gofal Gorau 1	Mynediad Rhan 1	Ion 2021	6	5
Gofal Gorau 2	Mynediad Rhan 1	Ebrill 2021	9	9
Sesiynau adran radioleg 'Caru eich Cymraeg'	Gwiriad 3-phwynt	Ion 2021	2 sesiwn	3
Sesiynau adran radioleg 'Caru eich Cymraeg'	Atebwch y ffôn yn ddwyieithog	Ion 2021	2 sesiwn	2

Gwerthusiad o'r Hyfforddiant Cymraeg

Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol gan gwmni ymgynghori, 'Sbectrwm' i ddarparu asesiad estynedig a phersbectif diduedd ar y ddarpariaeth allanol a mewnol.

Mae canfyddiadau'r adroddiad gwerthuso yn nodi fod 92.1 y cant o'r dysgwyr yn 'hapus / eithaf hapus' gyda'r ddarpariaeth ddysgu. Nododd yr adroddiad fod yr ymatebion yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn o ystyried y cyfyngiadau ar y tiwtor a'r dysgwyr o ran eu gallu i ryngweithio, i gyflawni gweithgareddau dosbarth ac i wneud defnydd llawn o adnoddau.

Nododd 83 y cant o'r dysgwyr eu bod yn teimlo bod eu dealltwriaeth o'r Gymraeg wedi gwella ar ôl cwblhau cwrs. Nododd yr adroddiad fod hyn yn galonogol gan fod y gallu i ddeall y Gymraeg yn rhoi sylfaen dda iddynt ar gyfer cyfathrebu â phobl eraill.

Diolch yn fawr i Betsi am gynnig y cyfle a'r amser i mi ddysgu Cymraeg. Mae'n dangos eu hymrwymiad i'r iaith, a gobeithio y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Dyma rywbeth y gall rheolwyr a darparwyr fod yn falch ohono ac adeiladu arno i sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn y dyfodol, yn enwedig gyda chleifion a chydweithwyr.

Dywedodd bron i 95 y cant o'r rhai a holwyd eu bod yn awyddus iawn i barhau i ddysgu Cymraeg, sy'n ymateb hynod gadarnhaol ac anogol.

Mae'n bwysig nodi bod dysgwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddwyd gan y tiwtoriaid yn fawr. Mae'r dystiolaeth gan y dysgwyr yn dangos fod tiwtoriaid a lefel gyffredinol y gefnogaeth a roddwyd iddynt gan y Bwrdd Iechyd yn cael eu canmol yn fawr. Cyfeiriwyd dro ar ôl tro at

frwdfrydedd ac ymroddiad y tiwtoriaid a bod eu hanogaeth ddi-baid wedi bod yn ffactor pwysig yn natblygiad ieithyddol nifer o'r rhai a holwyd.

Drwyddi draw, rydym yn hapus iawn ac yn falch o'r adroddiad gan ei fod yn dangos cefnogaeth ac ansawdd uchel ein gwasanaethau i staff.

Cyflwynwyd argymhellion yn yr adroddiad, gan ganolbwyntio ar y materion canlynol:

- Trefnu cyrsiau codi hyder i annog dysgwyr i ddefnyddio cymaint o Gymraeg â phosib
- Trefnu ymgyrchoedd recriwtio penodol i dargedu dysgwyr gyda rhywfaint o Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn hyderus yn eu Cymraeg er mwyn cael mwy o staff i fynychu cyrsiau lefel Ganolradd neu Uwch
- Dylid atgoffa rheolwyr llinell o hawl staff i gael eu rhyddhau i ddilyn cyrsiau Cymraeg yn y gweithle
- Treialu a chynnig cyrsiau hybrid yn y dyfodol
- Tiwtoriaid i dderbyn hyfforddiant ar sut i ddelio â phroblemau technegol sy'n cael effaith negyddol ar brofiad y dysgwr (perthnasol i gyrsiau Canolfan Genedlaethol y Gymraeg yn unig)
- Parhau i gynnal 'Cinio Clebran' i roi cyfle i'n dysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad anffurfiol
- Sicrhau fod yr un lefel o gefnogaeth yn cael ei roi i bob dysgwr ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae cynllun gweithredu sy'n adlewyrchu'r argymhellion uchod wedi ei ddatblygu i gefnogi cyflwyno Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-2022.

Cefnogaeth a Gweithgareddau Hyfforddi Ychwanegol

Mae cefnogaeth hyfforddi anffurfiol wedi'i ddarparu yn rhithiol eleni, trwy glybiau sgwrsio amser cinio a gynhalwyd bob pythefnos, sef 'Cinio Celbran'. Grŵp preifat yw hwn ar gyfer staff ar Facebook, o'r enw 'Ffrindau Dysgwyr Cymraeg Betsi Welsh Learners Friends'. Fe'i defnyddir i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau, cyrsiau a gweithgareddau. Mae'r cyfrif hwn hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ryngweithio, trafod a gofyn cwestiynau mewn amgylchedd anffurfiol ac mae 75 aelod ar hyn o bryd. Mae grŵp cyhoeddus Facebook, 'Dysgwyr Cymraeg Betsi', hefyd wedi'i greu i arddangos enghreifftiau o arfer dda, gyda 140 o ddilynwyr ar hyn o bryd.

Roedd 'Wythnos y Gymraeg' flynyddol y Bwrdd Iechyd hefyd yn gyfle i ennyn diddordeb dysgwyr ar bob lefel. Eleni, cynhaliwyd cystadleuaeth ar-lein, mewn partneriaeth ag Awyr Las a ddarparodd wobrau i staff sy'n dysgu'r iaith. Roedd y gystadleuaeth yn gofyn i ddysgwyr nodi'r enwau Saesneg cywir i enwau lleoedd Cymraeg. Derbyniwyd un ar bymtheg o gynigion a chafodd yr enillydd wibdaith 'rib' ar y Fenai. Cafodd y ddau oedd yn ail dalebau siopa gwerth £20 yr un.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau cytundeb unwaith eto gyda'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg ar gyfer 2021-2022 er mwyn cynyddu lefel y ddarpariaeth y gallwn ei chyflwyno'n fewnol i ddal i fyny â'r galw.

Gwasanaethau Gofal Cychwynnol

Ar 30 Mai 2019, daeth Rheoliadau newydd Llywodraeth Cymru i rym a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob contractwr Gofal Cychwynnol gyflawni chwe dyletswydd mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod yn rhagweithiol wrth gefnogi contractwyr i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn ogystal â datblygu ymhellach yr arlwy cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y gallant ei chynnig a'i darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r gwasanaethau a gynigir gan y Dîm y Gymraeg yn cwmpasu ystod o feysydd sy'n adlewyrchu gofynion y chwe dyletswydd statudol:

- Mynediad at Wasanaeth Cyfieithu y Bwrdd Iechyd
- Darparu adnoddau (bathodynau, llinynnau gwddf 'Siarad Cymraeg', adnoddau a chanllawiau ar gyfer ateb y ffôn yn ddwyieithog)
- Gwersi Cymraeg a ddarperir gan ein tiwtor Cymraeg mewnol a mynediad at gyrsiau ar-lein trwy ein cytundeb gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg
- Recordio negeseuon ateb y ffôn

Ym mis Tachwedd 2020, atgyfnerthwyd y gefnogaeth a oedd ar gael ac a gynigiwyd i gontractwyr gofal cychwynnol a gyrrwyd llythyr i'r holl gontractwyr yn eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaethau a gynigiwyd.

Eleni rydym hefyd wedi gweld effeithiau cadarnhaol prosiect a weithredwyd yn 2019. Cynhaliwyd adroddiad gwerthuso i nodi'r canfyddiadau, ac i ystyried a oedd llwyddiant y prosiect wedi parhau yn 2021-2022. Dewiswyd y Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru fel un o ddau Fwrdd Iechyd yng Nghymru i gynnal prosiect peilot gyda Cymraeg ar gyfer Busnes i gynnig cymorth i ddarparwyr gofal cychwynnol. Mae Cymraeg ar gyfer Busnes yn fenter gan Lywodraeth Cymru sydd â swyddogion ymroddedig (un ar gyfer pob rhanbarth / grwpiau o siroedd ledled Cymru) i helpu a chefnogi pobl i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn eu busnesau o ddydd i ddydd.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru, Cymraeg ar gyfer Busnes a'r Bwrdd Iechyd i bennu ardal a chlwestwr yng Ngogledd Cymru i'w thargedu. Penderfynwyd targedu ardal y dwyrain, a dewiswyd clwestwr De Sir y Fflint. Trefnodd y cydlynnydd clwestwr gyflwyniad mewn cyfarfod clwestwr i drafod y prosiect. Yna cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r meddygfeydd, gan adolygu'r gefnogaeth oedd ar gael gan Cymraeg ar gyfer Busnes a'r Bwrdd Iechyd. Pwysleisiwyd arwyddocâd cynnig gwasanaeth dwyieithog i gleifion hefyd, a phwysigrwyd galluogi cleifion i gael gofal yn eu hiaith ddewisol.

Dyma rai o effeithiau cadarnhaol y prosiect:

2020:

- Cymrodd pump o'r chwe phractis yn y clwestwr a ddewiswyd ran yn y prosiect (mae gan un feddygfa ddwy gangen, un yn yr Wyddgrug ac un ym Mwcle).

- Defnyddiodd pob un ond un o'r meddygfeydd a gymrodd ran naill ein gwasanaeth cyfieithu Cymraeg ni neu wasanaeth cyfieithu Cymraeg ar gyfer Busnes ar gyfer arwyddion o amgylch y meddygfeydd.
- Cyfieithwyd a recordiwyd sawl un o'r negeseuon cyfarch ffôn yn gwbl ddwyieithog.
- Derbyniodd un practis* sesiwn ymwybyddiaeth iaith Gymraeg a sesiwn blasu Cymraeg i staff gan Swyddog y Gymraeg BIPBC.
*Roedd mwy yn mynd i gael eu trefnu ond roedd yn rhaid eu canslo oherwydd Covid-19.

2021

- Yn ddiweddar, defnyddiodd un o'r meddygfeydd wasanaeth cyfieithu 'Cymraeg ar gyfer Busnes' i gyfieithu eu neges ffôn. Yna fe wnaethant gysylltu â Swyddog y Gymraeg BIPBC i fynd i'r practis i recordio'r neges i sicrhau ei bod yn gwbl ddwyieithog.
- Mae Swyddog y Gymraeg BIPBC hefyd wedi bod yn ôl i ymweld â dau safle meddyg teulu arall i'w helpu i gofnodi opsiynau neges ffôn cwbl ddwyieithog.
- Mae practis arall wedi cysylltu â Swyddog y Gymraeg BIPBC i ofyn am arweiniad a chynghor ar gael eu neges ffôn yn ddwyieithog.

Er mwyn gwerthuso lefel y gefnogaeth a ddarparwyd, anfonwyd holiadur at bob practis a gymrodd ran yn y prosiect. Ymatebodd yr holl feddygfeydd yn cadarnhau iddynt elwa o'r prosiect, gydag ymatebwyr yn nodi y byddent yn argymhell y gwasanaeth i eraill. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol hefyd pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn cysylltu â'r swyddogion eto os oedd ganddynt unrhyw ymholiadau am y Gymraeg, gyda rhai yn cysylltu i ofyn am gymorth ac arweiniad pellach yn ystod cyfnod pandemig Covid-19.

Roedd yn galonogol nodi eu bod yn gweld y prosiect yn ddefnyddiol a gwerth chweil. Cawsom oll ein hatgoffa nad dim ond er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau y mae angen cynnig gwasanaethau'n ddwyieithog. Yn bwysicaf oll, mae angen gwneud hynny er budd cleifion.


Bydd llwyddiant y prosiect hwn yn sail i lywio datblygiad prosiect tebyg gyda chontractwyr gofal cychwynnol yn Ynys Môn, mewn cydweithrediad â *Menter Môn*. Mae cefnogaeth bellach i'r sector gyfan hefyd yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i'r gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae porth Gofal Cychwynnol hefyd yn cael ei ddatblygu fel man cychwyn 'un lle' i arwain a chefnogi'r contractwyr ymhellach gyda'r Rheoliadau newydd.


Y Gwasanaeth Cyfieithu

Yn dilyn yr ymateb cynnar i bandemig Covid -19, addasodd y gwasanaeth cyfieithu yn gyflym fel bod yr holl gyfieithwyr yn gallu gweithio o bell er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth llawn a di-dor i staff a chleifion. Roedd cyfieithiadau yr oedd eu hangen ar fyrder yn cynnwys adroddiadau briffio dyddiol i staff a phartneriaid, datganiadau i'r wasg, llythyrau cleifion a thafleini gwybodaeth. Cafodd gwasanaeth tu allan i oriau hefyd ei sefydlu ar gyfer gwaith cyfathrebu brys, ac mae hyn yn parhau i fod yn agwedd allweddol o'n darpariaeth.

Mae'r galw am gyfieithu wedi parhau trwy gydol y flwyddyn adrodd gydag amserlenni tynn ar gyfer dychwelyd gwaith yn cynyddu oherwydd natur y ceisiadau a gyflwynir. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn yr ystod o wasanaethau ac adrannau sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu. O ran cyfieithu ar y pryd, mae'r tîm wedi cefnogi nifer cynyddol o ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae hyfforddiant i wella sgiliau ymhellach ar y gweill ar hyn o bryd.

Ddeunaw mis wedi lansio ein Porth Cyfieithu pwrpasol, cynhaliodd y gwasanaeth cyfieithu arolwg boddhad cwsmeriaid i ddadansoddi a gwerthuso'r porth. Gofynnwyd pa mor hawdd oedd cyrchu'r porth cyfieithu a chyflwyno cais cyfieithu o'i gymharu â'r system flaenorol o anfon cais trwy e-bost. Fel y mae'r siartiau isod yn dangos, roedd 89% o'r rhai a ymatebodd yn fodlon iawn â'r ffordd yr oeddent yn cyrchu'r porth ac roedd 90% yn fodlon iawn â'r ffordd y cyflwynwyd ceisiadau ar y porth.





Mae porth hefyd

hwyluso'r Bwrdd Iechyd mewn ymdrech arloesol i ddarparu gwasanaeth cyfieithu i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Datblygwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y ddau sefydliad a bydd y gwasanaeth yn cychwyn ar 1 Ebrill 2021.

sefydlu'r wedi

Datblygiadau i Wasanaethau a Chyflawniadau Allweddol

Roedd angen dulliau amgen i ddiwallu anghenion dros y flwyddyn ddiwethaf ac er mwyn cynnal lefel y gefnogaeth a dilyniant y gweithgareddau a gyflawnir ar draws y sefydliad mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg byr o rai o'r mentrau mwyaf arloesol a welsom ar draws y Bwrdd Iechyd.

Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog

Nod Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog y Bwrdd Iechyd yw hyrwyddo a hwyluso cynllunio a recriwtio gweithlu yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu'n llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn y sefydliad.

Cychwynnodd yr adolygiad o'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog (fel y'i gelwid yn flaenorol) yn 2019 yn unol â gweithdrefn adolygu polisïau'r Bwrdd Iechyd, ac arweiniodd hyn at wneud nifer o newidiadau. Er nad yw'r newidiadau hynny wedi newid yn sylfaenol y canllawiau a ddarperir yn y polisi, barnwyd eu bod yn angenrheidiol am nifer o resymau.

Roedd yn hanfodol sicrhau bod y fersiwn drafft diwygiedig o'r Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog yn adlewyrchu'r newidiadau gweithdrefnol a sefydliadol a roddwyd ar waith gan Adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn dilyn archwiliad mewnol a gynhaliwyd i sefydlu a oedd ' amgylchedd rheoli cadarn ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd i weithredu gofynion y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a sicrhau cydymffurfiaid â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Dolen i'r adroddiad

Cynhaliwyd yr archwiliad hwn gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar reolaeth a gweinyddiad swyddi gwag 'Cymraeg yn hanfodol' o fewn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cyfiawnhau statws swyddi gwag, polisïau ategol a nodiadau canllaw a chywirdeb a chysondeb y trefniadau adrodd. Cyhoeddwyd adroddiad archwilio mewnol terfynol ym mis Tachwedd 2019 ac mae'r argymhellion yn cael eu hadlewyrchu trwy'r ddogen ddiwygiedig, Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod BIPBC yn parhau i gyflogi digon o staff sydd â sgiliau Cymraeg priodol i'w alluogi i ddarparu ystod eang o wasanaethau gofal iechyd dwyieithog ledled Gogledd Cymru.

Ers sefydlu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn wreiddiol, mae dyletswydd bellach ar y Bwrdd Iechyd i gwrdd â Safonau'r Gymraeg, ac felly roedd yn hanfodol bod datblygiadau deddfwriaethol yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen. O'r herwydd, mae'r penderfyniad i uwchraddio'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a'i droi'n Bolisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog wedi ei gymryd yn bennaf er mwyn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Bwrdd Iechyd i weithredu eu gofynion statudol newydd mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

Mae'r Fframwaith Strategol *Mwy na geiriau* yn cynnwys amcanion penodol sy'n ymwneud â chynllunio a recriwtio gweithlu a chyfeirir at y rhain hefyd yn benodol yn y Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog diwygiedig.

Roedd hefyd yn bwysig adlewyrchu twf a datblygiad darpariaeth hyfforddiant Cymraeg y Bwrdd Iechyd ar gyfer staff o fewn y polisi, gan fod y Rhaglen Hyfforddiant y Gymraeg wedi esblygu'n sylweddol.

Diweddarwyd y polisi a'r llwybr archwilio mewnol i sicrhau bod rheolaethau a mesurau cydymffurfio cadarn yn eu lle, a chafodd ei gymeradwyo gan Grŵp Polisiau a Gweithdrefnau Gweithlu y Bwrdd Iechyd yn Rhagfyr 2020, a chan Fforwm Strategol y Gymraeg ym mis Chwefror 2021, gyda chymeradwyaeth derfynol a sel bendith i'r Strategaeth gan Bwyllgor Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth Y Bwrdd Iechyd (SPPH) ym mis Ebrill 2021.

Dolen i'r Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog

Bydd gweithredu'r Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog fel y cawsant eu diweddarau yn parhau i gryfhau gallu BIPBC i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac felly bydd yn helpu i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn flaengar mewn perthynas â darparu gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Integreiddio Deddfwriaeth i'r broses o Gynllunio Gwasanaethau

Yn Ysbyty Maelor Wrecsam, bu'r Adran Achosion Brys yn gwneud gwaith ar y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu (Unscheduled Care). Y nod oedd deall '*sut mae da yn edrych*' i gleifion sy'n mynd i'r Adran Achosion Brys a

chreu Fframwaith Ansawdd a Chyflenwi Cenedlaethol ar gyfer Adrannau Achosion Brys GIG Cymru (EDQDF).

Mae rhai elfennau o'r prosiect wedi bod yn canolbwyntio ar Safonau'r Gymraeg, gan nodi meysydd o fewn yr adran sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r holl hysbysiadau ac arwyddion wedi'u cyfieithu a'u newid, ynghyd â gwaith i sicrhau bod cyhoeddiadau sain yn yr adran yn ddwyieithog. Oherwydd Covid-19, roedd y gwaith hwn yn gyfyngedig yn ystod y cam cyntaf. Fodd bynnag, mae cynlluniau yn eu lle yn ystod yr ail gam i symud ymlaen â'r gwaith yma i sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn yr adran. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys archwilio safonau cleifion mewnol a safonau cyfathrebu a bydd hynny yn ei dro yn chwarae rhan yn natblygiad y fframwaith EDQDF.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith

Yn flaenorol roedd holl staff y Bwrdd Iechyd yn mynychu sesiwn bwrpasol ar ddechrau eu cyflogaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan o'u rhaglen sefydlu (induction) gychwynnol. O ganlyniad i bandemig Covid-19, ym mis Mawrth 2020 rhoddwyd y gorau dros dro am gyfnod amhenodol i ddarparu hyfforddiant sefydlu wyneb yn wyneb ar gyfer aelodau newydd o'r gweithlu.

Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, gweithiodd Tîm Datblygu Sefydliadol y Bwrdd Iechyd i sicrhau y gallai rhai agweddau ar y rhaglen sefydlu ar gyfer staff newydd gael eu cyflwyno ar-lein ac mae'r sesiwn hyfforddi ystafell ddosbarth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg bellach wedi'i throsi'n gyflwyniad rhyngweithiol Pwerbwynt Microsoft. Er bod testun y cyflwyniad yn gwbl ddwyieithog, mae Swyddogion y Gymraeg y Bwrdd Iechyd hefyd wedi recordio sylwebaethau sain i gyd fynd â'r testun yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn darparu mwy o strwythur a manylder i'r hyfforddiant a hwyluso dealltwriaeth dysgwyr o'r pwnc.

Yn ogystal ag adrannau sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd darparu gwasanaeth gofal iechyd dwyieithog, amlinellu'r ddeddfwriaeth berthnasol a dwyn sylw at brofiadau penodol cleifion, mae'r cyflwyniad Pwerbwynt newydd yn cynnwys manylion am y gefnogaeth sydd ar gael yn uniongyrchol i aelodau'r gweithlu, er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau Cymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd.

Cyflwynwyd sesiynau ymwybyddiaeth iaith hefyd i fyfyrwyr meddygol o Brifysgolion Caerdydd ac Abertawe yng Nghanolfan Israddedigion Ysgol Glinigol Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd. Yn dilyn atal sesiynau wyneb yn wyneb dros dro yn ystod gwanwyn 2020, mae'r cyflwyniad Pwerbwynt uchod hefyd wedi ei roi ar gael i Uned Academiaidd y Bwrdd Iechyd, fel y gellir parhau i drafod ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ystod hyfforddiant sefydlu'r myfyrwyr meddygol.

Cafodd sesiwn fer ynghylch ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ei chynnwys yn y digwyddiad sefydlu i Feddygon Iau yn Ysbyty Gwynedd ym mis Awst 2020 pan laciwyd y cyfyngiadau Covid 19-dros dro gan ganiatáu sesiwn wyneb-yn-wyneb i grŵp bach o unigolion tra'n ymbellhau'n gymdeithasol.

Modiwl Hyfforddi Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg Cymru Gyfan

Yn unol â Safonau 102 a 103 yr Iaith Gymraeg, mae gan Fyrddau Iechyd yng Nghymru rwymedigaeth gyfreithiol bellach i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'w staff.

Felly, yn dilyn trafodaethau ag aelodau eraill Grŵp Swyddogion y Gymraeg y GIG dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru, mae Tîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn arwain y gwaith o gydlyn a datblygu modiwl hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein, a fydd ar gael i holl staff y GIG. ledled Cymru i hwyluso cyflawni'r gofyniad statudol hwn.

Mae'r cynnwys ar gyfer y modiwl wedi cael ei greu gan Dîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd a chafodd proses dendro ei dechrau ym mis Mawrth 2021 i ddod o hyd i ddarparwr allanol i barhau gyda'r gwaith o ddatblygu'r model hwn, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae cynlluniau bellach yn eu lle ar gyfer lansio'r cwrs ar-lein terfynol ar draws Cymru gyfan cyn diwedd y flwyddyn.

Wythnos y Gymraeg 2020

Yn dilyn llwyddiant Wythnosau Cymraeg blaenorol y Bwrdd Iechyd yn 2018 a 2019, cynhaliwyd Wythnos y Gymraeg (Rithiol) dros y cyfnod 12-16 Hydref 2020.

Gan fod y cyfyngiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19 yn parhau i'n rhwystro rhag trefnu rhaglen helaeth arall o ddigwyddiadau mewn safleoedd ledled Gogledd Cymru symudwyd ein dathliad blynyddol diweddaraf o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal iechyd ar-lein. O ganlyniad, prif ffocws yr wythnos yn 2020 oedd lledaenu gwybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i staff. Darparwyd canllawiau wedi'u diweddarau a'u symleiddio ar Safonau'r Iaith Gymraeg, ynghyd â gwybodaeth am y Gwasanaeth Cyfieithu ac argaeledd parhaus cyrsiau hyfforddi Cymraeg i staff.

Bu'r wythnos ddiweddaraf hon o ddathlu gan y Bwrdd Iechyd- yn llwyddiant unwaith eto a chyda chefnogaeth uwch reolwyr y sefydliad, pwysleisiodd ein Prif Weithredwr Dros Dro bwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn neges ysgrifenedig a anfonwyd at bob aelod o staff ar ddechrau'r wythnos.

O ystyried yr amgylchiadau cyfyngol ac anghyffredin, heb os, roedd yr Wythnos Rithiol Gymraeg yn llwyddiant ysgubol ac yn gyfrwng gwerth chweil fel platfform i'r dyfodol ar gyfer ymgysylltu â staff a lledaenu gwybodaeth.

Cymraeg i Blant

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i weithio gyda swyddogion 'Cymraeg i Blant', gan sicrhau bod gwybodaeth am grwpiau a sesiynau ar-lein yn cael ei rhannu ledled gogledd Cymru. Mae bodolaeth grwpiau o'r fath, sy'n hyrwyddo ac amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i gael mynediad at wasanaethau dwyieithog, wedi bod hyd yn oed yn fwy allweddol yn ystod y pandemig i fynd i'r afael â'r unigedd a

[illegible]

Er cymaint oedd llwyddiant y seminarau ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd a myfyrwyr addysg bellach a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod digwyddiadau blaenorol Wythnos y Gymraeg, rhwystrodd pandemig Covid-19 Dîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd rhag trefnu digwyddiadau ymgysylltu pellach yn ystod 2020-21. Yn absenoldeb seminarau wyneb yn wyneb, gorfodwyd Tîm y Gymraeg felly i ddod o hyd i ffyrdd amgen o hyrwyddo manteision dwyieithrwydd fel sgil gyflogaeth hanfodol i bobl ifanc a allai fod yn ystyried gyrfa yn y sector iechyd.

Cafodd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r pecyn fideo eu creu ac roeddent ar gael am ddim i bob ysgol uwchradd a choleg addysg bellach yng Ngogledd Cymru trwy sianel YouTube y Bwrdd Iechyd o ddydd Gwener 16 Hydref 2020.

Yn fuan ar ôl dyfodiad pandemig Covid-19, gorfodwyd sefydliadau addysg bellach ac uwch i symud eu haddysgu ar-lein (yn ystod gwanwyn 2020), ac felly creodd Tîm y Gymraeg gyflwyniad Pwerbwynt Microsoft, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddarparu gwasanaeth gofal iechyd dwyieithog a sut yr hyrwyddir y defnydd o'r Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd. Yn dilyn hynny, defnyddiwyd y cyflwyniad naratif yma i gefnogi dysgu dau fodiwl ym Mhrifysgol Bangor: 'O'r Senedd i'r Swyddfa' a 'Cymdeithas, Iaith a Phrotest'.

Cafodd y negeseuon hyn, a bostiwyd wedyn ar dudalen ddigwyddiadau'r Ffair Swyddi, eu rhannu'n eang gan unigolion a sefydliadau fel Prifysgol Bangor, Y *Coleg Cymraeg Cenedlaethol*, Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru a Choleg Menai Llangefni. O ganlyniad, cafwyd dros 150 yn eu 'hoffi'.

Parhaodd y Bwrdd Iechyd â'u gwaith partneriaethol gydag Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor lle mae myfyrwyr nyrsio wedi cael cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu lleoliadau clinigol yn y Bwrdd Iechyd.

Yn ddiweddar, mae Tîm y Gymraeg wedi cydweithredu â Swyddogion y Gymraeg o Fyrddau Iechyd eraill ar ddatblygu llawlyfr newydd i gefnogi myfyrwyr meddygol sy'n siarad Cymraeg yn ystod eu lleoliadau gwaith mewn safleoedd clinigol ledled Cymru.

Ac yn olaf, dathlu'r GIG!

Eleni, defnyddiodd y Bwrdd Iechyd ddigwyddiadau diwylliannol Cymru i ddathlu'r GIG a'n staff.

Dydd Santes Dwynwen

Cafodd Diwrnod Sant Dwynwen, sy'n dathlu Santes cariadon Cymru ar 25 Ionawr, ei nodi eleni trwy ofyn i staff beth maen nhw'n ei garu am weithio i'r Bwrdd Iechyd a'r GIG. Daeth ymatebion a negeseuon niferus o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd yn nodi pam eu bod yn caru eu swyddi a'u hangerdd dros helpu eraill. Dyma rai enghreifftiau o'r negeseuon a gawsom.

"Rydw i wrth fy modd yn gweithio i'r GIG oherwydd rydw i bob amser yn teimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi a bod y gwaith a wnawn yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Rwy'n caru fy nghydweithiwr a'r gefnogaeth maen nhw bob amser yn ei roi. "

"Rwyf wedi gweithio yn y GIG fel nyrs ers 46 mlynedd a, gydag ambell eithriad, rwyf wedi caru pob munud. Mae wedi bod yn ffrainc llwyr gwireddu breuddwyd plentyndod o fod yn nyrs a helpu pobl. "



"Rwy'n hoffi gweithio i'r GIG oherwydd gallaf gefnogi Plant a Phobl Ifanc ag Anableddau Dysgu a'u Rhieni i weithio ar wahanol agweddau ar eu datblygiad a'u hymddygiad trwy weithio mewn Gwasanaethau Plant Arbenigol yn Ynys Môn. Mae'n ffrainc cael gweithio yn y maes hwn a dyna pam rydw i wedi parhau i weithio i'r un Tîm ers chwarter canrif !! "

Mae'r holl negeseuon a dderbyniwyd wedi eu rhannu ar ein cyfryngau cymdeithasol, a chafwyd dros 100 yn eu 'hoffi'.

Dydd Gŵyl Dewi

Roedd angen rhywbeth gwahanol eleni ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi hefyd. Anfonwyd e-bost at yr holl staff gan ein Prif Weithredwr newydd, Jo Whitehead, yn tynnu sylw at bwysigrwydd y diwrnod yma yng Nghymru a phwyslais a gwerth yr iaith yn y Bwrdd Iechyd a'r gwahaniaeth y gall ei wneud i gleifion.

Er mwyn tynnu sylw at y neges hon fe wnaethom rannu stori bersonol o safbwynt claf, sef Wynne Roberts, sydd hefyd yn Rheolwr Caplaniaeth y Bwrdd Iechyd. Ar ddiwedd 2019 cafodd Wynne ddiagnosis o ganser y coluddyn. Tra yn yr ysbyty yn ystod 2020 aethpwyd â Wynne i'r theatr i gael triniaeth. Disgrifiodd Wynne ei hun fel person dwyieithog yn hapus i gyfathrebu mewn unrhyw iaith, ond bryd hynny sylweddolodd ei fod wedi cael cysur a thawelwch meddwl mawr o glywed y Gymraeg wrth iddo dderbyn ei driniaeth.

Dyma stori Wynne:



Dydd Gŵyl Dewi Hapus! Happy St David's day!



Celebrating St David's Day and the Welsh language is important to us as we understand the importance of the language here in north Wales and the impact it can have on our patients. We would like to take this opportunity to let our patients know that despite Covid-19 it's still a priority for us. Here's an example of how the Health Board has continued to acknowledge language need as part of the care provided from the experiences of a patient (and staff member) Wynne Roberts -

Back in May 2020 Wynne Roberts was at Ysbyty Glan Clwyd where he underwent surgery for bowel cancer. Unfortunately due to some complications Wynne had to spend a month in hospital and had to undergo a number of further treatments. Whilst going into theatre for a procedure Wynne was naturally a little worried and anxious about what was going on. The doctor carrying out the procedure greeted him in Welsh, as did the nurse, which led to the conversation flowing naturally in Welsh. Wynne said **"I do consider myself a bilingual person but right there in the middle of the theatre it was so comforting to hear the Welsh language and to be chatting naturally in Welsh to the Doctor and the nurse. It instantly made me a little less nervous and put me at ease. I greatly appreciated it."**

Wynne went on to add that even with the added worries and complications Covid19 brought to the situation it was made easier for him by not even having to ask the medical team if they spoke Welsh or not. The team had checked his notes and knew he was a Welsh speaker and acted on this.

If staff see that a patient is a first language Welsh speaker they always act on this as it can be reassuring for patients that they can speak to staff in Welsh. During the pandemic it has been tough on patients not being able to see their families during their time in hospital so it has been comforting that they can chat to staff in Welsh.

We would like to take this opportunity to thank staff for their continued hard work to provide services bilingually and for making patients like Wynne feel at ease by doing so.





Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Mae profiad personol Wynne yn esiampl i annog staff i ddefnyddio pa bynnag sgiliau iaith Gymraeg sydd ganddynt gan ei fod yn cynnig cysur a chymorth i gleifion ac yn eu helpu i deimlo'n gartrefol tra byddant dan ein gofal. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ychydig iawn o ymwelwyr, os o gwbl, oedd gan gleifion ar y wardiau. Felly mae clywed staff yn siarad Cymraeg a chael y cyfle i sgwrsio â staff yn y Gymraeg wedi bod hyd yn oed yn fwy pwysig. Dim ond un enghraifft yw stori Wynne o glywed y Gymraeg yn rhoi cysur ychwanegol i glaf yn yr ysbyty ac, yn fwy fyth, yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Data Dangosyddion Perfformiad

Mae'r data a gynhwysir isod yn unol â Safon 120 o Safonau'r Gymraeg o dan Fesur Cymraeg (Cymru) 2011.

Cynllunio'r Gweithlu

- **Nifer a chanran gweithwyr y sefydliad:**
- y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu;

Nifer y Gweithwyr	2018/19		2019/20		2020/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	7954	43	8031	42.4%	8158	41.6%
1 - Entry/ Mynediad	2366	13	2443	13%	2601	13.3%
2 - Foundation / Sylfaen	1185	6	1227	6.5%	1280	6.5%
3 - Intermediate / Canolradd	1243	6.5	1254	6.6%	1307	7%
4 - Higher / Uwch	1502	8	1525	8.1%	1568	8%
5 - Proficiency / Hyfedredd	2217	12	2338	12.4%	2467	12.6%
Cyfanswm	16,467	88.5%	16,818	89%	17,381	89%
Cyfanswm nifer y staff	18,624		18,922		19,610	

Data 2020/2021:

Roedd 89 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR

Data 2019/2020

Roedd 89 y cant o'r holl weithlu wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR

- **Nifer a chanran gweithwyr y sefydliad:**
- gyda sgiliau Cymraeg (fesul lefel sgiliau)

- Pediatreg
- Nyrsio Ysgol
- Ymwelwyr Iechyd
- Meddygaeth Gofal yr Henoed
- Therapi Iaith a Lleferydd
- Anabledau Dysgu
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl:
 - Plant a Phobl Ifanc
 - Oedolion
 - Cymunedol

Pediatreg				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2020/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	127	33.2%	138	34%
1 - Entry/ Mynediad	52	13.6%	54	13.30%
2 - Foundation / Sylfaen	22	5.7%	23	5.67%
3 - Intermediate / Canolradd	24	6.3%	27	6.65%
4 - Higher / Uwch	19	5%	24	5.91%
5 - Proficiency / Hyfedredd	66	17.2	73	18%
Cyfanswm	310	81%	339	83.5%
Cyfanswm nifer y staff	383		406	

Nyrsio Ysgol				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2020/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	58	45	56	43.75
1 - Entry/ Mynediad	17	13.2	21	16.41
2 - Foundation / Sylfaen	1	0.8	1	0.78
3 – Intermediate / Canolradd	3	2.3	5	3.90
4 - Higher / Uwch	18	13.9	14	10.94
5 - Proficiency / Hyfedredd	26	20.1	27	21.09
Cyfanswm	123	95.3%	124	96.87
Cyfanswm nifer y staff	129		128	

Ymwelwyr Iechyd				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2021/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	123	38.4	125	39.93
1 - Entry/ Mynediad	53	16.6	50	15.98
2 - Foundation / Sylfaen	17	5.3	15	4.80
3 - Intermediate / Canolradd	26	8.1	27	8.62
4 - Higher / Uwch	34	10.6	31	9.90
5 - Proficiency / Hyfedredd	52	16.3	54	17.25
Cyfanswm	305	95.3%	302	96.48%
Cyfanswm nifer y staff	320		313	

Meddygaeth Gofal yr Henoed				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2020/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	67	28.1	65	26.97
1 - Entry/ Mynediad	18	7.6	13	5.39

2 - Foundation / Sylfaen	20	8.4	18	7.47
3 - Intermediate / Canolradd	18	7.6	18	7.47
4 - Higher / Uwch	47	19.7	45	18.67
5 - Proficiency / Hyfedredd	26	10.9	25	10.37
Cyfanswm	196	82.3	184	76.34%
Cyfanswm nifer y staff	238		241	

Therapi Iaith a Lleferydd				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2020/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	69	40.6	70	37.84
1 - Entry/ Mynediad	14	8.3	12	6.49
2 - Foundation / Sylfaen	9	5.3	9	4.86
3 - Intermediate / Canolradd	18	10.6	16	8.65
4 - Higher / Uwch	23	13.6	24	12.97
5 - Proficiency / Hyfedredd	35	20.6	46	24.86
Cyfanswm	168	99%	177	95.67%
Cyfanswm nifer y staff	170		185	

Anableddau Dysgu				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2020/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	119	32.4	117	32.41
1 - Entry/ Mynediad	64	17.4	64	17.73
2 - Foundation / Sylfaen	41	11.2	36	9.97
3 - Intermediate / Canolradd	35	9.5	37	10.25
4 - Higher / Uwch	47	12.8	46	12.74
5 - Proficiency / Hyfedredd	51	13.9	50	13.85
Cyfanswm	357	97.2	350	96.95%
Cyfanswm nifer y staff	367		361	

Gwasanaethau Iechyd Meddwl - CAMHS				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2020/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	115	50.4	113	46.31
1 - Entry/ Mynediad	38	16.7	50	20.49
2 - Foundation / Sylfaen	15	6.6	21	8.61
3 - Intermediate / Canolradd	15	6.6	12	4.92
4 - Higher / Uwch	11	4.8	9	3.69
5 - Proficiency / Hyfedredd	15	6.6	19	7.78
Cyfanswm	209	91.7	224	91.80%
Cyfanswm nifer y staff	228		244	

Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Cymuned				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2020/21	
Gwasanaethau Iechyd Mental - Cymuned	Cyfanswm		Cyfanswm	
0 - No Skills / Dim Sgiliau	144	35.8	150	37.13
1 - Entry/ Mynediad	68	16.9	72	17.82
2 - Foundation / Sylfaen	38	9.5	36	8.91
3 - Intermediate / Canolradd	48	11.9	47	11.63
4 - Higher / Uwch	23	5.7	25	6.19

5 - Proficiency / Hyfedredd	57	14.2	57	14.11
Cyfanswm	378	94%	387	95.79%
Cyfanswm nifer y staff	402		404	
Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Oedolion				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2020/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	260	42.6	263	42.76
1 - Entry/ Mynediad	90	14.8	91	14.80
2 - Foundation / Sylfaen	57	9.3	50	8.13
3 - Intermediate / Canolradd	55	9	56	9.11
4 - Higher / Uwch	40	6.5	41	6.67
5 - Proficiency / Hyfedredd	84	13.8	88	14.31
Cyfanswm	586	96%	589	95.78%
Cyfanswm nifer y staff	543		615	

Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Pobl Hŷn				
Nifer y Gweithwyr	2019/20		2020/21	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	82	41	84	37.84
1 - Entry/ Mynediad	40	20	45	20.27
2 - Foundation / Sylfaen	7	3.5	10	4.50
3 - Intermediate / Canolradd	19	9.5	18	8.11
4 - Higher / Uwch	20	10	24	10.81
5 - Proficiency / Hyfedredd	22	11	25	11.26
Cyfanswm	190	95%	206	92.79%
Cyfanswm nifer y staff	200		222	

Hyfforddiant Gwella Sgiliau Cymraeg

- Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i lefel cymhwyster penodol***

Data 2020/2021:

Nifer gweithlu'r sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i gymhwyster penodol: 752

Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 3.8 y cant o weithlu presennol y Bwrdd lechyd

Data 2019/2020:

Nifer gweithlu'r sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i gymhwyster penodol: 1259

Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 6.6 y cant o weithlu presennol y Bwrdd lechyd

Recriwtio

- ***Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gyda'r gofyniad:***

Data 2020/2021:

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol 236 (6.1 y cant)
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol 3595 (92.6 y cant)
- Sgiliau Cymraeg i'w dysgu 17 (0.4 y cant)
- Cymraeg ddim yn sgil ofynnol 33 (0.9 y cant)
- Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd 3881

Data 2019/2020:

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol 200(6.2 y cant)
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol 3006(92.6 y cant)
- Sgiliau Cymraeg i'w dysgu 4(0.1 y cant)
- Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd 3210

Cwynion

- ***Nifer y cwynion a dderbyniwyd ynghylch gweithredu Cynllun y Gymraeg***

Derbyniodd y Bwrdd lechyd bedair cwyn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau'r Gymraeg, a gafodd sylw llawn o dan y Rheoliadau *Gwneud Pethau'n lawn*. Yn ogystal, cychwynnodd Comisiynydd yr Iaith ddau ymchwiliad. Penderfynodd canfyddiadau'r ddau ymchwiliad nad oedd y Bwrdd lechyd wedi methu â chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Comisiynydd gamau ac argymhellion yn dilyn yr ymchwiliad i'r Gwasanaethau Meddyg Teulu Tu Allan i Oriau. Mae hyn eisoes wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn (Sicrwydd Perfformiad Mewnol, tudalen 4).

Casgliad a Gweledigaeth ar gyfer 2021- 2022

Dangosodd yr adroddiad hwn bod cynnydd wedi parhau:

- I wella ansawdd y gofal a ddarperir gennym yn iaith ddewisol y claf
- I gynyddu cydymffurfiaid â'r gofynion cyfreithiol a statudol
- I adnabod dulliau a roddwyd ar waith ac a ledaenwyd mewn ymateb i anghenion ieithyddol fel elfen annatod o'r gofal a gynigir
- I ddatblygu'n well sefydliad o ran sut yr ydym yn cefnogi'r gweithlu i allu cyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

Fodd bynnag, er mwyn canolbwyntio ar wella yn ogystal â chynnal Gwasanaethau'r Gymraeg yn ystod pandemig Covid-19, mae cynllun blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2021-2022 wedi'i fireinio i gynnwys pedwar amcan allweddol:

1. Sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu cyflawni ledled y sefydliad
2. Cefnogi'r gweithlu i ddatblygu a gwella sgiliau Cymraeg trwy weithredu'r Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog
3. Adeiladu ar y Cynnig Rhagweithiol er mwyn darparu gwasanaethau a sicrhau mynediad amserol i ofal yn yr iaith fwyaf addas
4. Darparu gwasanaeth cyfieithu cynhwysfawr amserol ar draws y sefydliad

Yn cefnogi'r amcanion hyn mae allbynnau manwl a dangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn caniatáu i wasanaethau berchnogi'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn eu maes gweithredu, ynghyd â thargedu cefnogaeth i'r lle mae ei angen fwyaf a datblygu seilwaith hunanreoleiddio gyda llais y claf yn greiddiol iddo.

Rydym yn awyddus felly i symud ymlaen ein gwaith o gyflawni ein rhwymedigaethau statudol fel y gallwn wella'n gwasanaethau ymhellach yn yr iaith a ddewisir ganddynt ar gyfer ein cleifion sy'n siarad Cymraeg.

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd 23 ^{ain} Medi 2021					
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus					
Teitl yr Adroddiad: Report Title:	Crynodeb o'r busnes a ystyriwyd mewn sesiwn breifat i'w adrodd yn gyhoeddus					
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd					
Awdur yr Adroddiad: Report Author:	Mrs Kate Dunn, Pennaeth Materion Corfforaethol					
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Dim					
Atodiadau Appendices:	Dim					
Ydi/Nac ydy i nodi a yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol						
Argymhelliad / Recommendation:						
Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad						
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer trafodaeth For Discussi on		Ar gyfer sicrwydd For Assurance		Er gwybodaeth For Information ✓
Sefyllfa / Situation:						
Adrodd mewn sesiwn gyhoeddus ar faterion a ystyriwyd yn flaenorol mewn sesiwn breifat						
Cefndir / Background:						
Mae Rheol Sefydlog 6.5.3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adrodd yn ffurfiol ar unrhyw benderfyniadau a wneir mewn sesiwn breifat i gyfarfod nesaf y Bwrdd mewn sesiwn gyhoeddus. Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgor.						
Asesiad / Assessment:						
Ystyriodd y Bwrdd Iechyd y materion canlynol mewn sesiwn breifat:						
15 ^{fed} Gorffennaf 2021						
Achos Busnes Llawn Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru						

- Cymeradwyo Derbyn y Tendir a Argymhellir ar gyfer datblygu Wardiau 6 a 10 yn Ysbyty Glan Clwyd
- Cymeradwyo hawliad gwerth uchel